Comisiwn Ffiniau
i Gymru

Boundary Commission
for Wales

Comisiwn Ffiniau
i Gymru

# Cyfnod Ymgynghori Eilaidd: Cynrychiolaethau

Cyfrol 1: 10077- 10177

**BCW-10077/ [redacted]/ Y Trallwng**

[redacted]

17 Chwefror 2022

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Llawr Gwaelod, Tŷ

Hastings,

Llys Fitzalan, Caerdydd CF24 0BL

Annwyl Syr,

Hoffwn gadarnhau fy nghefnogaeth i’r newidiadau i’r ffiniau sy’n effeithio ar fywyd yn Sir Drefaldwyn, sy’n dangos awydd i gadw Sir Drefaldwyn, yn ei chyfanrwydd, o fewn etholaeth newydd ac estynedig arfaethedig Maldwyn a Glyndŵr.

Priodweddau Sir Drefaldwyn

Wrth addasu neu gywiro unrhyw ffiniau, neu wrth ddefnyddio arian cyhoeddus yn effeithlon ar gyfer cynrychiolaeth, rhaid i ni beidio ag anghofio prif elfennau’r holl ystyriaethau, sef cydnabod a diogelu, cyn belled ag y bo modd, yr holl integreiddio cymunedol hirsefydlog a llesiant pob dinesydd sy’n dynodi ei fod yn perthyn ac yn cyfrannu i ddiogelwch ei gyd-ddinasyddion o fewn a thu hwnt i’w ffiniau, gan gynnal hunaniaeth gymunedol.

Rwy’n sicr bod y cynigion diweddaraf ar gyfer newid ffiniau yn dangos dosbarthiad mwy cyfartal o’r dewis rhifiadol ar gyfer cynrychiolaeth dinasyddion, gyda gwelliant mewn effeithlonrwydd etholiadol ar gyfer Sir Drefaldwyn, ac mai dyma’r drefn orau i bob un o’n dinasyddion, o fewn eu rhanbarthau priodol.

Rwyf wedi cymryd rhan mewn llawer o weithgarwch yn ymwneud â Sir Drefaldwyn: - chwaraeon, cyngor iechyd cymuned, deoniaeth Cymru, cadeirydd y gist Gymunedol, tai cymdeithasol a gofal ac atgyweirio ym Mhowys, ac mae hyn oll wedi rhoi llawer o foddhad, ac mae fy amcan personol o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i unrhyw weithgarwch y cymeraf ran ynddo wedi bod yn gadarnhaol. Byddai’n drist iawn pe bai Sir Drefaldwyn yn cael ei rhannu a’i tharfu gan addasiadau i’w ffiniau.

[redacted] Llanerfyl, Powys

**BCW-10078 / [redacted] / Pen-y-bont ar Ogwr**

Ar ôl edrych ar y cynnig, byddwn yn eich annog i ailystyried y tai sydd ar ymyl eithaf y ffin arfaethedig.
Yma yn [redacted] a'r [redacted], mae 43 o anheddau sy'n agosach at Ewenni a Phen-y-bont ar Ogwr nag unrhyw le arall.
Ysgolion ein plant yw'r [redacted] a [redacted], a ddaw o dan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, felly mae'n gwneud mwy o synnwyr i'n cynnwys o fewn ffin Pen-y-bont.
Cawsom ein gadael ar y tu allan ers y newid i'r ffiniau a'n symudodd o'r Fro i Ferthyr Mawr, sef newid arall heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â ni, gan ein bod yn agosach at y dref yn hytrach nag ardal wledig.
Mae'n ymddangos y bu Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn talu am addysg ein plant, felly byddai ond yn deg i'n cymuned fach gael ei gosod gyda Phen-y-bont ar Ogwr yn hytrach nag Aberafan, Porthcawl a'r cymoedd.

**BCW-10079/ [redacted] / Trefeglwys**

**Oddi wrth**: [redacted]
**Anfonwyd:** 17 Chwefror 2022 08:51
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Yml: Newidiadau i ffiniau Sir Drefaldwyn

Annwyl gomisiwn.
Rwyf wedi darllen eich cynigion yn fanwl ynghylch ehangu ein sir i gynnwys y cymdogion gogleddol.
Er fy mod yn weddol fodlon â'ch cynigion, hoffwn roi fy sylwadau personol i chi.
Yn gyntaf ac yn bennaf, mae Sir Drefaldwyn yn sir hynafol a hanesyddol sydd â gwreiddiau diwylliannol cryf a sefydledig iawn. Felly, yr hyn sydd bwysicaf yw peidio â cholli enw Sir Drefaldwyn a'i ffiniau presennol, h.y. peidio â rhannu'r sir mewn unrhyw ffordd na lleihau ei maint. Rwy'n deall na fyddai'r olaf yn destun trafodaeth oherwydd pwysigrwydd cael etholaethau gweddol gyfartal o ran poblogaeth.
Er y byddai'n well gennyf adael Sir Drefaldwyn fel y mae, mae eich cynigion, sy'n gosod y sir bresennol yn ei chyfanrwydd o fewn sedd ehangach Maldwyn a Glyndŵr, yn cydnabod yr ardal fel sedd sirol a seneddol hanesyddol, ond gan fodloni paramedrau'r arolwg ar yr un pryd.
Felly, yn yr amgylchiadau hynny, byddwn yn hapus i dderbyn y sir ehangach arfaethedig.
Ni fyddwn mewn UNRHYW amgylchiadau yn ystyried cynnig sy'n cael ei awgrymu ar hyn o bryd gan y Democratiaid Rhyddfrydol, Plaid Cymru a'r Blaid Werdd, sy'n dymuno rhannu'r sir yn ddwy.
Gofynnaf i chi dderbyn fy marn yn ddidwyll fel dinesydd balch iawn o Sir Drefaldwyn sy'n 76 oed, a anwyd yma ac y bydd yn marw yma. Mae'r rhain yn safbwyntiau cryf iawn.
Yr eiddoch yn gywir.
[redacted]

**BCW-10080/ [redacted] / Croesoswallt**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** [redacted] we ror 2022 11:38
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Ynghylch: Maldwyn a Glyndwr - y cynnig i ehangu'r etholaeth

Mae fy ngwr a minnau'n falch dros ben ein bod yn byw yn Sir Drefaldwyn. Mae'r ddau ohonom yn cefnogi'n llwyr y cynnig ar gyfer ehangu'r etholaeth. Mae'n gynnig sy'n dangos 61 meddwl gofalus, a fyddai o fudd i Sir Drefaldwyn a'r ardaloedd i'r gogledd o'r sir.

Mae'r prif gynnig i leihau niter yr Etholaethau Seneddol yng Nghymru o 40 i 32 yn gwneud synnwyr llwyr.

Yr eiddoch yn gywir, [redacted]

**BCW-10081/ [redacted] Ceidwadwyr Sir Drefaldwyn/ Y Trallwng**

Croesawaf y cynnig, gan nad yw'n rhannu sir hanesyddol Sir Drefaldwyn. Bydd cysylltu'r sir â Glyndŵr yn sicrhau bod gofynion yr arolwg yn cael eu bodloni, ond gan gadw Sir Drefaldwyn fel uned o fewn yr etholaeth newydd, ynghyd â'i hunaniaeth gymdeithasol ac economaidd bresennol.

**BCW-10082/ [redacted] / Anhysbys**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 19 Chwefror 2022 14:38
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Gorllewin Casnewydd

Helô,

Anogaf y comisiwn yn gryf i fabwysiadu'r gwrthgynnig (BCW-9929) gan Mr Wayne David AS.

Mae cysylltu Gorllewin Casnewydd â Threcelyn yn drefniant llawer mwy naturiol a realistig.

[redacted]

**BCW-10083/ [redacted] / Meifod**

Cynrychiolwyd Sir Drefaldwyn fel sir ers 1542 ac mae ganddi ei hunaniaeth ei hun – mae Cymdeithasau Sir Drefaldwyn yn Llundain ac mewn mannau eraill, sy'n arwydd o'i hunaniaeth, a dylid parchu ei hunaniaeth unigryw o fewn yr arolwg ffiniau. Er fy mod yn derbyn yr angen am y newidiadau i'r ffiniau at ddibenion cydraddoldeb, teimlaf yn gryf iawn y dylid cynnal uniondeb yr hen sir yng nghyfansoddiad yr etholaeth. Byddai rhannu'r sir yn drychineb o safbwynt hanesyddol, a byddai hynny'n rhannu pobl sydd â hunaniaeth gyffredin ers cenedlaethau.

Credaf mai'r ateb o gynnal y sir o fewn sedd ehangach Maldwyn a Glyndŵr yw'r dewis gorau, gan uno Sir Drefaldwyn ag ardaloedd sydd â'r un cysylltiadau agos â Glyndŵr ei hun. Bydd hyn yn ychwanegu at amrywiaeth y sir yn ei rhannau gogleddol mwy trefol, a hefyd yn atgyfnerthu amlygrwydd amaethyddol y sedd wrth ychwanegu ardaloedd megis Dyffryn Ceiriog. Yn ogystal, bydd hyn yn ychwanegu at botensial y sedd ar gyfer twristiaeth, wrth ychwanegu ardaloedd fel Y Waun a Llangollen, a fydd yn ategu ac yn cryfhau'r hyn sydd gan y ddwy ardal i'w gynnig.

Rwy'n cefnogi newid y sedd i Faldwyn a Glyndŵr.

**BCW-10084/ [redacted] / Caersws**

[redacted]

15/2/2022

Ymgynghoriad ar Arolwg 2023

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings,

Llys Fitzalan

Caerdydd CF240BL

Annwyl Foneddigion,

Er ein bod yn deall y gall fod angen newid, bu Sir Drefaldwyn yn rhan o hanes Cymru ers 1542, a theimlwn na fyddai ei rhannu yn fuddiol i'r sir a'i phobl. Fodd bynnag, wrth gynnal Sir Drefaldwyn o fewn etholaeth Seneddol newydd Maldwyn a Glyndŵr, ceir rhywfaint o gydbwysedd rhwng bodloni paramedrau'r Comisiwn a chadw hunaniaeth gymunedol a hanesyddol Sir Drefaldwyn.

Yr eiddoch yn gywir

[redacted]

**BCW-10085/ [redacted]/ Sir Drefaldwyn**

[redacted]

18 Chwefror 2022

Ymgynghoriad ar Arolwg 2023
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings
Llys Fitzalan, Caerdydd
CF24 0BL

I bwy bynnag a fynno wybod,

Ysgrifennaf i gefnogi cynnig y Comisiwn ar gyfer etholaeth Maldwyn a Glyndŵr, ac i wrthwynebu'n gryf unrhyw wrthgynigion dilynol sy'n ceisio rhannu'r gymuned hanesyddol hon yn ddwy.

Mae pobl Sir Drefaldwyn a De Clwyd yn rhannu'r un hanes ac mae ganddynt gysylltiadau cryf. Byddai uno ardaloedd o Dde Clwyd yn etholaeth newydd Maldwyn a Glyndŵr yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng y cymunedau hyn, yn ogystal â helpu i ailgydbwyso'r anghysonderau demograffig a grëwyd gan ymfudo mewnol dros y ddau ddegawd diwethaf. Mae hwn yn gynnig llawer mwy synhwyrol na'r rhai blaenorol, a oedd yn awgrymu rhannu Sir Drefaldwyn yn ddarnau i'w hychwanegu at etholaethau eraill, sydd â llawer llai o gysylltiadau â phoblogaethau lleol.

Pe bai Sir Drefaldwyn yn cael ei rhannu, yn ôl y cynigion cychwynnol sydd bellach wedi'u rhoi o'r neilltu, byddai wedi rhannu cymuned glos ac wedi creu pryder ac ansicrwydd afresymol ynghylch y gwahaniaethau dryslyd mewn ffiniau, gyda Sir Drefaldwyn yn parhau i gael ei chynrychioli'n llawn yn y Cynulliad/Senedd, ond wedi'i rhannu yn Senedd San Steffan ac ar draws Cynghorau sir.

Credaf yn gryf fod y cynigion presennol ar gyfer sedd Maldwyn a Glyndŵr yn cyflawni paramedrau'r arolwg yn llawn, a hefyd yn cynnal ac yn cydnabod hanes Sir Drefaldwyn.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

[redacted]

**BCW-10086/ [redacted] / Brynbuga**

Fel preswyliwr yn Sir Fynwy, rwy'n gryf o blaid cadw ffin yr etholaeth yn gydffiniol â ffin y Cyngor Sir.

**BCW-10087/ [redacted] / Conwy**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** [redacted] 2022 12:23
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Ynghylch: Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol - Aberconwy a Chlwyd

Yn dilyn negeseuon e-bost blaenorol, gofynnaf i chi dderbyn y cyflwyniad hwn fel rhan o'r ail ymgynghoriad:

Mae'r cynigion cychwynnol yn yr arolwg o Etholaethau Seneddol yn cynnig rhannu'r wardiau sy'n llunio Cyngor Tref Bae Colwyn rhwng etholaethau Aberconwy a Chlwyd, a gallai hyn, ynddo'i hun, fod yn ddryslyd o safbwynt gweinyddol. Cynigir:

- Cynnwys wardiau Rhos a Dinarth yn Aberconwy
- Cynnwys wardiau Glyn, Colwyn, Rhiw ac Eirias yng Nghlwyd

Fel rhan o'r arolwg etholiadol diweddar ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mae rhan o ward Rhiw sydd i'r gogledd o ffordd yr A55 wedi'i throsglwyddo i ward Rhos. Fel rhan o gynigion y Ffiniau Seneddol, bydd ward Rhos yn Aberconwy a ward Rhiw yng Nghlwyd.

Rhaid i'r arolwg presennol ystyried y newid hwn i'r ffin os bydd y cynigion i rannu'r wardiau sy'n llunio Cyngor Tref Bae Colwyn yn mynd yn eu blaen.

Cofion

[redacted]

Gwasanaethau Democrataidd/ Head of Democratic Services
Y Gyfraith a Llywodraethu/ Law and Governance
Cyngor Bwrdeistref Sirol CONWY County Borough Council

**BCW-10088/ Cyng S J Skivens- Cyngor Cymuned Penyrheol Trecenydd Energlyn/ Caerffili**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 22 Chwefror 2022 13:03
**At: CFfG** <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Arolwg Ffiniau Seneddol: etholaeth Caerffili

Prynhawn da

Atodaf lythyr gan Gyngor Cymuned Penyrheol Trecenydd Energlyn mewn perthynas â'r Arolwg Ffiniau Seneddol: Etholaeth Caerffili.

Diolch yn fawr.

[redacted]

--
[redacted]
Clerc y Cyngor
Cyngor Cymuned Penyrheol Trecenydd Energlyn

*CYNGOR CYMUNED*
*PENYRHEOL TRECENYDD ENERGLYN*
*COMMUNITY COUNCIL*

[redacted]

Comisiwn Ffiniau Seneddol 18 Chwefror 2022

Annwyl Syr/Madam

**Arolwg Ffiniau Seneddol: Etholaeth Caerffili**

Isod, gweler sylwadau casgliadol gan breswylwyr, cynghorwyr a pherchenogion busnesau, gan sampl fach o'r boblogaeth, ar y newidiadau arfaethedig i ffiniau sy'n effeithio ar gynrychiolaeth gan Aelod Seneddol (AS) ar gyfer yr ardal.

**Cyflwyniad**

Fe'n hysbyswyd bod yr arolwg ffiniau yn gofyn am sylwadau gan amrywiaeth o sefydliadau, pobl o ardaloedd yr effeithir arnynt, ac awdurdodau sy'n gwasanaethu'r ardaloedd hyn, ar yr effaith sydd ymhlyg yn y newidiadau arfaethedig.
Isod, gweler arsylwadau casgliadol gan Gyngor Cymuned Penyrheol Trecenydd Energlyn (PTE) fel ein cyflwyniad yn erbyn y cynigion presennol ar gyfer newid ffiniau.

Rydym wedi ceisio gwneud pwyntiau perthnasol; fodd bynnag, gellir darparu rhagor o fanylion os oes angen neu os croesewir ymgynghoriad pellach.

**Nodi Ffiniau**

Ers cenedlaethau, mae cymunedau wedi defnyddio marcwyr ffiniau i nodi eu hardaloedd yn glir.

Mae'r rhain yn farcwyr adnabyddadwy ac amlwg sy'n gallu bod yn glir, yn weladwy ac â natur go sefydledig. Mae hyn yn galluogi cyfathrebu, gweinyddu a sicrhau diogelwch yn hawdd. Ceir teimlad gwirioneddol o le, a pharhad o ran adnabod pobl, diwylliant a normau cymdeithas a ddisgwylir ac a grëir.

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd yn yr ardal hon ac yn aml ledled y byd lle nad yw ffiniau'n glir, neu maent yn anweledig, neu'n llinell ddienw a dynnwyd ar draws map, gall gwrthdaro a dryswch godi o ganlyniad, ac yn aml, dyna beth sy'n digwydd.

Gall enghreifftiau gynnwys dalgylchoedd ysgolion, pwy sy'n gyfrifol am gasglu gwastraff, a ph'un a oes is-ddeddfau neu reoliadau yn yr ardal mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion, a all fod yn wahanol i ardaloedd eraill.

Yn absenoldeb unrhyw gysoni ac atgyfnerthu cyfathrebiadau yn barhaus, a'r gallu i reoli, mae llawer o ymdrech yn mynd ar ymdrin ag ymholiadau, anghydfodau, materion cyfreithiol neu feysydd pynciau cymorth, h.y. grantiau, rheoliadau neu ddyraniadau ariannol, a chysylltiadau a mynediad at gyngor neu arweiniad. Os derbynnir y pwynt hwn, yna gallwn dybio y gall marcwyr ffiniau ffisegol fod o gymorth mawr i bawb wrth sefydlu ffiniau rhwng ardaloedd.

Er enghraifft, ers cyfnod y Rhufeiniaid o leiaf, defnyddiwyd Afon Rhymni fel marciwr ffin clir. Yn yr un modd, defnyddir ffyrdd, lleiniau cefn gwlad agored rhwng cytrefi, mynyddoedd neu gribau, a hyd yn oed ardaloedd coetir (coedwigoedd pren caled), yn wreiddiol fel arwydd o ardaloedd llwythol er mwyn cael ffiniau clir ac osgoi gwrthdaro. Felly, caiff ffin ei nodi'n glir, ei chyfleu'n glir, ac mae gan bobl ddisgwyliadau o ran gwasanaethau, diwylliant, gweinyddiaeth ac yn fwyfwy, yr iaith a ddefnyddir mewn ardal. Ceir disgwyliad o brofiad cymunedol.

## Symud Ffiniau

Mae'n ymddangos ein bod wedi gweld newidiadau i'r ffiniau a osodwyd yn yr ardal hon dros y 100 mlynedd diwethaf, yn aml gydag effeithiau negyddol ar unigolion, grwpiau a sefydliadau.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y cymunedau yr effeithir arnynt yn arddel cysylltiad â threfniant disgwyliedig eu hardaloedd traddodiadol, sydd weithiau'n amherthnasol i ardaloedd a ffiniau a orfodir gan awdurdod.

Felly, rydym wedi gweld Morgannwg, Cwm Rhymni, Sir Fynwy, Penyrheol, Trecenydd, Energlyn, Bedwas, Trethomas, Machen, Nantgarw, Groes-wen, Ffynnon Taf, Ystrad Mynach a llawer o ardaloedd pellennig eraill yn cael eu dal mewn newidiadau cyfnewidiol i ffiniau, sy'n arwain yn aml at lefel uchel o ddryswch ac agweddau negyddol a ddaw i'r amlwg, a'r hyn y gellir ei ystyried yn gostau gwastraffus. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Dosbarth Cwm Rhymni, Cyngor Dosbarth Trefol Caerffili, Morgannwg Ganol a Sir Forgannwg, i gyd yn rhoi syniad o newidiadau gweinyddol a wnaed, ac mae derbyniad y model presennol yn eu hedwino i'r gorffennol, ond maent yn parhau i ddylanwadu ar hunaniaeth pobl o ran lle.

Ac eto, pan fyddwn yn mynd ati i ofyn i bobl yn yr ardaloedd hyn am eu cysylltiad ag ardal, maent fel arfer yn adlewyrchu ffiniau a threfniadau llawer hŷn. Maent wedi uniaethu ag ardal, a'i ffiniau cydnabyddedig a'i normau neu ffyrdd o wneud pethau, ac mae hyn yn treiddio.

Felly, a yw pobl leol yn ardal Caerffili yn cydnabod cydnawsedd â Chasnewydd neu Went? Yr ateb a roddir dro ar ôl tro yw na pendant. Maent yn uniaethu â Chaerffili fel rhan o hen strwythurau Cwm Rhymni, Morgannwg Ganol, neu Sir Forgannwg.

## Effeithiau

Yn aml, mae symudiad pobl mewn ardal yn adlewyrchu'r patrwm ymddygiad o fewn ffiniau. Mae'n adlewyrchu sut mae cymdeithasau'n byw, yn gweithio neu'n cael eu haddysgu ac yn tyfu i fyny. Mae pobl yng Nghaerffili yn dueddol o gyfathrebu, cymudo, cymdeithasu a chydberthyn naill ai'n fertigol o'r gogledd i'r de ac i'r gwrthwyneb, neu o'r dwyrain i'r gorllewin.

Prin y gwelir symudiad tua'r dwyrain i Gasnewydd neu Went. Mewn gwirionedd, mae seilwaith gwael neu ddileu cysylltiadau ar draws cymoedd, (h.y. toriadau Beeching rhwng 1963 a 1965) yn tarfu ar hwylustod symud, yn ogystal â thopograffi a symud ffisegol; ceir rhwystrau neu gyfyngiadau yn amlwg ac mae'r rhain wedi cynorthwyo neu adlewyrchu patrymau ymddygiad cymdeithasol. Mae pobl yr ardal hon yn symud tuag at Gaerdydd neu Bontypridd ac yn ôl, nid i Gasnewydd neu i drefi Gwent.

Daw'n amlwg bod yn rhaid i unrhyw safbwynt cynrychiadol a sefydlir gael ei gydnabod yn glir gan gymunedau fel un sy'n cwmpasu eu hardal ac sy'n adlewyrchu safbwyntiau, problemau a datblygiad y gymuned letyol yn eu hunaniaeth hunan-benderfynol draddodiadol.

Felly, mae'n amlwg bod Aelod Seneddol dros Gaerffili yn cynrychioli ardal gydnabyddedig, a derbyniwyd hyn yn draddodiadol fel safbwynt hirdymor.

## Diwylliannau

Mae gan Benyrheol, Trecenydd, Energlyn a Chaerffili ddiwylliannau gwahanol i Gasnewydd a llawer o drefi a phentrefi Gwent. Mae busnes yn dra gwahanol, ceir gwahaniaethau o ran safonau a pherthnasoedd economaidd-gymdeithasol, ynghyd â mathau o dai, y stoc dai a'u dwysedd.

Ceir gwahaniaethau o ran cymdeithasoli, gyda statws Dinas Casnewydd, ei phorthladd rhyngwladol, treftadaeth ddiwydiannol, economi fywiog ac eang, a dewisiadau cyflogaeth, i gyd yn creu senario ddiwylliannol wahanol i Gaerffili a'r trefi a'r pentrefi o amgylch. Nid yw esgobaethau crefyddol ychwaith yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig, ac mae senarios dryslyd pellach yn deillio o'r rhain.

Felly, daw'r cwestiwn i'r amlwg ynghylch sut y gellir cynrychioli effeithiau diwylliannol mor amrywiol a chyfnewidiol yn ddigonol gan AS sy'n croesi rhwng ardaloedd?

Mae newidiadau eraill yn ystod y degawdau diwethaf hefyd yn cynnig rhaniadau diwylliannol. Ceir cynnydd yn nefnydd y Gymraeg gan ddysgwyr yn ardal Caerffili a rhaid peidio â bygwth yr ailymddangosiad bregus hwn wrth i'r iaith ddatblygu sylfaen gref. Mae Casnewydd yn llawer mwy aml-genedlaethol gyda mewnlifiad mawr o bobloedd o Loegr, Ewrop a thu hwnt. Dyma ffaith y dylid ei dathlu, ond rhaid cydnabod hefyd fod Casnewydd yn dra gwahanol i Gaerffili o ran datblygiad.

## Crynodeb

O ystyried newidiadau blaenorol i ffiniau a'r dryswch canlyniadol, problemau cysoni, a llawer o effeithiau negyddol a welwyd, mae'r cwestiwn yn codi: pam mae'n rhaid newid ffiniau cynrychiolaeth sefydledig yr ardaloedd hyn? Ac os oes unrhyw gymhelliant ac eithrio gwleidyddiaeth, pam ar yr adeg hon?

Gallai ardaloedd eraill sy'n datblygu'n gyflymach, neu drefi newydd, elwa ar adolygiad o gynrychiolaeth, a gallai ffiniau newydd ar gyfer ASau ddatblygu eu hunaniaeth. Yn aml, caiff dryswch ei greu lle nad oes marcwyr amlwg ar gyfer ffiniau. Felly, rhaid i ardal unrhyw AS fod yn glir, yn fynegadwy, a bod â rhyw sefydlogrwydd o ran hunaniaeth, er mwyn cael unrhyw siawns o fod yn adnabyddadwy gan gymunedau yn yr ardal.

Ceir gwahaniaethau amlwg o ran perthnasoedd, amodau economaidd-gymdeithasol,

crefydd, newid a datblygiad, ieithoedd, traddodiad a diwylliant rhwng Caerffili a Chasnewydd. Byddai'n sefyllfa anodd dros ben i unrhyw AS gynrychioli ardaloedd mor amrywiol a gwahanol iawn. Wrth ddarparu cynrychiolaeth briodol ddiduedd ledled yr ardal, bydd datblygu cydbwysedd o ran cefnogaeth ar gyfer pob ardal, ac o ran democratiaeth a hygyrchedd, yn anodd mewn etholaeth mor gymysg.

Mae cysylltiadau cyfathrebu a hwylustod symud wedi datblygu patrymau ymddygiad ac wedi sefydlu cydberthnasoedd rhwng pobl a lleoedd dros gyfnod o amser. Mae Caerdydd, Caerffili, Pontypridd, Bargoed a'r holl drefi a phentrefi o amgylch o fewn ardaloedd a fu'n draddodiadol yn Sir Forgannwg, Morgannwg Ganol a Chwm Rhymni, yn meddu ar lefel uchel o synergedd. Nid yw hyn yn cynnwys Casnewydd na Gwent fel y cyfryw.

**Casgliad**

Cynigir y sylwadau uchod fel persbectif a luniwyd gan bobl yn ardal PTE ac nid ydynt yn diystyru newid yn ddiofal. Fodd bynnag, ni ellir canfod llawer o fudd, neu unrhyw fudd o gwbl. Yn ogystal, mae newidiadau blaenorol o ran ardaloedd awdurdodau a ffiniau gweinyddol wedi cael llawer o effeithiau dryslyd a negyddol.

Mae'n parhau i fod yn aneglur beth yw'r sbardun i gefnogi'r newidiadau arfaethedig ar gyfer yr ardal hon. Ymddengys mai'r unig ddangosydd yw penderfyniad gwleidyddol i leihau nifer yr ASau yng Nghymru. Nid yw hwn yn gynnig derbyniol ar ei ben ei hun ar gyfer y newidiadau yn yr ardal hon. Mae llawer yn ei weld fel achos arall o israddio gwerth a statws Caerffili fel tref allweddol hirsefydledig yn Ne-ddwyrain Cymru. Byddai colli AS sy'n ymroddedig i'r ardal a adnabyddir fel Caerffili, â'i hanes hir a'i chydberthynas â'i chymdogion, yn annerbyniol.

Mae Caerffili yn datblygu ac yn tyfu ac mae angen cynrychiolaeth dda arni. Fel ardal â phoblogaeth fawr, mae angen atebolrwydd democrataidd ac eglurder ynghylch awdurdod sy'n glir ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae'r ardal wedi dioddef gormod o dincran â ffiniau ac awdurdodau, heb fawr o fanteision canfyddadwy. Achoswyd dryswch i bawb a llawer o ganlyniadau eraill, boed yn fwriadus neu'n anfwriadol.

Y peth olaf sydd ei angen wrth newid ffiniau cynrychiolwyr yw difreinio etholwyr ymhellach fyth. Mae Caerffili, heblaw am eithriadau penodol, wedi dychwelyd ystadegau da o ran y niferoedd sy'n pleidleisio mewn etholiadau. Mae dryswch yn gallu atal pleidleiswyr ac arwain drwy hynny at wanhau democratiaeth gref yn yr ardal hon. Pe gweithredir y cynnig hwn, mae'n bosibl y bydd sianeli cyfathrebu yn cael eu niweidio am ddegawdau.
Yn ogystal, ceir amser priodol ar gyfer newid; wrth i ni ddod allan o gyfnod o gyni, a'r pandemig Covid, a phwysau chwyddiant a fydd yn parhau am nifer o flynyddoedd i ddod, nid dyma'r amser i newid agwedd sylfaenol ar ein cynrychiolaeth ddemocrataidd bresennol.

Yr eiddoch yn gywir

Cyng S J Skivens
Ar ran Cyngor Cymuned PTE

**BCW-10089/ [redacted] / Sir Fynwy**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 22 Chwefror 2022 15:45
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Newidiadau arfaethedig i Sir Fynwy

Annwyl foneddigion.

Ysgrifennaf i fynegi fy siom ynghylch y cynnig gan Blaid Cymru ac eraill i eithrio rhannau o Sir Fynwy i bob pwrpas, megis y Fenni.

Gwelaf hyn yn gwbl annerbyniol.

Yn fy marn i, y cynnig priodol yw y dylai etholaeth Sir Fynwy fod â’r un ffiniau â’r Sir.

Yr eiddoch yn gywir

[redacted]

**BCW-10090/ [redacted] Cymdeithas Ceidwadwyr Maldwyn/ Y Trallwng**

Comisiynwyr Ffiniau – Foneddigion a Boneddigesau

Fy enw yw [redacted], rwy'n Gadeirydd Cymdeithas Ceidwadwyr Maldwyn a hefyd yn Gadeirydd Ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru ar ran y Blaid.

Fel y gwyddoch, dechreuodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru arolwg newydd o'r holl etholaethau Seneddol yng Nghymru gyda'r bwriad o leihau nifer yr Etholaethau Seneddol o 40 i 32 (gan gynnwys un etholaeth 'warchodedig', sef Ynys Môn).

Ar 8 Medi 2021, cyhoeddwyd y cynigion cychwynnol. Mae'r cynnig newydd yn gweld "Maldwyn" yn dod yn "Faldwyn a Glyndŵr", gan ychwanegu ardaloedd i'r gogledd o'r sir, gan gynnwys: Pen-y-cae a Rhiwabon; Corwen; Pen-y-cae; Llangollen; Llangollen Wledig; De'r Waun; Gogledd y Waun; Rhiwabon; Cefn; Plas Madoc a Dyffryn Ceiriog.

Credaf fod y cynnig hwn yn un cadarnhaol iawn i Faldwyn! Mae'r cynnig yn cynnwys ardaloedd i'r gogledd o'r sir bresennol ac mae hyn yn ymddangos yn ychwanegiad naturiol i'r gymuned hanesyddol bresennol, gan ychwanegu nifer o ardaloedd o bwysigrwydd hanesyddol pellach ynghyd ag atyniadau poblogaidd i dwristiaid, a fyddai'n ychwanegiad i'w groesawu ar gyfer ardal dwristiaeth Maldwyn sydd eisoes yn fywiog.

"Mae croeso mawr i'r cynigion gan y Comisiwn Ffiniau. Roeddwn yn bryderus iawn ynghylch cynigion blaenorol gan amrywiol bleidiau, sydd wedi awgrymu rhannu Maldwyn. Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, mae Maldwyn yn gymuned hanesyddol a chlòs, gyda llawer o'r preswylwyr â chysylltiadau agos ledled y sir. Mae cynnal Maldwyn o fewn etholaeth Seneddol newydd yn dangos cydbwysedd clir rhwng bodloni paramedrau'r Comisiwn a chadw hunaniaeth gymunedol ar yr un pryd."

Fel mae pawb sy’n byw ym Maldwyn yn gwybod, mae’n siŵr, mae Maldwyn wedi’i chynrychioli mewn rhyw ffordd neu’i gilydd ers 1542 – sef tua 480 o flynyddoedd.  Er y byddwn yn dymuno i’r etholaeth barhau fel y bu erioed, rwy’n derbyn pwysigrwydd cael etholaethau Seneddol cymharol gyfartal o ran maint y boblogaeth. Mae Maldwyn yn ei chyfanrwydd, o fewn sedd ehangach Maldwyn a Glyndŵr, yn cydnabod yr ardal fel sir hanesyddol a sedd Seneddol, ac yn bodloni paramedrau’r arolwg ar yr un pryd.

Rwyf wedi ymwneud â’n haelodau ym Maldwyn ers nifer o flynyddoedd, ac rwy’n ymwybodol iawn o’r teimladau cryf a dwfn sydd ganddynt tuag at yr ardal hanesyddol hon, o ran cysylltiadau lleol ac fel sedd sirol hanesyddol.

Gobeithiaf yn fawr y bydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn cefnogi’r cynigion ar gyfer newid ffiniau a wnaed hyd yn hyn, ac y bydd cymuned hanesyddol Maldwyn yn cael ei chadw yn etholaeth newydd ac estynedig arfaethedig Maldwyn a Glyndŵr.

**BCW-10091/ [redacted] / Llanelwy**

# ETHOLAETHAU SENEDDOL
# Y DEYRNAS UNEDIG
# AR GYFER
# GOGLEDD CYMRU.

Comisiwn Ffiniau i Gymru.




Hoffwn ddiolch i’r Comisiwn am adael i mi siarad fel dinesydd cyffredin o Lanelwy.
Bore da, bawb, a chroeso i chi i gyd sydd o Dde Cymru i Ogledd Cymru. Mae’r iaith Gymraeg yn bwysig i mi am mai dyma sy’n ein diffinio ni fel cenedl.
Yn hanesyddol, diwylliant, a dyma pam rwyf wedi llunio’r terfynau yma.

Bore da, bawb, a chroeso arbennig o gynnes i bawb sydd wedi dod o Dde Cymru i Ogledd Cymru.
Mae’r Gymraeg yn bwysig iawn i ni fel cenedl, fel yn wir i bob cenedl.
Mae’n ein diffinio, nid yn unig o ran pwy ydym ni, ond hefyd yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol, ac mae’n bwysig dros ben bod ffiniau etholaethau yn cael eu llunio yn y fath fodd fel ein bod yn rhoi’r cyfle gorau i’r iaith oroesi am byth.
Mae’r newidiadau rwyf wedi’u llunio yn seiliedig ar yr egwyddor hon a’m profiad bywyd o fyw yma a gweld y newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod fy oes.

Mae’n rhaid i ni ofyn i ni’n hunain beth yw diben bywyd, a ydym yn byw i weithio neu’n gweithio i fyw. Mae bywyd yn rhy fyr a dylai pawb ohonom wneud yn siŵr bod beth

bynnag a wnawn yn sicrhau dyfodol gwell i'r cenedlaethau sy'n dilyn.

Rydym wedi dewis byw yma yng Nghymru, ac fel y cyfryw, rydym yn geidwaid ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n ffaith, wrth i ni deithio o'r gorllewin i'r dwyrain, mae'r iaith wedi ymseisnigo, a dyma'n union pam mae'n bwysig i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol ym mhob agwedd ar fywyd, a chadw hyn yn flaenllaw yn ein meddyliau.

Mae'r byd yn newid yn gyflym mewn nifer o ffyrdd na allwn ddylanwadu arnynt, felly mae'n bwysig ein bod ni fel cenedl yn gosod y sylfeini cywir fel ein bod yn goroesi fel cenedl yn ogystal â rhan bwysig o'r DU.

Yn anffodus, mae fy meistrolaeth ar dechnoleg gyfrifiadurol yn gyfyngedig iawn, ac felly, yn ddi-os, mae fy nghyflwyniad yn edrych yn amaturaidd. Ymddiheuraf am hyn, ond gobeithiaf y gallwch chi, fel y Comisiynwyr ar gyfer newid, broffesiynoli'r hyn rwy'n ceisio'i gyflawni er budd gorau Cymru gyfan fel cenedl a'i galluogi i chwarae ei rhan fel gwlad o fewn y DU.

Rwyf wedi byw yng Ngogledd Cymru trwy gydol fy 85 mlynedd o fywyd, mae gen i radd mewn Amaethyddiaeth sydd wedi fy ngalluogi i deithio'n helaeth yn Ewrop, ac i raddau llawer llai, yn rhannau eraill o'r byd. Rwy'n ddigon ffodus i fod yn dad i ferch sy'n gyfrifydd yn Chamonix yn Ffrainc, a mab sy'n gyfreithiwr yn Rhydychen. Dywedaf hyn oherwydd cafodd y ddau eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'u galluogodd i ddod yn ddwyieithog o oedran cynnar, ac mae hyn, heb os, wedi bod o fudd mawr yn natblygiad y meddwl.

Pan oeddent yn yr ysgol, byddent yn gwrthod siarad â mi yn Gymraeg, gan ddweud, “Mae dy Gymraeg, Dad, yn rhy sgyrsiol.”

Yr hyn rwy'n ceisio'i ddweud yw hyn: mae ffyniant ariannol Cymru'n bwysig iawn, wrth gwrs, ond rhaid deall hefyd fod


ochr ddiwylliannol bywyd yr un mor bwysig, ac felly rwy'n ceisio cynnig ateb sy'n edrych ar y darlun byd-eang.
Wedi dweud hyn oll, hoffwn ganolbwyntio nawr ar siroedd Gogledd Cymru, sydd fwyaf priodol i mi siarad amdanynt.
Braf iawn oedd gweld bod y Comisiwn wedi penderfynu trin Ynys Môn fel sir yn ei rhinwedd ei hun.

Er fy mod yn sylweddoli y gall fod angen rhai mân addasiadau i'm cynigion ar gyfer y siroedd newydd, teimlaf fod rhaniadau tebyg i'r rhain er budd gorau holl breswylwyr Gogledd Cymru.
Wrth ddod i'r casgliadau hyn, rwyf ym mhob achos wedi ystyried y meini prawf a osodwyd gan y Comisiwn mewn perthynas â phoblogaeth pob etholaeth newydd, sef lleiafswm poblogaeth o 69,800 ac uchafswm o 77,000. Yn ogystal â hyn, rwyf wedi rhoi sylw i ystyriaethau daearyddol, y ffiniau a oedd yn bodoli yn 2015, ffiniau etholaethau presennol, ac yn arbennig o bwysig, cysylltiadau lleol rhwng cymunedau.

Af o'r gorllewin i'r dwyrain.

Gwynedd. Lliw Oren.

Mae’r map yn cynnwys Penrhyn Llŷn, dinas brifysgol Bangor, a’r ardal i’r de gan gynnwys Blaenau Ffestiniog.



Aberconwy. Lliw Melyn ar y map.

Mae’r etholaeth hon yn cynnwys y rhan fwyaf o fynyddoedd Eryri ac mae’n dilyn dyffryn Conwy o Landudno yn y gogledd, gan gynnwys Bala yn y de, ac wedyn mae’n dilyn Dyffryn Dyfrdwy i Langollen.
Lliw melyn ar y map.



Gorllewin Clwyd. Lliw Glas ar y map.
Mae’r etholaeth hon yn cynnwys arfordir y gogledd o Abergele a Bae Colwyn ac i lawr y gefnwlad sy’n cynnwys Mynydd Hiraethog a rhan ddeheuol Dyffryn Clwyd, a thref Rhuthun, a’r Wyddgrug i’r dwyrain.
Dyma etholaeth wledig yn bennaf, ac mae’r rhan fwyaf o’r boblogaeth yn byw ar yr arfordir ac yn y ddwy dref a enwir uchod.



Gogledd Clwyd. Lliw Coch ar y map.
Mae’r etholaeth hon yng nghornel ogledd-ddwyreiniol Gogledd Cymru ac mae’n cynnwys trefi Rhyl a Phrestatyn ar yr arfordir a phen gogleddol Dyffryn Clwyd ynghyd â thref Treffynnon yn y dwyrain. Mae’r etholaeth yn cadw rhan ogleddol Sir Ddinbych ynghyd ag etholwyr gogleddol Delyn.



Alyn a Glannau Dyfrdwy. Lliw Porffor Golau ar y map.
Yn ôl pob tebyg, dyma'r etholaeth fwyaf diwydiannol yng Ngogledd Cymru, a daw cyfran fawr o'r gweithwyr o Gymru. O ran maint, dyma'r etholaeth leiaf, a dyma pam mae'n gymuned glos iawn.



Wrecsam. Lliw Pinc ar y map.
Mae’r etholaeth hon hefyd yn un ddiwydiannol iawn, a dyma leoliad y dref fwyaf yng Ngogledd Cymru. Unwaith eto, mae’n etholaeth gywasgedig iawn, er mae ardal Maelor yn fwy gwledig.



**BCW-10092/ [redacted] / Y Drenewydd**

Rwyf wedi adolygu'r cynnig presennol a theimlaf yn bendant mai dyma'r un mwyaf addas. Nid wyf yn meddwl y dylem rannu Maldwyn ymhellach, felly byddwn yn hapus i ychwanegu rhai ardaloedd.

**BCW-10093/ [redacted] / Abertawe**

Gwelaf fod cryn nifer o sylwadau yma gan rai pobl, gan gynnwys yr AS Llafur presennol sy'n ddig bod y Poblogaethau Mwslimiaid a Myfyrwyr yn cael pleidleisio i un AS ac y dylai'r map gael ei ail-lunio i osod y ddau grŵp hyn mewn un etholaeth.

Rwy'n awgrymu wrth y Comisiwn Ffiniau i Gymru ei bod yn gwbl amhriodol bod y ffiniau'n cael eu llunio ar sail ffydd neu ar b'un a yw rhywun yn astudio neu beidio. Mae bwriadu tynnu llinellau o amgylch pobl ar sail eu ffydd neu broffesiwn ac nid seilio ffiniau ar ardaloedd daearyddol naturiol yn gwbl anghywir, a gellid hyd yn oed gweld hynny fel ymgais i chwarae'r ffiniau o ran y bleidlais mewn ardal ped ystyrid hyn.

**BCW-10094/ [redacted] Cyngor Cymuned Caersws/ Caersws**

**From:** [redacted]
**Sent:** 25 February 2022 15:06
**To:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Cc:** [redacted]
**Subject:** Boundary Consultation

I bwy bynnag a fynno wybod;

Mae Cynghorwyr Cymuned Caersws yn dymuno ailadrodd eu barn wreiddiol eu bod yn hapus bod 'Maldwyn' yn cael ei gadw yn enw ardal ffiniau newydd 'Maldwyn a Glyndŵr'. Nid oes gan y Cynghorwyr unrhyw sylwadau pellach i'w cyflwyno.

Yn gywir

[redacted]
Clerc i Gyngor Cymuned Caersws

# ETHOLAETH SENEDDOL CWM CYNON

# GWRTHGYNIGION AR GYFER FFINIAU 2023

## CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| Ystadegau i'w harsylwi: | | tudalen 1 |
| Cyflwyniad: | Grŵp Ffiniau Cwm Cynon | tudalen 2 |
| Gwrthgynnig A: | Pontycynon | tudalen 3-4 |
| Gwrthgynnig B: | Aberdâr a Merthyr | tudalen 5-6 |
| Casgliad: | | tudalen 6-8 |
| Atodiad: | Deiseb | tudalen 8 |


**Ystadegau 2023 i'w harsylwi**

| | |
|---|---|
| Maint presennol ffin seneddol Cwm Cynon | = 51,147 |
| Cynigion 2023 y Comisiwn: lleiafswm maint | = 69,724 |
| Cynigion 2023 y Comisiwn: uchafswm maint | = 77,082 |
| Amrywiant | = 4% |
| Cynigion Cychwynnol y Comisiwn: | |
| De Cynon a Phontypridd | = 71,237 |
| Gogledd Cynon a Merthyr | = 71,218 |

**Cyflwyniad**

1.1 Ar ôl cymryd tystiolaeth gychwynnol ar gyfer yr ymgynghoriad cyntaf (3.11.21), mae Gweithgor Ffiniau Plaid Lafur Cwm Cynon (CVLP) wedi ystyried bod trigolion eisiau cadw'r etholaeth bresennol neu gadw cymaint o Gwm Cynon gyda'i gilydd ag y bo modd.

1.2 Bydd y risg o rannu'r etholaeth yn y canol o'r dwyrain i'r gorllewin yn cael effaith niweidiol sylweddol ar economi'r cwm ac ar y cymunedau sydd wedi gweithio gyda'i gilydd yn hanesyddol.

1.3 Gan nad oes unrhyw asesiad risg yn gysylltiedig â chyfartalu'r holl etholaethau ar sail y gofrestr etholiadol, mae'r grŵp wedi ystyried sut mae'r cwm yn gweithredu fel uned ar gyfer yr holl drigolion, o ran mynediad at gyfleusterau, cysylltiadau teuluol, adnabod yr hunan a pherthyn, yn ogystal â rôl cynrychiolaeth llywodraeth leol a Senedd Cymru.

1.4 Bydd y trigolion yn gwrthwynebu'r fiwrocratiaeth gynyddol a achosir gan dorri'r gweinyddiaethau gwleidyddol presennol ar draws dwy etholaeth arall a fydd yn arwain at ddryswch llwyr ar ôl un ar ddeg mlynedd o gyni, tlodi a'r ymdrech barhaus gyda'r pandemig covid.

1.5 Mae'n anodd credu bod Deddf Seneddol yn cael ei llunio yn ystod pandemig byd-eang sy'n effeithio ar y DU gyfan, sy'n mynnu bod newidiadau'n cael eu gwneud i ffiniau seneddol ar sail meini prawf amhosibl.

1.6 Mae'r grŵp ffiniau wedi gweithio gorau y gallant yn yr amgylchiadau presennol i ddarparu gwybodaeth i drigolion Cwm Cynon a gofyn am eu hymatebion. Yn anffodus, ni allai fod amser gwaeth fyth i gyflawni gweithgareddau i sicrhau democratiaeth.

1.7 Gyda'r wasg a'r cyfryngau yn rhoi sylw i brif faterion eraill, dim pobl yn mynd a dod, dim cyfarfodydd cyhoeddus a'r gymdeithas yn straffaglu gyda'i hiechyd, mae'r grŵp hwn yn gofyn am i'r newid hwn i'r ffin gael ei ohirio hyd nes y ceir cyfnod mwy addas i drigolion gyfranogi ac ymgysylltu â dyfodol eu cwm.

**GWRTHGYNNIG A**

**PONTYCYNON**

| WARDIAU | NIFER ETHOLWYR | CYFANSWM |
|---|---|---|
| Cwm Cynon presennol | 51,147 | = 51,147 |
| Tref Pontypridd | 2,208 | = 53,355 |
| Trallwng | 2,824 | = 56,179 |
| Trefforest | 2,862 | = 59,041 |
| Rhydfelen | 3,037 | = 62,078 |
| Ton-Teg | 3,183 | = 65,261 |
| Y Ddraenen Wen | 3,180 | = 68,441 |
| Pentre'r Eglwys | 4,424 | = 72,865 |
| Llanilltud Faerdref | 4,825 | = 77,690 |
| **CYFANSWM NEWYDD** | | **77,690** |

**NODIADAU**

A1 Byddai'r opsiwn hwn yn llifo o'r gogledd i'r de a byddai'n creu strwythur economaidd gwell o fewn RhCT, a chan fod seilwaith priodol gellid symud Wardiau Graig a Rhondda i Etholaeth Rhondda fel a ganlyn:-

**DIWYGIAD RHONDDA**

| WARDIAU | NIFER ETHOLWYR | CYFANSWM |
|---|---|---|
| Cynnig 2023 y Comisiwn | 71,684 | = 71,684 |
| Ychwanegu Ward Rhondda | 3,458 | = 75,142 |
| Ychwanegu Graig | 1,885 | = 77,027 |
| **CYFANSWM NEWYDD** | | **77,027** |

A2 Mae Cynnig Cychwynnol 2018 ar gyfer Cwm Cynon yn fwy derbyniol o lawer yn ddaearyddol ac yn economaidd na chynnig 2012 a chynnig presennol 2023. Felly, mae ehangu Cwm Cynon i mewn i Bontypridd yn cadw cyfeiriad mwy addas o'r gogledd i'r de, ac yn fwy unol â meini prawf 2023 y Comisiwn.

A3 Mae'r opsiwn hwn yn aros o fewn ffin llywodraeth leol RhCT ac mae'n dileu'r dryswch o groesi i mewn i Gyngor Merthyr.

A4 Bydd y cyfuniad o uno tair prif dref (Aberdâr, Aberpennar, Pontypridd) yn creu ardal economaidd fwy cynaliadwy o lawer.

A5 Mae'r diwylliannau yn yr ardaloedd uchod yn fwy cysylltiedig o lawer na chymunedau wedi'u gwahanu gan fynyddoedd a seilwaith annigonol.

A6 Bydd y gwasanaethau ffordd, rheilffordd a bysiau rhagorol yn darparu mwy o gynhwysiant a mynediad i gyfleusterau aelod seneddol.

A7 Mae Llanilltud Faerdref yn ardal anodd gan y byddai ei chynnwys yn naturiol yn mynd â'r ffigur uchod uwchlaw'r cyfanswm uchaf. Yr awgrym yw bod y Comisiwn yn ymchwilio i weld a fydd modd rhannu'r ward fel bod y cynnig uchod yn cynnwys ardal dorri i ffwrdd naturiol.

A8 Byddai'r cynnig hwn yn dileu'r sefyllfa annerbyniol lle mae Aelod Senedd Cwm Cynon yn gweithio gyda dau Aelod Seneddol.

A9 I ddarparu ar gyfer y gwrthgynnig uchod, awgrymir bod wardiau Beddau a Thyn-y-nant yn cael eu symud i etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr fel a ganlyn:-

**DIWYGIAD PEN-Y-BONT AR OGWR**

| **WARDIAU** | **NIFER ETHOLWYR** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|
| Cynnig 2023 y Comisiwn | 74,388 | = 74,388 |
| Ychwanegu Beddau | 3,172 | = 77,560 |
| Ychwanegu Tyn-y-nant | 2,454 | = 80,014 |
| **CYFANSWM NEWYDD** | | **80,014** |

A10 I ddarparu ar gyfer y gwrthgynnig uchod, awgrymir bod wardiau Llantrisant a Thonysguboriau yn cael eu symud i etholaeth Gorllewin Caerdydd fel a ganlyn:-

**DIWYGIAD GORLL CAERDYDD**

| **WARDIAU** | **NIFER ETHOLWYR** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|
| Cynnig 2023 y Comisiwn | 73,947 | = 73,947 |
| Ychwanegu Llantrisant | 3,187 | = 77,134 |
| Ychwanegu Tonysguboriau | 1,965 | = 79,099 |
| **CYFANSWM NEWYDD** | | **79,099** |

**GWRTHGYNNIG B**

**ABERDÂR A MERTHYR**

| **WARDIAU** | **NIFER ETHOLWYR** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|
| Cynnig 2023 y Comisiwn | 71,218 | = 71,218 |
| Symud Treharris | 5,270 | = 65,948 |
| Symud Nelson | 3,563 | = 62,385 |
| Ychwanegu Gog. Aberaman | 3,609 | = 65,994 |
| Ychwanegu De Aberaman | 3,541 | = 69,535 |
| Ychwanegu Gorll. Aberpennar | 3,123 | = 72,658 |
| Ychwanegu Dwyrain Aberpennar | 2,254 | = 74,912 |
| **CYFANSWM NEWYDD** | | **74,912** |

**Nodiadau:**

B1 Cyfeiriwn yn ôl at yr ymgynghoriad a anfonwyd i mewn gan Blaid Lafur Cwm Cynon ar gyfer 3 Tachwedd. Mae'r adborth a gasglwyd yn y ddogfen honno yn datgelu bod y trigolion ar draws y mwyafrif o'r cwm yn gwrthwynebu cynnig cychwynnol 2023 y Comisiwn Ffiniau i Gymru i rannu'r cwm yn hanner, gan fod hynny'n niweidiol i bob agwedd ar gyfnerthu cymunedau ac mae'n methu adlewyrchu cydraddoldeb bywydau pobl.

B2 Yr adborth gan drigolion yw bod Aberaman ac Aberpennar wedi'u cysylltu ag Aberdâr gan seilwaith, hanes a diwylliant ac ati, a phe bai'r cwm yn cael ei rannu yn y pen draw yn sgil Deddf 2020, yna dim ond os caiff Aberaman ac Aberpennar eu hatodi i'w symud i mewn i Ferthyr Tudful y caiff y cynnig hwn gefnogaeth efallai.

B3 Mae gan Benrhiwceibr (4,056) fwy na chysylltiad da â thref Aberpennar, ond bydd yn mynd â chyfanswm uchaf y gwrthgynnig hwn i 78,968 felly gall fod rhaid iddo symud i mewn i Bontypridd gydag Abercynon a wardiau eraill o dde'r cwm. Yn yr amser parhaus sydd wedi'i ddyrannu i'r ymgynghoriad hwn, gwneir pob ymdrech i argyhoeddi'r Comisiwn y dylai'r ddwy hen ward lofaol hon aros yn gysylltiedig gan sicrhau eu bod yn parhau i gyfrannu at hanes diwylliannol a hanesyddol y cwm.

B4 Rydym yn awgrymu y dylai'r enw gael ei osod yn nhrefn y wyddor, felly Aberdâr a Merthyr yw'r enw a fyddai'n fwy derbyniol.

B5 I ddarparu ar gyfer y gwrthgynnig uchod, awgrymir bod wardiau Nelson a Threharris yn cael eu symud i etholaeth Islwyn fel a ganlyn:-

**DIWYGIAD ISLWYN**

| **WARDIAU** | **NIFER ETHOLWYR** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|
| Cynnig 2023 y Comisiwn | 70,735 | = 70,735 |
| Ychwanegu Treharris | 5,270 | = 76,005 |
| Ychwanegu Nelson | 3,563 | = 79,568 |
| **CYFANSWM NEWYDD** | | **79,568** |

## CASGLIAD

C1 Dyfyniad gan drigolion Cwm Cynon i gynigion 2012:-
*Mynegwyd pryderon cryf ynglŷn â'r Cynigion Cychwynnol gan y trigolion hynny yn etholaeth bresennol Cwm Cynon. Mae'r Cynigion Cychwynnol yn golygu bod adrannau etholiadau o'r etholaeth bresennol yn cael eu cynnwys o fewn tair etholaeth arfaethedig arall, sef Pontypridd, Rhondda, ac etholaeth Blaenau'r Cymoedd. Tystiodd corff sylweddol o gynrychiolaethau i'r cysylltiadau cymunedol cryf a oedd yn bodoli o fewn Cwm Cynon yn gyfan gwbl, neu o fewn rhannau o'r Cwm, a fyddai'n cael eu torri gan y Cynigion Cychwynnol.*

Gellir dweud bod y datganiad uchod yn adlewyrchu'r gwrthwynebiad i'r ymgais bresennol i rannu etholaeth Cwm Cynon.

C2 Mae Gweithgor Ffiniau Plaid Lafur Cwm Cynon a thrigolion yn cydnabod bod etholaethau presennol Merthyr Tudful a Rhymni, Pontypridd a Chwm Cynon islaw'r gofynion statudol ar hyn o bryd o ran maint yr etholaeth. Nid yn unig y mae Deddf Seneddol 2020 sy'n lleihau cynrychiolaeth o 40 Aelod Seneddol i 32, yn ogystal â phennu bod rhaid cyfartalu'r holl etholaethau, yn sarhad i bobl Cymru, mae hefyd yn tanseilio democratiaeth, yn cyfyngu ar hawliau dynol i gyfranogi mewn cymunedau presennol sydd â hanes a diwylliant cywerth, ac yn creu dryswch i bleidleiswyr, aelodau etholedig a swyddogion pan fo etholiadau eisoes yn colli cyfranogaeth.

C3 Ystyriodd y Comisiwn nifer o opsiynau, ac mae'n cynnig cyfuno'r cyfan o ardal prif gyngor Merthyr Tudful gyda wardiau etholiadol Dwyrain Aberdâr, Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed, Cwmbach,Hirwaun, Pen-y-waun a Rhigos o etholaeth bresennol Cwm Cynon.

C4 Mae'r Comisiwn yn cydnabod nad yw etholaeth wedi'i ffurfio o'r wardiau uchod yn dilyn daearyddiaeth y cymoedd o'r gogledd i'r de. Felly, mae wedi creu llawer iawn o bryder ynglŷn â bod Cwm Cynon wedi'i neilltuo i dorri'r sicrwydd ym meini prawf y Comisiwn trwy dynnu llinell yn syml ar draws canol y cwm a gobeithio y bydd trigolion yn derbyn y penderfyniad.

C5 Efallai bod cysylltiadau gwell yn cael eu creu ar draws Blaenau'r Cymoedd, ond mae'n rhaid i'r Comisiwn sylweddoli y bydd cryn amser yn y dyfodol cyn iddynt gael eu cwblhau, ac nid yw ffordd newydd yn cynyddu mynediad at aelodau Seneddol etholedig os nad oes car gan drigolion neu os na allant fforddio'r costau bws cynyddol, ac nid oes darpariaeth cyswllt rheilffordd ychwaith.

C6 Mae gwrthwynebiad i'r enw Merthyr Tudful ac Aberdâr hefyd. Cyfeiriwch at B4.

C7 Mae ystyriaeth y Comisiwn i gynnwys wardiau etholiadol o dde Cwm Cynon sy'n gyfan gwbl o fewn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yn etholaeth Pontypridd, yn cael ei chydnabod. Fodd bynnag, bydd yr holl drigolion ar draws Cwm Cynon yn Rhondda Cynon Taf o hyd, a bydd y dryswch o ran pwy i fynd atynt a ble i fynd, yn ychwanegu at y straen cynyddol o straffaglu gyda thlodi, gwaith, dim gwaith, gofal, iechyd, iechyd meddwl a bywyd teuluol yn gyffredinol.

C8 Mae ystyriaeth y Comisiwn i gyfuno wardiau etholiadol o etholaeth bresennol Pontypridd ac etholaeth de Cwm Cynon yn y ffordd hon i ddarparu ar gyfer etholaeth briodol sy’n dilyn ffyrdd y cwm o’r gogledd i’r de yn gwbl annheg i weddill y trigolion yng ngogledd Cwm Cynon, a rhaid adolygu hyn i ddefnyddio’r un meini prawf yn enw cydraddoldeb i bawb.

C9 Mae penderfyniad y Comisiwn i ddefnyddio enw presennol Pontypridd ar gyfer sedd seneddol newydd sy’n cynnwys hanner Cwm Cynon yn sarhad eto i drigolion Cwm Cynon. Beth fydd yn digwydd i’r rheiny yng ngogledd y cwm pan ddaw i bleidleisio dros gynghorwyr RhCT ac aelodau Senedd Cymru. Eto, nid yw hyn wedi cael ystyriaeth drwyadl er mwyn rhoi eglurder i bleidleiswyr ac aelodau’r blaid sy’n gorfod cynnal ymgyrchoedd etholiad.

C10 Gan nad oedd unrhyw Ddeddfau Seneddol ar gyfer y newidiadau i Ffiniau yn 2012 a 2018, mae’n gwbl amlwg i fwyafrif pobl Cymru bod Deddf Seneddol 2020 i newid yr holl ffiniau etholaethau ar sail cyfartalu maint yn unol â nifer y pleidleiswyr yn symudiad gwleidyddol i rwystro mynediad i ASau, i ddrysu pleidleiswyr, lleihau cyfranogiad gwleidyddol a thanseilio Senedd Cymru a chynghorwyr lleol etholedig. Mae’n rhaid i’r Comisiynwyr, er eu bod wedi cael cyfarwyddyd i weithredu’r Ddeddf hon, sylweddoli y gallai Deddf Seneddol sy’n gofyn am gyfartalu etholaethau ar sail economi, cymunedau a chyfle cyfartal fod wedi bod yn fwy derbyniol yn y gymdeithas wleidyddol sydd ohono. Mae’r Ddeddf yn ddiffygiol ac yn amhosibl i’w chyflawni.

C11 Mae’r ffaith y bydd y ffiniau, ar ddiwedd yr holl gamau ymgynghori, yn cael eu newid yn awtomatig heb bleidlais Seneddol nac apêl derfynol, yn dangos bod risg i ddemocratiaeth.

**ATODIAD:** Bydd Llofnodion Deisebau yn parhau i gael eu casglu ar gyfer y 3ydd ymgynghoriad.

CAERPHILLY TOWN COUNCIL — CYNGOR TREF CAERFFILI

**TOWN CLERK:**
**CLERC Y DREF**
[redacted]

**TOWN MAYOR**
**MAER Y DREF**
[redacted]

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Caerdydd
CF24 OBL

23 Chwefror 2022

Annwyl Syr,

**Arolwg o Ffiniau Seneddol - Etholaeth Caerffili**

Mae Cyngor Tref Caerffili wedi penderfynu gwrthwynebu'r cynnig i uno rhan ddeheuol etholaeth bresennol Caerffili â gorllewin Casnewydd. Mae'r cysylltiadau cymunedol naturiol i'r gogledd o'r cymoedd canol ac i'r de o Gaerdydd, yn hytrach nag i Gasnewydd. Mae Cyngor y Dref yn cefnogi'r gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Wayne David AS dros etholaeth Caerffili, sy'n cysylltu rhan isaf Cwm Rhymni â'r cymoedd canol gan rychwantu'r A472. Mae Cyngor y Dref yn cytuno gyda'r dadleuon sydd wedi'u hamlinellu'n llawn yng nghyflwyniad y gwrthgynnig.

Yr eiddoch yn gywir

[redacted]

CLERC Y DREF

[redacted]

**BCW-10097/[redacted]/ Cas-gwent**

[redacted]

Annwyl Mrs Ustus Jefford,

Gobeithio y cawsoch i gyd egwyl braf dros y Nadolig rhwng y ddau ymgynghoriad cyntaf. A wnewch chi gadw fy holl fanylion, enw, cyfeiriad ac ati, yn breifat? Diolch i chi. Rwy'n disgwyl y bydd yr ail gyfnod yn anoddach na'r cyfnod cyntaf. Dim ond eich meddyliau a'ch syniadau eich hun oedd gennych yn y cyfnod cyntaf. Nawr mae meddyliau a syniadau pawb arall gennych. Ni fydd yn hawdd rhoi'r cyfan at ei gilydd. Gyda gostyngiad o wyth etholaeth, gydag wyth etholaeth yn llai, wyth sedd yn llai. Bydd gwrthdaro wedyn. Pam ddylai ein hetholaeth ni fynd? Pam ddylai'r ASau penodol hynny golli'u swyddi? Bydd llawer o ASau, rwy'n siŵr, yn cynnal ymgyrchoedd i achub eu hetholaeth, i gadw eu hetholaeth, ac achub eu swydd. Efallai y bydd rhai yn ymladdgar hyd yn oed! Ond gadewch i ni obeithio mai synnwyr cyffredin, a'r hyn sydd orau i Gymru'n gyffredinol, fydd drechaf, ac mai dyna sut bydd pethau'n mynd. Nid beth rwyf i eisiau, neu beth sydd orau i mi, neu i ni. Ond yr hyn sydd orau i bawb. Yr hyn sy'n gwasanaethu Cymru a'i phobl orau. Gadewch i ni obeithio mai dyma yw, ac a fydd, ymagwedd, ac agwedd pawb.

Er y gellir rhannu Cymru mewn llawer o ffyrdd, mae'n rhaid i ni obeithio y bydd gostyngiadau yn rhai unffurf. Y bydd pob rhan o Gymru'n cael ei chynrychioli'n gyfartal. Ond gellir rhannu Cymru'n fwy na phum rhan, ac mae Cymru wedi'i rhannu'n fwy na phum rhan fel arfer. Gydag etholaethau, efallai mai pump sydd yn fwyaf addas. Gallai'r pump "rhan" o Gymru ar gyfer etholaethau fod fel a ganlyn gan ddefnyddio etholaethau presennol;

Gogledd Cymru (10) – Ynys Môn, Arfon, Aberconwy, Dwyfor Meirionnydd, Gorllewin Clwyd, Dyffryn Clwyd, Delyn, Alun a Glannau Dyfrdwy, Wrecsam, De Clwyd.

Canolbarth Cymru (3) – Sir Drefaldwyn, Ceredigion, Brycheiniog a Sir Faesyfed.

De Orllewin Cymru (4) – Preseli Sir Benfro, Sir Benfro, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Llanelli.

Canol De Cymru (7) – Gŵyr, Gorllewin Abertawe, Dwyrain Abertawe, Castell-nedd, Aberafan, Pen-y-bont ar Ogwr, Ogwr.

De Ddwyrain Cymru (16) – Bro Morgannwg, De Caerdydd a Phenarth, Gorllewin Caerdydd, Canol Caerdydd, Gogledd Caerdydd, Pontypridd, Rhondda, Cwm Cynon, Merthyr Tudful a Rhymni, Caerffili, Islwyn, Blaenau Gwent, Torfaen, Gorllewin Casnewydd, Dwyrain Casnewydd, Mynwy.

Cael gostyngiadau ledled Cymru gyfan yn gyfartal. Pob rhan o Gymru'r un peth - y cyfan yr un fath.

A oedd yr etholaethau presennol yn gwneud hynny? Mae'n siŵr nad oeddent. Yn ôl amrywiant nifer yr etholwyr – yr amrediad etholiadol mwyaf. Mae hwn yn rhywbeth y dylai'r un newydd, yr un presennol, ei wneud. Gan gymharu'r etholaethau presennol ac etholaethau'r cynigion cychwynnol;

| | Presennol | Cynnig | Gwahaniaeth | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| Gogledd Cymru | 10 | 7 ½ | -2 ½ | Mae'r gostyngiad mwyaf o 1 wedi'i ddiogelu |
| Canolbarth Cymru | 3 | 1 ½ ½ | -1 | Dim ond 1 etholaeth sydd gan Ganolbarth Cymru nawr. 1 a rennir gyda Gogledd Cymru 1 a rennir gyda De Orllewin Cymru |
| Canol De Cymru | 7 | 5 | -2 | Gostyngiad o 2, ond yn gymesur yr 2il fwyaf |
| De Orllewin Cymru | 4 | 3 ½ | -½ | Gostyngiad lleiaf yn rhannu ½ gyda Chanolbarth Cymru |
| De Ddwyrain Cymru | 16 | 14 | -2 | Gostyngiad o 2, ond yn gymesur y trydydd mwyaf/lleiaf |
| Cymru | 40 | 32 | -8 | |
| Gostyngiad Mwyaf | | | | Gostyngiad Lleiaf |
| Gogledd Cymru | Canol De Cymru | De Ddwyrain Cymru | Canolbarth Cymru | De Orllewin Cymru |

Y pwynt yw cael cynrychiolaeth gyfartal i bawb NAWR.

Bod pob rhan o Gymru yn cael ei thrin yn deg a chyfartal.

Efallai ei fod yn beth da a chywir i BEIDIO Â chymharu.

Cael cychwyn o'r newydd, ymgais newydd. Cael y gorau un gydag ac ar gyfer yr amgylchiadau newydd, y sefyllfa newydd.

FE ALLAI'R HEN DREFN RWYSTRO HYN. Mae'r hen yn atal y newydd gorau.

Gan edrych ar y Cynigion Cychwynnol, mae'n ymddangos nad yw rhywbeth yn iawn – mae'n sefyll allan. Nid yw rhannu dinas yn ddwy, yn ddwy etholaeth wahanol, yn mynd i gael derbyniad da. Bydd yn ennyn gwrthwynebiadau a phrotestiadau. Ni fydd pobl ardal Bangor yn ei weld yn beth da. Hefyd, bydd rhannu Arfon yn cael ei weld fel cam nad yw'n trin yr ardal yn dda, yn ddoeth, neu'n bwrpasol.

Yng Ngogledd Cymru, wrth fynd o un pen i'r llall, mae gennych ddwy ardal yn y bôn – yr arfordir a'r mewndir. Cyfansoddiad gwahanol iawn ym mhob ffordd. Mae gennych y trefi gwyliau arfordirol a threfol. Mae gennych gefn gwlad amaethyddol a gwledig yr ardaloedd mewndirol. Mewn un ystyr, byddai'n well eu trin ar wahân – "adar o'r un lliw". Mewn un ystyr, gallech ddweud eu bod yn rhyngweithio, a bod un yn "gefnwlad" y llall. Mae ardaloedd Awdurdod Lleol yn eu rhoi at ei gilydd. Ar gyfer etholaethau, bydd y niferoedd yn hollbwysig o ran beth all ffitio ynghyd. Mae tair ardal gan Ogledd Ddwyrain Cymru yn gyffredinol. Arfordirol, Gwledig a Threfol. Efallai mai ffurfio etholaeth ar gyfer bob un fyddai orau. Byddai pedair etholaeth gan Ogledd Ddwyrain Cymru (yn ôl niferoedd), dwy drefol o bosibl, ac un o'r rheiny'n ddiwydiannol. Bydd y ffiniau'n achosi dadlau. Ble yn union maen nhw'n mynd? Eto, gallai niferoedd bennu hyn. Felly ni cheir y dewis gorau un. Hefyd, enwau'r rhain, beth ddylid eu galw? Mae cael enw unedol, un ffurf sengl yn beth da. O leiaf o ran hunaniaeth, cydgefnogaeth ac undod. Fel yr enw Delyn ar gyfer un. Felly ar gyfer ei gymydog, cael 'Alee' ar gyfer y llall. Mae'r ddau enw ar ôl y ddwy brif afon yn yr ardal. Ond mae grym y ddwy afon yn gwahaniaethu ym mhob ardal. Mae'r ddwy yn defnyddio'r un iaith ar gyfer pob afon. Y Saesneg ar gyfer yr afonydd yw Dee ac Alyn. Gyda'r duedd o blaid y Gymraeg, efallai y dylid ei wneud gan ddefnyddio'r Gymraeg. Beth yw'r ffordd orau o'i wneud? Dyf(rd)un ac Al(rd)wy? Ar ôl yr afonydd Dyfrdwy ac Alun.

Yn sicr, bydd pobl eisiau cadw Tref Wrecsam gyfan gyda'i gilydd – rhan y dref ei hun o'r fwrdeistref. Dwy dref arfordirol Gogledd Orllewin Cymru – Rhyl a Phrestatyn. I fod gyda'i gilydd? Bydd pobl yn sicr am gadw Gogledd Ddwyrain Cymru gyda'i gilydd. Yn sicr <u>ni</u> fyddant am i ran ohono gael ei "dosrannu" i fod gyda Chanolbarth Cymru. Dim cysylltiad, yn ddaearyddol, yn hanesyddol, yn ddiwylliannol, yn ffisegol. <u>Pam gwneud hynny?</u> Mae Mynyddoedd y Berwyn yn ei wneud yn ddwy ran ar wahân. Nid un etholaeth ydyw yn sicr. Efallai y bydd rhai pobl yn Sir Drefaldwyn yn ei hoffi. Mae'n cadw Sir Drefaldwyn yn un. Mae angen ychwanegu "darn" ato. Mae'r "darn" sy'n cael ei ychwanegu ato ar wahân ac yn "fach". Bydd y Sir Drefaldwyn hon mor agos at ei hun ag y gall fod ar gyfer ychwanegu'r niferoedd. Byddant yn gweld bod hyn yn ffafriol i Sir Drefaldwyn. Dylai Glyndŵr fod yn etholaeth ynddi'i hun. Un o'r pedair yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Dylai Sir Drefaldwyn fod yn "bartner" gydag ardal debyg i ffurfio etholaeth gydlynus. Nid yw Sir Drefaldwyn gyfan eisiau aros gyda'i gilydd. Mae'r rhan Orllewinol yn gweld ei hun fel rhan sy'n cael ei hesgeuluso, ei diystyru gan y rhan Ddwyreiniol – rhan yr anghofiwyd amdani. Yn wir, mae mwy gan

Fachynlleth a Dyfi yn gyffredin gyda Meirionnydd a Cheredigion. O ran Canolbarth Cymru, mae Powys yn rhy fawr ar gyfer etholaeth, ac mae Ceredigion yn rhy fach. Ond gyda'i gilydd, dylent allu ffurfio dwy etholaeth Canolbarth Cymru yn hytrach na rhannu dau "hanner". Un gyda Gogledd Ddwyrain Cymru ac un gyda De Orllewin Cymru. O bosibl, Ceredigion a Gogledd Powys, a Chanol a De Powys? Ar gyfer Ceredigion, mae'r rhannau gorau i uno â hi yng Nghanolbarth Cymru. Y rhannau gorau, efallai, y ddau ddyffryn ar y naill ben - Dyffryn Dyfi a Dyffryn Teifi. Hefyd, ffin Ceredigion Powys a ffin Ceredigion Caerfyrddin. Ar gyfer yr un olaf, mae hwnnw'n benodol o Lanbedr Pont Steffan i Gastellnewydd Emlyn. Felly, gyda'r rhain, ni fyddai angen ychwanegu'r Preselau at Geredigion. Os yw'r enw Brycheiniog a Sir Faesyfed i'w gadw yn hytrach na Phowys, yna mae angen iddo fod yn gyson. Naill ai'r Siroedd neu'r Trefi. Mae'r siroedd yn cwmpasu'r ardal gyfan a gynhwysir ac felly mae'n fwy priodol. Felly, defnyddio'r enw Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed; Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed, os nad yw Powys i'w ddefnyddio. Gadewch i ni gael <u>cynrychiolaeth go iawn yng Nghanolbarth Cymru</u>. Beth sydd gan Gorwen, ac ati, yn gyffredin â Threfaldwyn, y Trallwng ac ati? Dim byd o gwbl!

Pa ardal yw Preseli mewn gwirionedd? <u>Nid</u> y cyfan o ARFORDIR Gogledd Sir Benfro ydyw. Oni fyddai Bae Ceredigion / Ceredigion Bae yn enw gwell? Ond wedyn <u>ni</u> ddylid mynd â'r Arfordir Gogleddol i gyd oddi wrth Sir Benfro. A yw Sir Benfro a Chaerfyrddin yn mynd yn well â'i gilydd na Sir Benfro a Cheredigion? Mae etholaeth Llanelli bron yn cyffwrdd â Thref Caerfyrddin. Ni fydd rhoi lle sy'n llawer agosach a dim ond i lawr y ffordd o Gaerfyrddin yn Llanelli fyth yn gwneud y tro. <u>Cwbl anghywir!</u> PEIDIO Â THORRI PORTH TYWYN YN DDAU – BYTH!

Byddai'n fwy priodol o lawer rhoi Dyffryn Aman i mewn gyda Llanelli. Mae gan Rydaman lawer mwy yn gyffredin ag ardal Llanelli – yn ddiwylliannol, yn hanesyddol.

Dylai ardal Dinas Abertawe o Abertawe fod fel y mae ei hun. Nid ei chyfuno ag unrhyw ran. Nid ei chysylltu â Chastell-nedd.

Dylai'r Ddinas ei hun gael dwy etholaeth – dwy etholaeth hunangynhwysol. Dylai fod ei hetholaeth ei hun gan Gastell-nedd. Dylai fod ei hetholaeth ei hun gan Bort Talbot. Mae angen ategu'r ddau. Dylent gael eu hategu o'r naill ochr. Yn hytrach na chyfuno. <u>Ni</u> ddylid eu cyfuno. Yn sicr, <u>ni</u> ddylai rhannau o Gastell-nedd gael eu cyfuno gydag etholaeth Canolbarth Cymru. Dim byd o gwbl yn gyffredin! Os unrhyw beth, dylai fod y ffordd arall. Mae Cwm Tawe Uchaf (Tawe-Uchaf) yn perthyn i/gyda gweddill Cwm Tawe. Mae hanes diwydiannol ganddyn nhw i gyd, yn wahanol i Bowys Wledig. Dylai'r pedair neu'r pum ward fod gyda gweddill Cwm Tawe. Gellid ategu'r ardal honno gyda Chastell-nedd (tua'r Gorllewin). Tra bod yr ochr arall yn ategu Port Talbot (tua'r Dwyrain). Felly ystyriaethau Abertawe, Dyffryn Aman. Gellid enwi'r ddwy etholaeth ar ôl yr afonydd a'r cymoedd sy'n cynnwys y rhan fwyaf o bob etholaeth – <u>Nedd</u>; <u>Afan</u>.

Bydd rhannu Pen-y-bont ar Ogwr yn achosi problemau ac yn dod â phrotestiadau. Pam ddylai Pen-y-bont ar Ogwr gael ei rannu? Ni fydd yn gwneud unrhyw synnwyr i'r bobl leol. Byddant wedi gwylltio, <u>dim i ni o gwbl!</u>

Dylai Pen-y-bont ar Ogwr gael ei wneud yn gyfan. Cadw Pen-y-bont ar Ogwr yn un fydd y gri. Cadwch Pen-y-bont ar Ogwr yn un, os gwelwch yn dda. Bydd cri debyg o Fro Morgannwg. Mae'r Fro yn rhy fawr i wneud un etholaeth unigol. Y rhan sy'n ffurfio etholaeth yn dda yw'r rhan Orllewinol o amgylch dwy dref y Barri a Phenarth. Ardal drefol yw hon i raddau helaeth. Gan fod y Gorllewin yn wledig/fwy gwledig. Mae'n mynd orau gyda rhannau eraill o hen Ardal Wledig y Bont-faen, sydd i'r gogledd o'r M4. Tref Bro Morgannwg yw Penarth. Nid yw erioed (yn gyffredinol) wedi eisiau gadael yr ardal. Nid yw erioed wedi eisiau ymuno â Chaerdydd. Diben etholaeth Caerdydd - De Caerdydd a Phenarth yw gwneud y rhifau i fyny ar gyfer Caerdydd - dyna pam y ceir etholaeth De Caerdydd a Phenarth. Nid dyma sydd orau ar gyfer pobl Penarth. Nid yw'r rhan fwyaf eisiau hynny. Dim ond pobl sydd wedi symud o Gaerdydd ac efallai rhai sydd wedi gweithio yng Nghaerdydd am dipyn fyddai eisiau unrhyw beth tebyg i hynny. Ond mae'n eilaidd iawn. Nid yw llawer o'r farn bod y gwasanaeth y mae ganddynt hawl iddo, neu y dylent ei gael, ganddynt. Ffurfio un etholaeth ar gyfer pawb ohonyn nhw sy'n byw yno fyddai'n fwyaf buddiol a defnyddiol iddyn nhw. Penarth i ail

-ymuno â Bro Morgannwg - heb sôn am foi mwy yng Nghaerdydd.

Nid yw Dinas Powys yn gallu gweld unrhyw reswm iddynt gael eu "taflu" i mewn iddi.

Gyda Chaerdydd fe gewch y rheiny sydd eisiau Dwyrain Caerdydd. Byddai rhai yn dymuno cael pedair etholaeth ar gyfer Caerdydd! De Ddwyrain, Gogledd Ddwyrain, Gogledd Orllewin, De Orllewin.

Ar gyfer y Cymoedd, bydd pawb yn dweud peidiwch â rhoi'r cymoedd i mewn/gydag unrhyw beth arall. CADWCH Y CYMOEDD I GYD GYDA'I GILYDD.

Dylai, rhaid, i Bont-y-clun, Ffynnon Taf, ac ati, aros yn y cymoedd. Dyna ble maen nhw. Dyna ble maen nhw'n perthyn. Mae hynny'n rhan ohonynt. Mae cael eu taflu i mewn i Gaerdydd yn golygu eu bod yn cael eu boddi heb unrhyw ôl ohonynt - wedi'u colli! WEDI MYND. Rhaid PEIDIO â thorri Cwm Cynon yn ei hanner. Rhaid PEIDIO â dileu Cwm Cynon. CADWCH GWM CYNON ac mae angen ategu'r rhan fwyaf o'r cymoedd (fel yn wir y mae pawb arall yn gwneud).

Ychwanegwch rannau at y cymoedd. Efallai y byddai rhai etholaethau yno angen rhannau o gymoedd eraill er mwyn iddyn nhw fod o fewn yr amrediad etholiadol. Ond dylai fod ei hetholaeth ei hun gan bob cwm. Pob Cwm i gael ei etholaeth ei hun.

Mae'r cymoedd wedi ffurfio un erioed. Ond gyda Chwm Rhymni, roedd yr afon yno'n ffurfio'r ffin rhwng Sir Morgannwg a Sir Fynwy. Y Lan Orllewinol oedd Sir Morgannwg. Y Lan Ddwyreiniol oedd Sir Fynwy. Roedd popeth yn gwbl ar wahân, o dan siroedd gwahanol a'u cynghorau. Felly mae hanes Rhymni yn hanes o 'ddau hanner'. Roedd "hanner" Morgannwg yn cynnwys dwy ardal drefol – Caerffili a Gelligaer. Roedd "hanner" Mynwy yn cynnwys pedair ardal drefol – Rhymni (Tredegar), Bedwellty, Mynydd Islwyn a Bedwas a Machen (a Rhisga). Roedd, ac mae, llawer mwy o bobl ar "hanner Mynwy" na "hanner Morgannwg". Roedd hanes eithaf ar wahân gan y ddau, a chynrychiolwyr cwbl ar wahân a gwahanol. Roedd Bedwellty yn etholaeth – Neil Kinnock.

Gydag ad-drefnu'r llywodraeth yn y 1970au, daethpwyd â rhannau o'r cwm at ei gilydd. Ymunodd Tref Rhymni ar ochr Mynwy (ar y Dwyrain) ag ochr Morgannwg. Arhosodd y rhan Ganol gyda Mynwy (a elwir yn Gwent bellach) a oedd, ac sydd yn ardal adeiledig. Yna, rhoddwyd rhan o'r rhan isaf (Bedwas a Machen) gydag ochr Morgannwg. Roedd Cyngor Dosbarth Gwledig Bedwas a Machen yr un mor bell o Gasnewydd â Chyngor Dosbarth Gwledig Rhisga. Roedd y ddau yn gysylltiedig â'i gilydd (a Chasnewydd) er bod rhannau mewn Cymoedd gwahanol. Mae gan y ddau yr un math o gyswllt â Chasnewydd - ffyrdd A rhagorol. Roedd Neuadd y Sir yng Nghasnewydd. Symudodd i Gwmbrân yn ddiweddarach. Felly nid oedd gan Fedwas a Machen fawr i wneud â Chaerffili - ochrau gwahanol o'r afon a Siroedd gwahanol (Morgannwg - Caerdydd; Mynwy - Casnewydd).

Nid oedd Tref Rhymni yn cyfranogi bron dim gyda rhan isaf y Cwm – Sir Fynwy ydoedd.

Y lle canolog ac agosaf oedd Coed-duon (Sirhywi). Roedd Tredegar a Thredegar Newydd gyda'i gilydd. Tra bod Bargoed ac Aberbargoed ar wahân ar ochrau'r afon gyferbyn â'i gilydd ac mewn Siroedd gwahanol. Fe wnaeth ad-drefnu'r 1970au wahanu Tredegar a Thredegar Newydd (Un yng Ngwent, un ym Morgannwg) a daeth â Bargoed ac Aberbargoed ynghyd (y ddau ym Morgannwg). Crëwyd Bwrdeistrefi newydd. Daeth ochr Morgannwg i gyd yn un fwrdeistref, sef bwrdeistref Cwm Rhymni. Daeth ochr Gwent yno yn ddwy fwrdeistref - Islwyn a Blaenau Gwent. Yna yn ail hanner y 1990au gyda ffurfio Dosbarthau Unedol (daeth y Siroedd i ben) unwyd Islwyn a Chwm Rhymni yn un ac fe'i galwyd yn Caerffili. Er, nid tref y fwrdeistref yw hi. Yn wir, mae i ffwrdd oddi wrth y brif boblogaeth sydd yng nghanol y cymoedd. Mae Islwyn yn cwmpasu canol y cymoedd, yn cwmpasu'r cymoedd yno. Gwelir eisiau'r fwrdeistref yn fawr. Ond mae ei hunaniaeth a'i phobl yn dal i gadw ati. Mae'r holl ardal honno wedi'i rhoi yng Ngwent nawr o ran yr Heddlu, Iechyd, Cymdeithasau Gwirfoddol ac ati. Mae Coed-duon a Phontllanffraith yn Nyffryn Sirhywi. Mae heol Sirhywi yn mynd o Dredegar drwy'r ddwy dref honno i Crosskeys - A4048. Mae canol y cymoedd wedi'i gysylltu ynghyd gan ffordd ragorol yr A472 sy'n uno Ystrad Mynach a Threcelyn, ac mae datblygiad hirgul rhyngddyn nhw - mae'n ardal barhaus adeiledig. Felly mae'r Cymunedau rhyngddynt i gyd yn cael eu gwasanaethu ganddi (A472) gan gynnwys Ysbyty Ystrad Fawr, Coed-duon, Pontllanffraith ymhlith rhai eraill yn ogystal â'r ddwy dref ar y pen - Ystrad Mynach a Threcelyn. Er enghraifft, mae Trecelyn yn agosach o lawer at y rhain i gyd ac yn llawer cyflymach i'w chyrraedd na Chasnewydd. Ni ellir dweud hyn am Gaerffili mewn perthynas â Chaerdydd. Mae pellter, amser teithio a rhwyddineb i gyd yn cyfeirio at Gaerdydd. Mae pobl a thraffig/teithio Caerffili yn mynd mwy i Gaerdydd nac i fyny'r Cwm. Mae patrymau teithio i'r gwaith, hamdden a phatrymau siopa ac ati yn dangos diddordeb Caerffili yng Nghaerdydd. Wrth fod yn y basn, maent wedi'u gwahanu rywsut oddi wrth y cwm.

D.S Mae pobl o ganol a Gogledd Rhymni yn cymryd y trên i Gaerdydd yn bennaf, <u>nid</u> i Gaerffili. Mae pobl Caerffili yn mynd i Gaerdydd yn bennaf.

Mae ardal adeiledig Caerffili yn agosach i Gaerdydd nac at ardal adeiledig y cwm. Mae mwy o ofod rhwng ardal adeiledig y Cymoedd ac ardal adeiledig Caerffili na

rhwng ardaloedd adeiledig Caerffili a Chaerdydd. Roedd Maesycwmmer yn rhan o Islwyn, felly'n rhan o etholaeth Islwyn yn gywir. Roedd Pengam a Fleur-de-Lis yn rhan o fwrdeistref Islwyn a oedd yn mynd at ymyl yr afon – hyd at Rhymni – y rhan ganol honno.

Mae Maesycwmmer – Pontllanffraith – Coed-duon i gyd yn Sirhywi. Mae Crymlyn – Oakdale – Gilfach, wedi'u cysylltu gan ffyrdd yn Islwyn. Mae Gilfach wedi'i gysylltu â Phengam i'r Coed-duon. Mae'r A468 yn mynd o Fachen (a Bedwas a Chaerffili) i Gasnewydd. Fel mae'r A467 yn mynd o Risga i Gasnewydd. Yr un amodau a'r un pellter fwy neu lai.

Gyda Chasnewydd, mae'r afon yn ffurfio ffin naturiol. Felly mae'n gwneud toriad naturiol yng Nghasnewydd i'r Dwyrain a'r Gorllewin.

Mae'r Canol ar y Lan Orllewinol, ond mae'r amrediad etholiadol yn atal hyn. Cymerodd Casnewydd y rhan fwyaf o Gyngor Dosbarth Gwledig Magwyr a Llaneirwg (cymharer Casnewydd Gwledig â Chaerdydd Gwledig). Ond aeth Llaneirwg i mewn i Gaerdydd (a Morgannwg) tra bod Magwyr wedi mynd i Sir Fynwy (oddeutu hanner yr ardal, efallai llai nag un rhan o bump o boblogaeth Sir Fynwy wreiddiol). Ers hynny mae datblygiadau wedi arwain at ardal Magwyr yn tueddu mwy tuag at Gasnewydd. Yn wir, cafodd ardal gyfan Glan Hafren (Rogiet, Caldicott, ac ati) fel gydag Underwood eu hadeiladu ar gyfer gweithwyr dur Llanwern. Mae datblygiadau tai newydd yn gwneud yr ardal hon yn wahanol iawn i Sir Fynwy bresennol. Mae'r ardal adeiledig yn troi i raddau helaeth at Gasnewydd. Patrymau teithio – gweithio, siopa, adloniant, ac ati i gyd yng Nghasnewydd. Bydd rhannau gwledig yn ymgysylltu â Sir Fynwy bresennol. Felly, yn yr ardal hon ceir pobl nad ydynt eisiau i Ddwyrain Casnewydd fynd ac nad ydynt eisiau mynd gyda Mynwy. Bydd rhai eisiau'r gwrthwyneb. Byddai'r rhan fwyaf yn mynd gyda Dwyrain Casnewydd.

Fel o hyd, mae'r niferoedd yn dod yn weithredol ac felly'n pennu'r union ffin. Bydd y rheiny yn Nhorfaen yn falch fod y niferoedd yn golygu y gall Torfaen i gyd fod gyda'i gilydd eto. Felly mae hynny'n beth da. Ond o ran Rogiet, Caldicott, Magwyr, ac ati, nid yw'n beth da eu bod wedi'u gwahanu oddi wrth Gasnewydd. Mae ganddynt lawer mwy yn gyffredin gyda Chasnewydd. Mae coridor yr M4/M48 yn golygu bod Casnewydd a Glan Hafren yn mynd gyda'i gilydd – rhan o "dref noswyl" Casnewydd. Nid ydynt wedi'u cysylltu mewn gwirionedd â gweddill yr Awdurdod Lleol. Mae diwylliant gwahanol iawn ac ati gan Lan Hafren. O ran Gogledd-orllewin yr ardal hon – o amgylch y Fenni – mae wedi'i chysylltu i raddau helaeth â Chrucywel, Llangatwg, Grugne, ac ati.

Os oes angen ategu etholaeth Canolbarth Cymru yno o du allan i Bowys, byddai hon yn ardal dda i'w hystyried. Byddai'n well o lawer na Chwm Tawe. Mae Cwm Tawe yn amhosibl yma, mae'r Fenni yn bosibl.

Y NOD YW CAEL Y SET ORAU UN O 32 O ETHOLAETHAU.

Mae a wnelo hynny â phawb, nid rhai neu ychydig yn unig. Oherwydd niferoedd yr etholaethau a'r amrediad statudol mae'n golygu CYFADDAWDAU I BAWB.

Mae angen i Ogledd Cymru i gyd fod gyda'i gilydd - gan gynnwys y cyfan o'r Gogledd Ddwyrain. Mae angen i'r tair ardal wledig, trefol ac arfordirol gael eu hystyried. Ni ddylai Canolbarth Cymru gael ei wasgu. Mae ei dair etholaeth bresennol i'w lleihau i ddwy (iddo'i hun - nid yn cael eu rhannu). Dylai gael dwy o etholaethau ei hun.

Y De Orllewin i gael tair etholaeth ei hun o leiaf.

Gallai yn wir rannu rhannau ("hanner") o etholaeth gyda Chanolbarth Cymru - Ceredigion - neu Sir Frycheiniog a Maesyfed, neu De Cymru gyda rhan o Abertawe; mae angen i Ddinas Abertawe gael dwy etholaeth ei hun. Mae eu hetholaethau eu hunain gan Gastell-nedd a Phort Talbot gydag ychwanegiad. Pen-y-bont ar Ogwr i gael ei etholaeth ei hun - fel nawr i raddau helaeth. Bro Morgannwg heb ran ohoni wedi'i chysylltu â Chaerdydd mwyach.

Y pen hwnnw o'r Fro yn ffurfio ei Etholaeth ei hun.

I Gaerdydd gael ei ategu mae dau yn bosibl – Casnewydd neu Gaerffili (neu'r ddau). (Mae Rhymni'n llifo trwy Gaerdydd a Chaerffili).

Y Cymoedd i gyd gyda'i gilydd fel un. Bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o'r rhain rannu.

Y rhai mwyaf naturiol i rannu yw Canol Rhymni a Rhymni Uchaf, a Chanol Sirhywi a Sirhywi Uchaf. Gellir gwneud y lleill mor "naturiol" â phosibl, ac mae ardal adeiledig gan Nelson gyda Threharris. Mae i'r Gogledd a'r Gogledd Orllewin lle ceir y cysylltiad mwyaf. I'r De a'r Dwyrain, ceir gofod cefn gwlad, Felly Nelson gyda Merthyr Tudful.

Mae angen i enwau'r etholaethau hyn ac etholaethau'r Senedd fod yn wahanol. Yn gwbl wahanol er mwyn osgoi dryswch a chymysgwch. Felly, DIM enwau tebyg i'r etholaethau Senedd hynny.

Dylid tynnu dalen o lyfr yr Alban, lle NAD YW yw etholaethau seneddol YN GALLU CAEL YR UN ENW. FELLY NAWR AR GYFER CYMRU – SET NEWYDD O ENWAU I'R CYFAN.

Gwaith da.

Cadwch fy holl fanylion yn breifat, os gwelwch yn dda. Diolch.

Dymuniadau gorau.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

**BCW-10098/ Cynghorydd Linda Tyler- Lloyd/ Mayals**

**From:** [redacted]
**Sent:** 28 February 2022 11:59
**To:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Subject:** Boundary at Mayals Swansea

Hoffwn ddadlau o blaid cefnogi'r argymhelliad i roi Mayals yng Ngŵyr. Rwyf ar gael o 2pm yfory os oes angen i mi fynychu i siarad am hyn.

Yn Gywir,

Linda Tyler-Lloyd,
Cynghorydd Dinas ar gyfer Ward Mayals

**BCW-10099/ [redacted]/ Abertawe**

Rwy'n cefnogi'r newidiadau hyn. Am gyfnod rhy hir, mae cymuned Mayals wedi'i gwahanu oddi wrth etholaeth Gŵyr. Mae cymuned Mayals yn rhan o ffin cyngor cymuned y Mwmbwls ac yn amlwg yn rhan annatod o'r Mwmbwls a Gŵyr.

DEISEB I GADW CYMUNEDAU BEDWAS, TRETHOMAS A MACHEN, CAERFFILI, CWM ABER, LLANBRADACH, YSTRAD MYNACH, ST CATWG, A HENGOED, GYDA'I GILYDD MEWN ETHOLAETH SENEDDOL'

Rydym ni, y trigolion yn etholaeth bresennol Caerffili sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau i Gymru ailystyried eu cynigion cychwynnol a chadw ein cymunedau gyda'i gilydd.

Mae topograffi naturiol y cymoedd wedi creu cwlwm cryf a "chymuned fuddiant" y dylid eu parchu.

Fe'ch anogwn, felly, i ystyried cadw rhan isaf a rhan ganol Cwm Rhymni gyda'i gilydd, a chysylltu Casnewydd â chefnwlad ei ddyffryn naturiol.

| Enw | Cyfeiriad | [redacted] | Rhif Cyswllt | Llofnod |
|---|---|---|---|---|
| [redacted] | | | | |

DEISEB I GADW CYMUNEDAU BEDWAS, TRETHOMAS A MACHEN, CAERFFILI, **CWM ABER, LLANBRADACH, YSTRAD MYNACH, ST CATWG, A HENGOED, GYDA'I GILYDD MEWN ETHOLAETH SENEDDOL'**

Rydym ni, y trigolion yn etholaeth bresennol Caerffili sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau i Gymru ailystyried eu cynigion cychwynnol a chadw ein cymunedau gyda'i gilydd.

Mae topograffi naturiol y cymoedd wedi creu cwlwm cryf a "chymuned fuddiant" y dylid eu parchu.

Fe'ch anogwn, felly, i ystyried cadw rhan isaf a rhan ganol Cwm Rhymni gyda'i gilydd, a chysylltu Casnewydd â chefnwlad ei ddyffryn naturiol.

| Enw | Cyfeiriad | Rhif Cyswllt | Llofnod |
|---|---|---|---|
| [redacted] | | | |

[redacted]

DEISEB I GADW CYMUNEDAU BEDWAS. TRETHOMAS A MACHEN. CAERFFILI, **CWM ABER, LLANBRADACH, YSTRAD MYNACH, ST CATWG, A HENGOED, GYDA'I GILYDD MEWN ETHOLAETH SENEDDOL'**

Rydym ni, y trigolion yn etholaeth bresennol Caerffili sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau i Gymru ailystyried eu cynigion cychwynnol a chadw ein cymunedau gyda'i gilydd.

Mae topograffi naturiol y cymoedd wedi creu cwlwm cryf a "chymuned fuddiant" y dylid eu parchu.

Fe'ch anogwn, felly, i ystyried cadw rhan isaf a rhan ganol Cwm Rhymni gyda'i gilydd, a chysylltu Casnewydd â chefnwlad ei ddyffryn naturiol.

| **Enw** | Cyfeiriad | Rhif Cyswllt | Llofnod |
|---|---|---|---|
| [redacted] | | | |

DEISEB I GADW CYMUNEDAU BEDWAS, TRETHOMAS A MACHEN, CAERFFILI, **CWM ABER, LLANBRADACH, YSTRAD MYNACH, ST CATWG, A HENGOED, GYDA'I GILYDD MEWN ETHOLAETH SENEDDOL'**

Rydym ni, y trigolion yn etholaeth bresennol Caerffili sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau i Gymru ailystyried eu cynigion cychwynnol a chadw ein cymunedau gyda'i gilydd.

Mae topograffi naturiol y cymoedd wedi creu cwlwm cryf a "chymuned fuddiant" y dylid eu parchu.

Fe'ch anogwn, felly, i ystyried cadw rhan isaf a rhan ganol Cwm Rhymni gyda'i gilydd, a chysylltu Casnewydd â chefnwlad ei ddyffryn naturiol.

[redacted]

| **Enw** | Cyfeiriad | Rhif Cyswllt | Llofnod |
|---|---|---|---|
| [redacted] | | | |

DEISEB I GADW CYMUNEDAU BEDWAS, TRETHOMAS A MACHEN, CAERFFILI, **CWM ABER, LLANBRADACH, YSTRAD MYNACH, ST CATWG, A HENGOED, GYDA'I GILYDD MEWN ETHOLAETH SENEDDOL'**

Rydym ni, y trigolion yn etholaeth bresennol Caerffili sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau i Gymru ailystyried eu cynigion cychwynnol a chadw ein cymunedau gyda'i gilydd.

Mae topograffi naturiol y cymoedd wedi creu cwlwm cryf a "chymuned fuddiant" y dylid eu parchu.

Fe'ch anogwn, felly, i ystyried cadw rhan isaf a rhan ganol Cwm Rhymni gyda'i gilydd, a chysylltu Casnewydd â chefnwlad ei ddyffryn naturiol.

[redacted]

| Enw | Cyfeiriad | Rhif Cyswllt | Llofnod |
|---|---|---|---|
| [redacted] | | | |

DEISEB I GADW CYMUNEDAU BEDWAS, TRETHOMAS A MACHEN, CAERFFILI, **CWM ABER, LLANBRADACH, YSTRAD MYNACH, ST CATWG, A HENGOED, GYDA'I GILYDD MEWN ETHOLAETH SENEDDOL'**

Rydym ni, y trigolion yn etholaeth bresennol Caerffili sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau i Gymru ailystyried eu cynigion cychwynnol a chadw ein cymunedau gyda'i gilydd.

Mae topograffi naturiol y cymoedd wedi creu cwlwm cryf a "chymuned fuddiant" y dylid eu parchu.

Fe'ch anogwn, felly, i ystyried cadw rhan isaf a rhan ganol Cwm Rhymni gyda'i gilydd, a chysylltu Casnewydd â chefnwlad ei ddyffryn naturiol.

| Enw | Cyfeiriad | Rhyf Cyswllt | Llofnod |
|---|---|---|---|

[redacted]

DEISEB I GADW CYMUNEDAU BEDWAS, TRETHOMAS A MACHEN, CAERFFILI, **CWM ABER**, **LLANBRADACH, YSTRAD MYNACH, ST CATWG, A HENGOED, GYDA'I GILYDD MEWN ETHOLAETH SENEDDOL'**

Rydym ni, y trigolion yn etholaeth bresennol Caerffili sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau i Gymru ailystyried eu cynigion cychwynnol a chadw ein cymunedau gyda'i gilydd.

Mae topograffi naturiol y cymoedd wedi creu cwlwm cryf a "chymuned fuddiant" y dylid eu parchu.

Fe'ch anogwn, felly, i ystyried cadw rhan isaf a rhan ganol Cwm Rhymni gyda'i gilydd, a chysylltu Casnewydd â chefnwlad ei ddyffryn naturiol.

| Enw | Cyfeiriad | Rhif Cyswllt | Llofnod |
|---|---|---|---|
| [redacted] | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# **ABER** VALLEY COMMUNITY COUNCIL
# CYNGORCYMUNEDCWMABER

Clerc: [redacted]
Cyngor Cymuned Cwm Aber
[redacted]

E-bost: [redacted]
Gwefan: [redacted]
Teliffon: [redacted]

16 Mawrth 2022

Annwyl Syr,

Fe welwch yn amgaeedig ddeiseb, a lofnodwyd gan aelodau o Gyngor Cymuned

Cwm Aber.

Yr eiddoch yn gywir

[redacted]

Clerc
Cyngor Cymuned Cwm Aber

DEISEB I GADW CYMUNEDAU BEDWAS, TRETHOMAS A MACHEN, CAERFFILI, **CWM ABER, LLANBRADACH, YSTRAD MYNACH, ST CATWG, A HENGOED, GYDA'I GILYDD MEWN ETHOLAETH SENEDDOL'**

Rydym ni, y trigolion yn etholaeth bresennol Caerffili sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Gomisiwn Ffiniau i Gymru ailystyried eu cynigion cychwynnol a chadw ein cymunedau gyda'i gilydd.

Mae topograffi naturiol y cymoedd wedi creu cwlwm cryf a "chymuned fuddiant" y dylid eu parchu.

Fe'ch anogwn, felly, i ystyried cadw rhan isaf a rhan ganol Cwm Rhymni gyda'i gilydd, a chysylltu Casnewydd â chefnwlad ei

ddyffryn naturiol.

| Enw | Cyfeiriad | Rhif Cyswllt | Llofnod |
| --- | --- | --- | --- |
| [redacted] | | | |

[redacted]

**From:** [redacted]
**Sent:** 26 February 2022 12:31
**To:** [redacted]
**Subject:** Parliamentary Changes in our area

Helo Wayne,

Diolch am neilltuo amser i siarad â mi y diwrnod o'r blaen. Fel y gwyddoch, nid wyf yn un i leisio fy marn yn aml, ac rwy'n tueddu cadw meddwl agored. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, roeddwn yn teimlo bod rhaid i mi gyflwyno fy marn yn ysgrifenedig. A wnewch chi basio hwn ymlaen i bwy bynnag sydd angen iddynt wybod pa mor ddifrodus y bydd newidiadau i'n cymuned leol.

I ddangos pwy ydw i, ac i brofi bod gen i farn onest a chredadwy, cynigiaf yr isod.
Fe'm ganwyd yn Ysbyty'r Glowyr yng Nghaerffili ym 1961 gyda fy ngefell [redacted]. Mae fy nheulu i gyd yn lleol, o Gaerffili i'r Coed-duon i Rymni. [redacted], yn [redacted] y Theatr Fach yn y Coed-duon am sawl degawd. [redacted] yn ddylanwad mawr iawn yng Nghapel Coed-duon yn trefnu llawer o ddigwyddiadau ac atebion elusennol am ddegawdau. Y rhain yw fy nheulu sydd wedi 'ngwneud i y person ydw i heddiw. Mae fy nheulu wedi bod yn weithgar iawn yn y gymuned leol am ddegawdau lawer. Mae fy [redacted] wedi ennill gwobr gymunedol am ei gwaith ym mhrosiect Ysbyty'r Glowyr yng Nghaerffili. Felly, hyderaf fod hyn yn rhoi rhyw ymdeimlad o gynefin i'm galwad.
Fel Cadeirydd Côr Meibion Caerffili (a sefydlwyd ym 1906), dros y 10 mlynedd diwethaf, rwyf wedi parhau i gefnogi'r gymuned leol gan gael fy annog gan fy nheulu gwych, ac i fod yn deg, rhai eraill sy'n cefnogi ein hardal. Mae gymaint o sefydliadau teilwng yn lleol sy'n deall ein hardal. Nid Côr yn unig yw ein côr ni. Mae'n gefnogaeth i'n cymuned. Mae'n sefydliad cefnogol sy'n annog pethau gwahanol! Rydym i gyd yn wahanol ac mae angen cymorth arnom ni gyd ar ryw adeg. Mae ein côr ni yn gwneud hyn gyda thanbeidrwydd. Os nad ydych yn fy nghredu, gwyliwch The Singing Postman at Bedwas ar-lein – ef nawr yw ein rheolwr cyfryngau cymdeithasol a'n rheolwr digwyddiadau. Mae [redacted] yn gefnogwr rhyfeddol i'n côr sydd, fel llawer o rai eraill, gan gynnwys minnau, wedi bod angen cymorth a lle i gael troi'r meddwl oddi wrth bethau. Mae gennym ddau aelod un ar bymtheg oed yn y côr a ymunodd â ni'n ddiweddar, ac aelod naw deg a phump oed a ymunodd â'n Côr ym 1948.
O Rymni i Gaerffili, mae fy nheulu, fel rhai eraill, wedi'i wasgaru o'r brig i'r gwaelod o'n cwm. Rydym yn unigryw.

Fy mhwynt yw bod ein Cwm nid yn unig yn gysylltiedig yn ddaearyddol, ond gan gysylltiadau teuluol a materion tebyg hefyd. Mae sefydliadau fel ni yn gweld hyn gyda'n sylfaen eang o anghenion aelodau'r côr, o Gaerdydd/Casnewydd a'n Cymoedd hyfryd. Rydym ni, a minnau'n bersonol, yn deall hyn yn iawn. Mae fy ngwaith yn mynd â mi ar hyd De Cymru gyfan, felly rwy'n deall!
Mae gennym reilffordd sy'n teithio i fyny ac i lawr ein cwm. Mae'n cynnig yr un cysylltiadau a chlymau agos.
Rydym mor unigryw â phob un o'r cymoedd eraill. Rydym yn unigol hefyd o ran ein hanghenion a'n gofynion. (mae ein cymharu ag ardal fel Casnewydd neu Gaerdydd yn wallgofrwydd llwyr). Mae gennym agweddau cymdeithasol a gofynion gwahanol, ac yn enwedig o ran cymuned. Felly a wnaiff rhywun egluro ein nodweddion tebyg â Chasnewydd, sy'n fwy fel Caerdydd. Sut gall rhywun o'r tu allan i'n hardal ni yn wleidyddol wybod neu hyd yn oed **BOENI** ynglŷn â beth sy'n digwydd yn ein Cwm lleol, mae'n ddigon i'ch syfrdanu. Mae sefydliadau yn ein hardal ni yn gweld beth sydd ei angen, ac nid yw ein rhannu'n wleidyddol yn mynd i'n helpu ni mewn unrhyw ffordd. Rwy'n croesawu cyfle i egluro 1-1 fy rheswm dros ysgrifennu, a pham mae'n rhaid i ni gadw sefydlogrwydd Gwleidyddol yn ein hardal. Rwy'n siŵr y bydd sefydliadau elusennol eraill yn lleol wedi drysu'n lân ynglŷn â hyn hefyd.

Fel Cadeirydd sefydliad lleol sydd wedi bod yn gweithredu ers 1906, mae angen cefnogaeth leol arnom gan AS lleol sy'n deall ein gofynion lleol, yn gysylltiedig â'n hanghenion lleol.
A minnau'n dad i dri o blant ac yn rhiant sengl ers blynyddoedd lawer, gallaf ddweud wrthych yn onest y cefais anhawster gyda'r CSA ac roedd angen cymorth lleol arnaf. Yr unig gefnogaeth a gefais oedd gan fy AS lleol. Nid oedd unrhyw un arall yn poeni dim, ac mae hynny'n ffaith! Roeddwn mewn lle gwael ac yn dioddef iselder mawr ynglŷn â'r diffyg cefnogaeth

a dealltwriaeth gan y CSA. Roedd fy mhlant yn byw gyda mi, ac eto roedd y CSA yn cymryd dros £500 y mis o'm cyflog misol, pan oedd gen i dri o blant i'w cynnal yn amser llawn. Oni bai bod fy mod wedi cael cefnogaeth fy AS lleol a'i swyddfa leol, a oedd yn rhagorol, yna rwy'n arswydo meddwl beth fyddai wedi digwydd.

Nid fy AS yn unig, ond y swyddfa leol a'r staff lleol a aeth allan o'u ffordd i fy nghefnogi i gyda geiriau caredig ac anogaeth. Roeddent yn ymwybodol o daerineb fy sefyllfa gan eu bod 5 munud i lawr y ffordd oddi wrthyf. Nid yr AS yn unig, ond y staff cefnogol lleol hefyd, sy'n rhan fawr o hyn.
Os yw unrhyw un yn meddwl am eiliad bod popeth yn iawn ac y gall cynrychiolydd mewn ardal arall ymdrin â materion lleol, yna da chi, meddyliwch eto ac ewch i ymweld â'r holl sefydliadau lleol a gweld pam mae angen i ni gadw cynrychiolaeth mewn ardaloedd tebyg a chefnogi'r bobl yn yr ardal â chanddynt faterion tebyg hefyd. Dim ond yn lleol y gellir datrys y rhain. Mae'n ddrwg gen i am refru ymlaen, ond fel llawer un arall yn ein hardal rydym yn ceisio hybu ymwybyddiaeth gymdeithasol. Mae angen i'n Gwleidyddiaeth gyfateb i'n hamgylchiadau.

Diolch, Wayne, am gymryd yr amser i ddarllen hwn, ac os gallaf fod o unrhyw gymorth i atal y trychineb hwn, yna rwy'n barod i siarad yn uniongyrchol â'r sawl sy'n gyfrifol am y syniad hurt hwn.

Cymerwch ofal.

Yn gywir.

[redacted]

[redacted]

**BCW-10103/ Cynghorydd James Pritchard/ Caerffili**

[redacted]

**From:** [redacted]
**Sent:** 26 February 2022 08:51
**To:** [redacted]
**Subject:** Boundary Commission

**Pwysigrwydd:** Uchel

Helo Wayne,

Gweler fy nghyflwyniad isod.

**Y Comisiwn Ffiniau**

Mae etholaeth Seneddol Caerffili wedi bodoli ers 104 o flynyddoedd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwasanaethu'r hell etholwyr sy'n byw yn yr etholaeth, ac mae wedi gwneud hynny ers ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996. Yn y blynyddoedd diwethaf, dim ond newidiadau bach iawn sydd wedi'u gwneud fel rhan o arolwg ffiniau cyffredinol. Cafodd wardiau Aberbargoed a Maesycymmer eu trosglwyddo i etholaeth Islwyn (y gwasanaethir eu hetholwyr hwythau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn unig hefyd) yn 2005.

Byddwn yn gofyn i'r Comisiwn ystyried y cwestiwn allweddol hwn o safbwynt yr unigolyn cyffredin, bob dydd a fyddai'n byw yn etholaeth newydd, arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili. Mae ei aelod Seneddol yn cynrychioli rhan o Gasnewydd a basn cyfan Caerffili. Bydd yna resymau pam y gall yr etholwr fod yn meddwl tybed a yw'n byw yn ardal Cyngor Dinas Casnewydd neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Wedi'r cyfan, mae'r Aelod Seneddol yn gwasanaethu trigolion yn y ddwy ardal awdurdod lleol. Ni allwn ragdybio y bydd yr hell drigolion yn gallu gwahaniaethu rhwng ffiniau seneddol a ffiniau llywodraeth leol. Rwy'n credu'n gryf y bydd y newid arfaethedig yn arwain at ddryswch i drigolion.

Nid yw wardiau etholiadol yn etholaeth Caerffili, ar unrhyw adeg, o dan unrhyw arolwg ffiniau arall, wedi'u trosglwyddo i ardal gymdogol Cyngor Dinas Casnewydd. Felly pam mae hyn wedi digwydd? Mae'r ateb yn syml iawn. Mae gwahaniaeth cydnabyddedig rhwng dinas Casnewydd a Chwm Rhymni. Maegan hen bentref glofaol Senghennydd draddodiad cwbl wahanol i blwyfi gwledig Llanfihangel-y-fedw a Saint-y-brid, ar gyrion gorllewinol pellaf Gorllewin Casnewydd.

I gloi, ni welaf unrhyw reswm i ddatgysylltu cyswllt hen gydnabyddedig Cwm Rhymni trwy greu etholaeth seneddol Gorllewin Casnewydd a Chaerffili. Mae'r gwrthgynnig a roddwyd gerbron gan Wayne David AS yn parchu meini prawf poblogaeth y Comisiwn Ffiniau, mae wedi'i ystyried yn dda, a byddwn i'n gofyn i chi roi ystyriaeth gref i'r cynnig ymarferol hwn.

Diolch yn fawr,

**Y Cynghorydd James Pritchard**
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Isadeiledd ac Eiddo | Deputy Leader And Cabinet Member For Infrastructure & Property
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council

[redacted]

[redacted]

Mae'r e-bost hwn ac unrhyw ffeiliau sy'n atodol yn gyfrinachol a dim ond ar gyfer defnydd yr unigolyn neu'r sefydliad y cyfeiriwyd atynt. Os ydych wedi derbyn yr e-bost hwn ar gam rhowch wybod i reolwr eich system. Nodwch fod unrhyw sylwadau neu tarn o fewn testun yr e-bost yw sylwadau a barn yr awdur yn unig ac nid yn angenrheidiol yn cynrychioli barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. I orffen, dylai'r person sy'n derbyn yr e-bost sicrhau nad oes firws ynghlwm nae mewn unrhyw ddogfen atodol i'r e-bost. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddifrod achoswyd gan unrhyw firws sy'n cael ei drosglwyddo gan yr e-bost hwn.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog (yn unol a'ch dewis), ac mewn ieithoedd a fformatau eraill. Cewch ymateb yn unol a'ch dewis iaith os nodwch hynny i ni, ac ni fydd cyfathrebu a ni yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This email and any files transmitted with it are confidential and intended solely for the use of the individual or entity to whom they are addressed. If you have received this email in error please notify the system manager. Please note that any views or opinions presented in this email are solely those of the author and do not necessarily represent those of Caerphilly County Borough Council. Finally, the recipient should check this email and any attachments for the presence of viruses. The Council accepts no liability for any damage caused by any virus transmitted by this email.

We welcome correspondence in English, Welsh or bilingually (according to your choice) or in other languages and formats. We will respond in your declared chosen language, and corresponding with us in Welsh will not lead to any delay.

**BCW-10104/ Cyng Daniel Rowlands/ Y Drenewydd**

Oherwydd bod Sir Drefaldwyn yn gymuned glòs, rwy’n cefnogi’r cynigion newydd hyn.

**BCW-10105/ [redacted]/ Coed-duon**

Rwy’n cefnogi cadw Penmaen ac Oakdale yn etholaeth Islwyn. Mae Coed-duon, Pontllanffraith ac Oakdale wedi bod yn rhan o’r etholaeth hon ers y 1970au ac yn parhau felly.

Nid yw’r cynigion gan Wayne David AS yn dangos fawr o ystyriaeth i drigolion.

**BCW-10106/ [redacted]/ Llandinam**

Rwy’n cefnogi’n llwyr y cynnig i gadw Sir Drefaldwyn o fewn etholaeth fwy Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. Mae Sir Drefaldwyn wedi’i chynrychioli felly ers rhyw 1542. Rwy’n derbyn y pwysigrwydd i Etholaethau Seneddol fod mor gyfartal ag y bo modd o ran maint poblogaeth, ond rwyf o’r farn y byddai cadw Sir Drefaldwyn fel cyfanrwydd, o fewn yr etholaeth fwy arfaethedig, yn bodloni’r gofyniad hwnnw ac yn cadw’r persbectif hanesyddol.

**BCW-10107/ [redacted]/ Tregynon**

Mae’n hanfodol ein bod yn cadw sir hanesyddol ac etholaeth Sir Drefaldwyn yn gyfan, yn ogystal ag ychwanegu cymunedau cymdogol lleol eraill sydd â thirweddau ac anghenion tebyg. Mae hyn hefyd yn cynrychioli demograffeg y boblogaeth yn well; ac mae’r cynnig hwn yn cyflawni hyn.

Mae Sir Drefaldwyn yn rhannu llawer o gysylltiadau cryf gyda rhannau o Dde Clwyd, gan gynnwys yr ardal o amgylch Llangollen; rwy’n hapus i glywed y bydd y cynigion presennol yn uno’r ardal hon â Sir Drefaldwyn fel rhan o etholaeth fwy Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, gan greu etholaeth sy’n fwy cyson â chyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer etholwyr fesul etholaeth. Mae’n llawer mwy addas i ni gael ein cynrychioli mewn etholaeth unedig na chael ein hollti a’n rhannu ymhlith etholaethau eraill sydd ymhellach i ffwrdd, y mae gennym lai o glymau a chysylltiadau â nhw.

Rwy’n cefnogi’r cynnig ar gyfer Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

**BCW-10108/ [redacted] / Tregynon**

Rwy'n croesawu'r cynigion gan y Comisiwn Ffiniau. Roeddwn yn pryderu ynglŷn â'r cynigion blaenorol a oedd yn awgrymu rhannu Sir Drefaldwyn. Fel rwy'n siŵr y gwyddoch, mae Sir Drefaldwyn yn gymuned hanesyddol a chlòs, ac mae cysylltiadau agos ledled y sir gan lawer. Trwy gadw Sir Drefaldwyn o fewn etholaeth Seneddol newydd, mae'n dangos cydbwysedd clir o ran bodloni paramedrau'r comisiwn, gan warchod hunaniaeth gymunedol hefyd.

**BCW-10109/ [redacted] / Blaenau**

**From:** [redacted]
**Sent:** 06 March 2022 08:05
**To:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Subject:** Comment

Annwyl Syr/Madam,

Hoffwn wneud sylwadau ynglŷn ag ardal Islwyn. Rwy'n byw am ran o'r mis yn [redacted]

Fodd bynnag, mae BG wedi'i gysylltu ag Islwyn, a bûm yn sefyll fel yr ymgeisydd Seneddol Ceidwadol yn 2019, ac i'r Senedd yn 2021.

Rwyf hefyd yn Gadeirydd Ceidwadwyr Islwyn a Dirprwy Gadeirydd De Ddwyrain Cymru ar gyfer y Blaid Geidwadol a Llywydd BG.

Hoffwn ddweud fy mod yn rhoi cefnogaeth lwyr i'r cynlluniau presennol ar gyfer Islwyn heb unrhyw newid. Mae'r newid bach o ychwanegu Nelson yn gwneud synnwyr perffaith yn wir.

Yn gyffredinol, mae'r cynlluniau ar gyfer De Ddwyrain Cymru yn ystyriol a phriodol.

Yn Gywir

[redacted]

**BCW-10110/ [redacted] / Anhysbys**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 06 Mawrth 2022 16:30
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Cyflwyno syniad ar gyfer offeryn newydd i'w ddefnyddio gan y Comisiynau

Ffiniau Annwyl Gomisiwn Ffiniau i Gymru,

Hoffwn wybod ai cyflwyno'r cynnig canlynol i'r Comisiwn yn y cyfeiriad e-bost hwn yw'r llwybr priodol.

Rwyf wedi gwneud cyflwyniadau am y syniad hwn i Gomisiynau Gogledd Iwerddon a Lloegr mewn gwrandawiadau cyhoeddus eilaidd (hyd yma, San Steffan, Belfast, a Chaergrawnt yn ddiweddarach hefyd). Rwyf hefyd wedi anfon y testun canlynol i Gomisiwn Ffiniau'r Alban. I'r perwyl hwn, hoffwn sicrhau eich bod chithau hefyd yn cael cyfle i ystyried y cynnig hwn gan ei fod yn fuddiol i chi ac mae'n bosibl ei fod yn gofyn mewn rhai achosion am i'ch gwaith groestorri â gwaith eich cymdogion. Hwn yw'r testun diweddaraf. Bwriedir i'r syniad eich herio a'ch cefnogi wrth wneud eich gwaith yn fwy cynrychioliadol, rhywbeth y gall yr offeryn hwn lwyddo i'w wneud wrth gadw hefyd o fewn y rheolau fel y'u pennwyd gan y Senedd - y mae'r cyfan, rwy'n deall, yn ddyletswydd sylfaenol arnoch. Rwyf hefyd wedi atodi rhai lluniadau fel canllaw.
Dymuniadau gorau,
[redacted]

**Cyd-etholaethau**
Nid rhyw fath o amnewidiad yw'r offeryn hwn ar gyfer trefniadau presennol ar draws ffiniau canfyddedig, er ei fod yn gyfrannwr pwerus at ddeialog a datblygiad parhaus, cynhyrchiol. Bwriedir iddo weithio ar y cyd â'r ffiniau sydd eisoes wedi'u llunio. Yn ddelfrydol, rhannu dwyochrog llwyfannau cynrychioliadol o ardaloedd cyfan neu rannau o ardaloedd ar draws llinellau ffiniau.
Lle rwy'n dweud y gair 'adnodd' / 'resource', rwy'n golygu iddo fynd y tu hwnt i economeg a'r materol i gynnwys syniadau o'r hyn rydym yn ei garu ac yn ymboeni amdano; fodd bynnag, mae angen o hyd i'r adnoddau hyn gael eu diffinio'n ddaearyddol.

Mae gan y Comisiwn Ffiniau gysylltiad â sbectrwm pŵer clasurol. Gellir defnyddio'r pŵer technocratig hwn i greu offeryn a fydd yn mynd i'r afael â diffygion cynrychioliadol yn y system ddemocrataidd.

Nid oes gan y diffygion hyn unrhyw beth i wneud â syniadau cyfredol am gynrychiolaeth gymesur neu chwarae'r ffiniau.
Mae'n golygu dadleoli adnoddau i ffwrdd oddi wrth y pleidleisiwr.

Er mwyn dechrau cywiro hyn, y cyfan sydd ei angen yw i'r Comisiynau dynnu llinellau newydd ar ein mapiau gyda lliw gwahanol.

Nid yw'r ffiniau hyn wedi'u llunio o amgylch dyraniad pleidleiswyr ond yn hytrach o amgylch adnoddau - gan gyd-fynd â ffiniau presennol.
O fewn y ffiniau newydd hyn, mae Gweinidogion Seneddol (MPs) o etholaethau lleol wedi'u dyrannu i'r mannau sydd wedi'u diffinio'n newydd ynghyd â'r ardaloedd lleol a gynrychiolir ar hyn o bryd. I bob pwrpas, mae'r ffiniau hyn wedi'u hintegreiddio i'r

gofod ffiniau presennol, mae cyd-etholaethau yn gorgyffwrdd, ond nid ydynt yn trosglwyddo pleidleisiau ynddyn nhw'u hunain, ond yn lle hynny maent yn trosglwyddo popeth arall a gynigir o dan y sbectrwm pŵer a ddelir gan y Comisiwn Ffiniau.

Gallai'r addasiad hwn, er enghraifft, gydnabod y modd y mae'n rhaid mynd i'r afael â nwyddau a gwasanaethau fel ysgolion a Gwasanaeth Iechyd Gwladol y DU fel adnoddau sylfaenol anwleidyddol a rennir ar draws llinellau ffiniau er mwyn iddynt ffynnu. Gall Sefydlu Cyd-etholaethau gydbwyso ac ailgysylltu pleidleiswyr â'u hadnoddau adleoledig.

Gall gwneud hyn gynyddu atebolrwydd ASau tuag at ein gwasanaethau cyhoeddus. Gan warantu buddsoddiadau yn erbyn ymdrechion i sicrhau 'gwerth' o adnoddau cyhoeddus.

Yr hyn sydd gennym ar hyn o bryd yw methiant strwythurol sylfaenol, mae buddsoddiadau yn ein hadnoddau yn gollwng.

Gwaethygir y broblem hon wrth i wasanaethau gael eu canoli a'u preifateiddio - er bod rhywfaint o ganoli yn angenrheidiol.

Gallai Ysbyty Addenbrooke sydd wedi'i leoli yn Ne Ddwyrain Swydd Gaergrawnt Geidwadol fod yn un enghraifft dda fel Cyd-etholaeth. Defnyddir yr ysbyty hwn gan lawer o bobl o lawer o etholaethau gwahanol.
Dyma lle bydd y cyhoedd ar eu mwyaf bregus. Yn yr achosion hyn byddai amrywiaeth mewn cynrychiolaeth yn ddatblygiad cadarnhaol.
Partner naturiol ar gyfer y gofod diffiniedig hwn yw Etholaeth Lafur Dinas Caergrawnt sy'n ffinio ychydig gannoedd o fetrau i ffwrdd.
Er bod nifer o etholaethau'n defnyddio Ysbyty Addenbrooke - byddai cysylltu un etholaeth arall yn unig y mae'r ysbyty'n ei gwasanaethu â'r ardal hon sydd newydd ei diffinio, hyd yn oed pe gwnaed hynny mewn modd mympwyol, yn gwneud canlyniad gwaith y Comisiwn yn fwy cynrychioliadol. Mae dau ben yn well nag un.

Mae cwmpas llawn y pwerau y gall y cyd-etholaethau hyn eu hymgorffori yn fater i'r Senedd yn y pen draw, ond rhaid tynnu'r llinellau yn gyntaf – yna gellir llenwi'r llestr. Bwriad y cynnig hwn yw creu mwy o rwymedigaeth, mwy o atebolrwydd a herio pob rhan o'r llywodraeth.

Bwriedir iddo ddod â'r ddeialog sy'n digwydd rhwng ASau cymdogol yn agosach at yr adnoddau ac yn agosach at y cyhoedd y maent yn eu gwasanaethu.

Gall cyd-etholaethau helpu pontio'r dŵr rhwng Gogledd Iwerddon a thir mawr Prydain - mae diddordebau'n fwy tebygol o fod wedi'u cysylltu ynghyd - ar draws cymunedau pysgota a phorthladdoedd - er enghraifft. Gall helpu ailddatblygu cynrychiolaeth ddemocrataidd ar draws yr undeb hon a grymuso democratiaeth, gan ddod yn ddelfryd gweithio gyda gwledydd eraill. Yn y modd hwn, gall gynorthwyo â chydbwyso'r diffyg y mae protocol Gogledd Iwerddon wedi'i greu.


Fel enghraifft, gellid cylchynu porthladd Belfast a'i gynnig i Gomisiwn Lloegr a/neu Gomisiwn yr Alban a gweld a ydyn nhw'n ymateb yn yr un modd trwy dynnu cylch o amgylch ardal porthladd yn gyfatebol. Byddai cynrychiolwyr Gogledd Iwerddon yn cynrychioli hefyd yn yr ardal Albanaidd neu Seisnig hon, ac fel arall.

Bydd Cyd-etholaethau'n angenrheidiol i sicrhau ffyniant ac yswirio ardaloedd ar gyfer datblygiad amgylcheddol cadarnhaol.

Gallant helpu adsefydlu'r filltir sgwâr sydd, yn hanesyddol, yn ganibal. Mewn Byd Aml-Begynol, ni all y Bunt fforddio dangos y math o ddifaterwch y mae wedi'i wneud i'w gwerin ei hun ac eraill, yn enwedig os yw'n bwriadu cynnig Dinas Llundain fel cyfrwng ar gyfer twf ledled y byd. Mae angen buddsoddiad ym mhob man nawr, ond nid 'unrhyw' fuddsoddiad yn unig sydd ei angen arnyn nhw. Ni fydd yr hen ffyrdd yn gweithio, nid oedd unrhyw un, yn unrhyw le, erioed am fod yn drefedigaeth. Mae'r syniad hwn yn rhoi ffocws ar ddatblygiad rhanbarthol. Mae cynaliadwyedd buddsoddiad yn allweddol, a rhaid ei ddangos, fel arall pwy yn y byd allai ei gredu?

Gall Cyd-etholaethau helpu datrys diffygion cynrychioliadol ar draws buddiannau Wcreiniaidd a Rwsiaidd ymhlith rhai eraill. Mae'r offeryn hwn yn helpu gwaith rhwng systemau gwleidyddol gwahanol. Nid oes angen gwrthdaro i adnabod y potensial yma.


Ni fydd yr offeryn hwn, pe bai'n cael ei gymhwyso, yn effeithio ar y dewisiadau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Comisiynau oni bai bod Seneddau yn mynnu hynny. Bydd y marciau ond yn bodoli. Felly beth am roi cynnig arni?


DISTRICT 1
DISTRICT 2
AREA OF ENVIRONMENTAL CONCERN
DISTRICT 3
VOTER DEFINED DISTRICT/CONSTITUENCY
SHARED
RESOURCE DEFINED DISTRICT/CONSTITUENCY
QUALIFIED LEVEL OF INTEGRATION DUE TO SPECTRUM OF POWER GUARENTEED BY BOUNDARY COMMISSION

ELECTED REPRESENTATIVES OCCUPY SHARED CONSTITUENCIES/DISTRICTS


EACH SIDE OFFERS THE OTHER THEIR SPACE ACROSS THE LINES

BRIDGE THE DIVISION



GERRYMANDER'D DISTRICT LINES

Shared Constituencies (Districts) Line



**BCW-10111/ [redacted] Cyngor Tref Bae Colwyn/ Bae Colwyn**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 08 Mawrth 2022 09:31
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Yml: Brys: Arolwg o Etholaethau Seneddol (ymateb hwyr)
**Pwysigrwydd:** Uchel

Byddwch gystal â derbyn y canlynol, ochr yn ochr â chynrychiolaethau sydd i'w gwneud i'r comisiwn yn y gwrandawiad yfory (cyflwynwyd y trawsgrifiad ysgrifenedig yn gynharach heddiw), fel yr ymateb swyddogol gan Gyngor Tref Bae Colwyn i'r cynigion ar gyfer yr arolwg o etholaethau seneddol …

Annwyl Syr/Madam,

Mae aelodau Cyngor y Dref wedi ystyried y newidiadau arfaethedig i ffiniau ar gyfer ein hardal, ac yn dymuno cyflwyno gwrthwynebiadau yn y modd cryfaf posibl i wahanu ward etholiadol Llandrillo yn Rhos i etholaeth seneddol wahanol na'r wardiau cyffiniol sy'n ffurfio ardal cyngor y dref. Mae ardal Cyngor Tref Bae Colwyn yn cynnwys wardiau etholiadol Cyngor Sir Conwy, sef Llandrillo yn Rhos, Rhiw, Glyn, Eirias a Cholwyn. Byddai symud un o'r rhain i etholaeth seneddol wahanol i'r lleill yn creu llawer o ddryswch a dyblygu ar lefel leol iawn. Er enghraifft, pa AS bydden i'n cysylltu ag ef i'w wahodd i ddigwyddiadau dinesig a bwrdeistrefol yn y gymuned leol, â phwy bydden i'n cysylltu i lobïo ynghylch materion lleol, ac ati, yn enwedig os yw'r ddau AS o bleidiau gwleidyddol gwahanol ac nad ydyn, felly, yn gweithio'n agos â'i gilydd.

Ein pryder ni yw'r niwed y byddai hyn yn ei wneud i ddemocratiaeth leol, gyda'n cymunedau yn cael eu gweld fel y sylfeini lleol i adeiladu'r ardaloedd etholiadol mwy arnynt. Nid yw rhannu cymuned ar y lefel fwyaf lleol hon yn dderbyniol o gwbl, a rhaid dod o hyd i ffordd arall i fodloni'r cwotâu etholiadol gofynnol ar gyfer y ddwy etholaeth seneddol.

Byddwn yn ddiolchgar be baech yn cadarnhau derbyn yr ymateb hwn.

Dymuniadau gorau,

[redacted]
**Clerc y Dref / Town Clerk**
**Cyngor Tref Bae Colwyn / Bay of Colwyn Town Council**

[redacted]

4 Mawrth 2022

I'r Comisiwn Ffiniau i Gymru

**AROLWG O ETHOLAETHAU SENEDDOL CYMRU 2023**

Rwy'n ysgrifennu mewn cysylltiad â'r cynigion amrywiol ar gyfer lleihau Etholaethau Seneddol Cymru o 40 i 32.

Nid wyf yn cefnogi'n frwd yr egwyddor o ddiwygio ar sail niferoedd poblogaeth yn unig heb roi pwys dyladwy i deyrngarwch hanes, cymeriad yr ardaloedd - cydbwysedd ac amrywiaeth diwydiant, amaethyddiaeth, masnach a thwristiaeth a'r lledaeniad daearyddol.

Fy mhryder personol arbennig i, ar sail y wybodaeth sydd ar gael i mi, yw'r cynnig i rannu Sir Drefaldwyn yn hytrach na'i gwella drwy ei hehangu i gynnwys ardaloedd ychwanegol i'r gogledd o'r sir. "Sir Drefaldwyn a Glyndŵr".

Rwy'n cefnogi'r cynnig a roddwyd gerbron gan Geidwadwyr Sir Drefaldwyn a gofynnaf i chi ystyried hyn yn ffafriol.

Yr eiddoch yn gywir

[redacted]

**BCW-10113/ Cyng Peter Lewis/ Llanfyllin**

Caiff Sir Drefaldwyn ei chynrychioli orau yn ei chyfanrwydd, a bydd ei chynnal fel hyn, gan ychwanegu'r ardal o amgylch Llangollen i ffurfio Maldwyn a Glyndŵr, yn cyflawni'r nod o sefydlu mwy o gydraddoldeb rhwng poblogaethau etholaethau er mwyn gwella prosesau gwneud penderfyniadau democrataidd. Ni fyddai rhannu Sir Drefaldwyn yn cyflawni llawer a byddai'n creu ansicrwydd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd ffiniol ag awdurdodaethau cynghorau sir sy'n gorgyffwrdd.

**BCW-10114/ [redacted]/ Trefynwy**

Rwy'n cefnogi cynigion y Comisiwn Ffiniau i Gymru i gyfateb etholaeth Sir Fynwy i ffiniau'r awdurdod lleol.

Mae Sir Fynwy yn gymuned benodol â'i hunaniaeth ei hun ac mae'r etholaeth arfaethedig yn cyfateb i hyn. Mae'n synhwyrol a chyfleus ac yn welliant ar y sefyllfa bresennol.

Byddwn yn gwrthwynebu unrhyw gynigion a fyddai'n rhannu Sir Fynwy rhwng 2 neu 3 etholaeth wahanol.

**BCW-10115/ Craig Williams AS/ Y Trallwng**

Ysgrifennaf atoch ynghylch yr arolwg ffiniau arfaethedig ar gyfer Etholaeth Seneddol Maldwyn. Deallaf yn llwyr fod y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ystyried nifer o gynigion ar hyn o bryd sy'n effeithio ar Sir Drefaldwyn, yn dilyn eich cynigion cychwynnol yn 2021.

Fel rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol, mae Sir Drefaldwyn wedi'i chynrychioli mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ers 1542. Er y byddwn yn dymuno i'r etholaeth aros fel y bu erioed, rwy'n derbyn pwysigrwydd cael etholaethau Seneddol sy'n gymharol gyfartal o ran maint eu poblogaeth. Mae cynnal Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd o fewn sedd ehangach Maldwyn a Glyndŵr yn cydnabod yr ardal fel sedd sirol a Seneddol hanesyddol, ac yn bodloni paramedrau'r arolwg ar yr un pryd.

Croesawaf y newidiadau a awgrymir gan y comisiwn ffiniau, yn wahanol i gynigion blaenorol a oedd yn bygwth cyfanrwydd y rhanbarth. Byddai rhannu cymuned glòs ond yn cymhlethu pethau. Bydd sicrhau parhad bodolaeth Sir Drefaldwyn trwy gynnwys rhannau o Dde Clwyd yn helpu i ailgydbwyso nifer yr etholwyr i sicrhau bod pob etholaeth yng Nghymru yn adlewyrchu barn y cyhoedd yn well.

**BCW-10116/** [redacted] **Cyngor Cymuned Llanbradach a Phwll-y-pant / Caerffili**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 11 Mawrth 2022 10:42
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** YMATEB – Arolwg Ffiniau Seneddol – etholaeth Caerffili

Annwyl Gomisiwn Ffiniau

Ysgrifennaf ar ran trigolion lleol ac aelodau Cyngor Cymuned Llanbradach a Phwll-y-pant.

Mae gan yr aelodau wrthwynebiad cryf i rannu'r etholaeth, lle byddai Llanbradach a Phwll-y-pant yn ymuno â gorllewin Casnewydd yn etholaeth newydd arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Rydym yn llwyr gefnogi'r gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Wayne David, AS Llafur dros Gaerffili, sy'n cynnal cyfanrwydd cwm Rhymni isaf.

Mae gan drigolion Llanbradach a Phwll-y-pant gysylltiad â chwm Rhymni a thref Caerffili a Chaerdydd, ac yn bendant nid â Dinas Casnewydd.

O ran teithio i'r gwaith a theithio hamdden, mae'r pwyslais pennaf rhwng y Gogledd a'r De ac nid y Dwyrain a'r Gorllewin, oherwydd cysylltiadau rhagorol ar y ffyrdd a'r rheilffordd.

Mae'n gwneud synnwyr da, o ystyried daearyddiaeth, trafnidiaeth a natur economaidd-gymdeithasol yr ardal, i beidio â rhannu yn unol â'ch cynnig, a fyddai'n ddryslyd iawn i bobl a braidd yn annaturiol.

I ailadrodd, rydym yn llwyr gefnogi'r gwrthgynnig a gyflwynwyd gan Wayne David AS ac anogwn y Comisiwn Ffiniau i roi ystyriaeth ddifrifol i'w wrthgynnig.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Diolch yn fawr iawn.

Cofion cynnes / Warm regards
[redacted]

[redacted]
Clerc i'r Cyngor / Clerk to the Council
Cyngor Cymuned Gelligaer Community Council

CYNGOR CYMUNED
LLANBRADACH & PWLL-Y-PANT
COMMUNITY COUNCIL

[redacted]

Wayne David MP
[redacted]

11 Mawrth 2022

Annwyl Mr David

Arolwg Ffiniau Seneddol – etholaeth Caerffili

Ysgrifennaf gan gyfeirio at eich llythyr dyddiedig 4 Chwefror 2022, a gyflwynwyd yn briodol yn ein cyfarfod Cyngor Cymuned ar 14 Chwefror 2022.

Gallaf gadarnhau bod y Cyngor a thrigolion lleol yn llwyr gefnogi eich gwrthgynnig sy'n cynnal cyfanrwydd Cwm Rhymni, ac rwyf wedi anfon ein sylwadau drwy e-bost at y Comisiwn Ffiniau.

Mae aelodau a thrigolion fel ei gilydd yn gwrthwynebu'n gryf rannu'r etholaeth, lle byddai Llanbradach a Phwll-y-pant yn ymuno â gorllewin Casnewydd yn etholaeth newydd arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili.

Mae gan drigolion Llanbradach a Phwll-y-pant gysylltiad â chwm Rhymni a thref Caerffili a Chaerdydd, ac yn bendant nid â Dinas Casnewydd.

O ran teithio i'r gwaith a theithio hamdden, mae'r pwyslais pennaf rhwng y Gogledd a'r De ac nid y Dwyrain a'r Gorllewin, oherwydd cysylltiadau rhagorol ar y ffyrdd a'r rheilffordd.

Mae'n gwneud synnwyr da, o ystyried daearyddiaeth, trafnidiaeth a natur economaidd-gymdeithasol yr ardal, i beidio â rhannu yn unol â chynnig y Comisiwn Ffiniau, a fyddai'n ddryslyd iawn i bobl a braidd yn annaturiol.

I ailadrodd, rydym yn llwyr gefnogi eich gwrthgynnig ac wedi annog y Comisiwn Ffiniau i roi ystyriaeth ddifrifol iddo.

Gobeithiaf y gallaf anfon ein deisebau cyflawn at eich swyddfa'r wythnos nesaf.

Yn gywir

[redacted]

Clerc i'r Cyngor a Swyddog Priodol

**BCW-10117/ [redacted]/ Abertawe**

Nid wyf yn cytuno y dylid ymestyn ffin Aberhonddu a Maesyfed i Bontardawe.
A dweud y gwir, rwy'n credu NA ddylai'r etholaeth gynnwys ardal Abercraf ac Ystradgynlais ychwaith.
Rheswm:
1. Yn hanesyddol, mae'r trefi a'r pentrefi uchod yn hen ardaloedd mwyngloddio.
Nid oes ganddynt unrhyw beth yn gyffredin â gweddill Aberhonddu / Maesyfed, sy'n ardaloedd ffermio yn bennaf. Mae problemau a gofynion yr ardaloedd hyn yn hollol wahanol i'r ardaloedd ffermio, a dylid eu cynrychioli yn unol â hynny.
2. Mae Aberhonddu / Maesyfed a chyngor Powys yn ardal fawr iawn – mewn gwirionedd, mae'n rhy fawr i'w rheoli'n effeithlon. Nid yw gwneud yr awdurdodau hyn yn fwy byth yn gwneud synnwyr ac nid yw'n gwasanaethu'r rhanbarthau hyn yn effeithiol ac yn darparu cynrychiolaeth ddemocrataidd dda.
Rwy'n gwrthwynebu'r newid hwn yn llwyr. Dylid cysylltu'r ardal hon ag Abertawe ac NID Aberhonddu / Maesyfed – wedi'r cyfan, enw'r ardal hon yw Cwm Tawe, ac yn hanesyddol, mae ynghlwm wrth Abertawe.

**BCW-10118/ [redacted]/ Y Drenewydd**

Cefnogaf argymhelliad y Comisiwn Ffiniau i Gymru y dylai'r etholaeth newydd gynnwys Sir Drefaldwyn ynghyd â rhannau o'r siroedd i'r gogledd o Sir Drefaldwyn, gan gynnwys Llangollen, ac ati.

**BCW-10119/ [redacted]/ Pontardawe**

Anghytunaf yn sylfaenol â'r cynnig i uno wardiau Pontardawe a Threbannws ag Aberhonddu.

Rydym yn gymuned egnïol sydd â chysylltiadau agos iawn â Chastell-nedd Port Talbot, ond heb unrhyw gysylltiadau ag Aberhonddu. Byddai ein symud yn arwain at ynysu ein cymuned.

**BCW-10120/ [redacted]/ Pontardawe**

Nid wyf yn meddwl y dylid cynnwys Pontardawe ag ardal wledig fel Aberhonddu. Mae gan Bontardawe anghenion a gofynion cymdeithasol hollol wahanol. Yn y pen draw, byddem yn dref ddibynnol ar Aberhonddu, a byddai hyn yn gwaethygu'r amddifadedd cymdeithasol ac economaidd yn yr ardal. Dylid cynnwys Pontardawe â threfi cyfagos o statws tebyg, mae Aberhonddu yn llawer rhy bell ac NID yw hyn yn unol â pholisïau Gwyrdd sydd hefyd yn cael eu hystyried. Sut byddai trigolion yn teithio i Aberhonddu, yn enwedig etholwyr oedrannus? Nid yw'r newid hwn yn ystyried yr henoed nac etholwyr anabl.

**BCW-10121/ [redacted] / Pontardawe**

Mae Aberhonddu yn bell oddi wrth Bontardawe. Mae mewn sir wahanol, â diwylliant gwahanol a hyd yn oed acenion gwahanol. NID OES gennym unrhyw gysylltiad ag Aberhonddu.

**BCW-10122/ [redacted] / Sir Benfro**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** [redacted] awrth 2022 19:16
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Ymgynghoriad Seneddol y Comisiwn Ffiniau mewn perthynas a Sir Benfro

Noswaith dda,

Dymunaf gytuno ag argymhellion y Comisiwn Ffiniau i Gymru sy'n dweud y byddai Ward Maenclochog yn etholaeth Canel a De Sir Benfro. Rwy'n byw yn Ward Maenclochog ac felly'n teimlo fy mod mewn sefyllfa dda i wneud sylw.

Byddwn yn awgrymu'n gryf fod mwyafrif helaeth trigolion Ward Maenclochog yn edrych tua'r de am lawer o'u gwasanaethau a'u cysylltiadau, yn hytrach nag i'r gogledd. Yn ddyddiol, gwelaf bobl o ardal y Mot a Maenclochog yn teithio i'r de i gyfeiriad Hwlffordd neu Arberth ar gyfer eu gwaith, eu gweithgareddau hamdden a llawer o gysylltiadau eraill. Yn yr un modd, byddwn yn awgrymu bod gan bobl sy'n byw yn ardaloedd Clunderwen a Llandysilio lawer o gysylltiadau ag Arberth i'r de. Byddwn yn awgrymu na fyddai llawer ohonynt yn edrych i'r gogledd i Aberteifi, a fyddai'n golygu taith dros Fynyddoedd y Preseli.

Byddwn yn cytuno'n gryf a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru y dylai Ward Maenclochog fod yn etholaeth newydd Canel a De Sir Benfro.

Diolch am wrando ar fy marn.

Cofion cynnes,

[redacted]

**BCW-10123/[redacted]/ Caerffili**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 13 Mawrth 2022 08:18
**At:** Ymholiadau <enquiries@boundaries.wales>
**Cc:** [redacted]
**Pwnc:** Cynigion ar Newidiadau i Ffiniau Caerffili / Islwyn/ Gorllewin Casnewydd – Seneddol

Annwyl Foneddigion,

Rwyf wedi darllen adroddiad ym mhapur newydd y Caerphilly Observer dyddiedig 10/3/22 ynghylch gwrthgynnig gyda map yn ymwneud â Phontllanfraith a'r Coed Duon yn cael eu gosod yn etholaeth newydd Caerffili, a hoffwn wrthod hyn.

Mae'r trefi hyn wedi'u lleoli yn y cwm gorllewinol ac mae'r holl drigolion yn credu bod tir cyffredin rhwng etholaeth Islwyn ac etholaeth flaenorol Bedwellte, ac fel Cynghorydd ers 1999 (gadewais am gyfnod o 5 mlynedd i weithio yn Llundain), ni chredaf y byddai'r etholwyr yn y wardiau hyn yn derbyn hyn gyda ffurfio etholaeth newydd Caerffili ar lefel Seneddol

Hefyd, rwy'n credu, ond yn barod i gael fy nghywiro, y byddai ardaloedd eraill fel wardiau Penmaen ac Argoed yn rhan o etholaeth Casnewydd – nid yw hyn yn ymarferol, rwy'n credu, ac rwy'n gweld cynnwys Trecelyn yn rhan o Gasnewydd, gan gynnwys Abercarn, Rhisga a Crosskeys.

Dylai Islwyn aros, yn fy marn i, â'r ardaloedd gwreiddiol fel yr awgrymwch, ac fy marn bersonol i'n unig yw hyn, ac rwyf wedi anfon copi at bartïon eraill â buddiant a allai ddymuno gwneud sylw

Fy marn bersonol i, ar ôl sefyll yn 2001 ar gyfer Senedd y DU a dwywaith ar gyfer etholiadau Senedd Cymru o fewn etholaeth Islwyn, ac ar ôl byw yn wardiau Rhisga, Ynysddu, Pontllanfraith a'r Coed Duon.

[redacted]
Cynghorydd Sir – Coed Duon | County Councillor – Blackwood
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council

**BCW-10124/ [redacted] / Caersws**

Comisiwn Ffiniau i Gymru

[redacted]

8/03/22

<u>Newid Ffiniau Arfaethedig – Sir Drefaldwyn</u>

Annwyl Foneddigion,

Croesawn gynigion y Comisiwn Ffiniau.

Roeddem yn bryderus iawn bod cynigion blaenorol wedi awgrymu rhannu Sir Drefaldwyn. Rydych yn ymwybodol, wrth gwrs, bod Sir Drefaldwyn yn gymuned hanesyddol a chlòs gyda llawer o bobl â chysylltiadau agos ar draws y sir.

Byddai cadw Sir Drefaldwyn o fewn etholaeth Seneddol newydd yn arwain at gydbwysedd da a derbyniol, gan fodloni paramedr y Comisiwn a chynnal hunaniaeth gymunedol ar yr un pryd.

[redacted]

**BCW-10125/ [redacted] / Llanrhaeadr-ym-Mochnant**

Mae'n newid i'w groesawu ers y cynigion blaenorol, i weld cynigion newydd a fydd yn cadw Sir Drefaldwyn gyda'i gilydd fel etholaeth annibynnol. Teimlwn fod hwn yn ganlyniad llawer mwy priodol, gan fod gennym lawer mwy yn gyffredin â'n gilydd, o ran cysylltiadau cymunedol, sy'n helpu esbonio pam y bu Sir Drefaldwyn yn etholaeth gyfan ers cannoedd o flynyddoedd, yn hytrach na chael ei rhannu, fel yr awgrymwyd yn wreiddiol.

**BCW-10126/ [redacted] / Meifod**

Mae'n gyffrous i mi glywed y cynigion wedi'u diweddaru, gan gynnwys ychwanegu ardal Llangollen i Sir Drefaldwyn. Mae gennym lawer yn gyffredin ac mae gennym gysylltiadau rhyng-gymunedol cryf â'n cymdogion i'r gogledd, ac edrychaf ymlaen at yr uno hwn. Roedd y cynigion blaenorol yn sicr ymhell o fod yn ffafriol i lawer o bobl sy'n byw yma, yn enwedig pobl sy'n byw ar y ffiniau, gyda nifer o gynghorau sir wedi'u rhannu, a byddai ffiniau ar wahân yn y Senedd/Cynulliad ac yn Senedd San Steffan yn gwneud dim ond cymhlethu materion.

**BCW-10127/ [redacted] / Sarn**

Er ein bod wedi'n rhannu gan fryniau a'n gwahanu i'n cymoedd ein hunain, credaf fod ysbryd cymunedol gwirioneddol yn Sir Drefaldwyn sydd, ers canrifoedd, wedi goresgyn yr anawsterau daearyddol hyn, a dyna pam mae'r rhanbarth wedi'i gynrychioli bron bob amser (fel un) yn y senedd dros y 500 blynedd diwethaf, ac rwy'n falch nad yw'r cynigion blaenorol, a oedd yn bygwth undod ein cymuned wych, unigryw a bywiog, yn cael eu hystyried mwyach.

**BCW-10128/ [redacted] / Y Trallwng**

Mae'n glir nad oedd y cynigion blaenorol i rannu Sir Drefaldwyn yn ymarferol o gwbl, ac rwy'n falch clywed cynnig llawer mwy boddhaol sy'n cadw Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd, a chyflawni nodau'r Comisiwn Ffiniau ar yr un pryd. Mae Sir Drefaldwyn wedi'i chadw fel un ers oes y Tuduriaid, wedi'i chynrychioli gan un sedd, ac nid oes unrhyw reswm da dros newid hyn.

**BCW-10129/ [redacted] / Aberriw**

Ers 2000, mae cyfansoddiad demograffig llawer o seddau wedi newid, a chredaf ei bod yn hanfodol sicrhau y gall democratiaeth gynrychiadol barhau, ac rwy'n falch o glywed y bydd y comisiwn ffiniau yn helpu i wneud ein hetholaethau yn fwy cyfartal, gan sicrhau bod gan bob un ohonom fwy o lais, a llais mwy cyfartal o ran llywodraethu'r DU. Wrth gyfuno Sir Drefaldwyn â rhan o Dde Clwyd, gallwn ddod â chymunedau at ei gilydd sydd eisoes â chysylltiadau agos, ac sydd â llawer yn gyffredin rhyngom.

**BCW-10130/ [redacted] / Aberriw**

Ar ryw ffurf neu'i gilydd, mae Sir Drefaldwyn bron bob amser wedi'i chynrychioli yn y Senedd fel un rhanbarth. Rwy'n falch bod y cynigion newydd yn sicrhau ei bodolaeth barhaus, gan ein bod yn gymuned integredig agos, gyda phroblemau a phryderon tebyg. Mae ychwanegu rhannau o Dde Clwyd hefyd yn helpu i ailgydbwyso'r anomaleddau demograffig sy'n bodoli oherwydd y newidiadau yn y boblogaeth dros yr ugain mlynedd diwethaf, a helpu i gynyddu ein cysylltiadau â phobl y mae gennym gysylltiad agos â nhw eisoes.

**BCW-10131/ [redacted] / Y Trallwng**

Croesawaf y cynigion gan y Comisiwn Ffiniau i addasu fy etholaeth, sef Maldwyn, i fod yn etholaeth Maldwyn a Glyndŵr. Rwy'n anghytuno â'r gwrthgynnig sy'n rhannu Sir Drefaldwyn yn ddwy! Fel y gwyddoch, mae Sir Drefaldwyn yn gymuned hanesyddol a chlòs a dylid ei chadw. Cynrychiolwyd Sir Drefaldwyn ers yr 16eg ganrif, ac er y byddwn yn dymuno i'r etholaeth aros fel y bu erioed, roeddwn yn llwyr werthfawrogi bod yn rhaid i ni sicrhau cydraddoldeb cymharol o ran maint poblogaeth. Mae cyfuno Maldwyn â Glyndŵr yn cadw Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd, ond gan fodloni paramedrau'r arolwg ar yr un pryd.

**BCW-10132/ [redacted] / Y Trallwng**

Er y byddai'n well gen i weld yr etholaeth yn parhau i ddilyn yr hen ffiniau Sirol, os oes angen gwneud newidiadau, credaf fod y cynnig mwy diweddar hwn yn fwy priodol.

Roedd yn ymddangos bod y cynnig cychwynnol yn ymestyn y ffin i'r gogledd ac yn cynnwys rhan sylweddol o Wrecsam, a byddai hyn wedi newid natur wledig yr etholaeth. Mae'r arolwg hwn yn cadw'r cydbwysedd gwledig yn bennaf, wrth ychwanegu pedair tref farchnad fach.

**BCW-10133/ Tonia Antoniazzi AS/ Gŵyr**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 18 Mawrth 2022 13:53
**AT:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Cc:** [redacted]
**Pwnc:** Cyflwyniad

Atodaf fy nghyflwyniad ar gyfer yr ail ymgynghoriad.

Cofion,

Tonia

**Tonia Antoniazzi**

**Aelod Seneddol dros Gŵyr**

Ysgrifennaf i amlinellu fy nghefnogaeth o blaid y cynnig amgen a gyflwynwyd gan Lafur Cymru mewn perthynas â chynigion presennol y comisiwn. Teimlaf fod y cynnig amgen hwn yn adlewyrchu'n well y cymunedau buddiant naturiol yn Abertawe a Gŵyr, tra'n cadw o fewn y canllawiau o ran maint. Yn ogystal, mae'r cynnig hwn yn ymwneud â'r etholaethau arfaethedig presennol, felly ni fydd yn cael effaith ganlyniadol ar etholaethau eraill.

Byddai'r cynnig amgen hwn yn creu etholaeth drefol graidd ac etholaeth 'bedol' ymylol sy'n cynnwys penrhyn Gŵyr a'r ardal wledig i'r gogledd o Abertawe. Byddai hyn yn bodloni'r meini prawf sy'n sail i waith y comisiwn, o ran cydlyniant daearyddol a chymunedol, yn llawer agosach na'r cynigion cychwynnol.

Gellir gwneud yr addasiadau o fewn amlen y cynigion cychwynnol ac ni fyddant yn cael effaith ganlyniadol ar etholaethau eraill.

**Gwrthgynnig**

Newid Gorllewin Abertawe a Gŵyr wrth hepgor Sgeti a Mayals (cyfanswm yr etholwyr, 13,452) a chynnwys Gorseinon, Penyrheol, Pontybrenin, Llwchwr Uchaf, Llwchwr Isaf, Penllergaer, Llangyfelach a Mawr (cyfanswm yr etholwyr, 12,890). Byddai Sgeti a Mayals yn cael eu cynnwys yn sedd arfaethedig Gogledd a Chanol Abertawe (a'i hailenwi'n Ganol Abertawe). Byddai hyn yn arwain at ddwy etholaeth sydd o fewn cwota'r comisiwn ffiniau:

Canol Abertawe: 76,760

Gŵyr: 74,653

**Y cynigion presennol**

Mae'n anodd cyfiawnhau cynnwys Pontarddulais a Chanol Dinas Abertawe yn etholaeth Canol a Gogledd Abertawe o ran cymunedau buddiant. Byddai'r etholaeth yn ymestyn o bentref Garnswllt ar gyrion Rhydaman, gan gynnwys ardal ucheldirol Mynydd y Gwair a phentrefi gwahanol fel Pont-lliw a Phenllergaer, hyd at ganol dinas Abertawe a'i chefnwlad drefol.

Byddai Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn gyfuniad anghydweddol o gymunedau gwahanol megis Gorseinon, Casllwchwr, Tre-gŵyr, Penclawdd, y pentrefi ar hyd penrhyn Gŵyr a'r Mwmbwls, ac ardaloedd sy'n gwyro'n naturiol tuag at ganol y ddinas yn ward Sgeti (e.e. Sgeti ei hun, Tycoch, Parklands, ac ardal Derwen Fawr, ynghyd â champws Singleton y brifysgol), sydd i gyd yn rhan o graidd daearyddol Abertawe. Yn lleol, ceir ffin glir lle mae'r "dref" yn dechrau ac mae'n wahanol i'r pentrefi cyfagos. Yn nodedig, mae'r Comisiwn wedi gwrthod cynnwys Mayals yn etholaeth Gŵyr ar sawl achlysur am resymau tebyg.

Nid yw'r cynigion, fel y maent ar hyn o bryd, yn ystyried sut mae ardaloedd a'u hunaniaeth yn cael eu deall yn lleol, na phwysigrwydd hunaniaethau cymunedol o fewn llawer o etholaeth bresennol Gŵyr.

**Dadleuon ategol**

Byddai'r gwrthgynnig hwn yn creu dwy etholaeth sy'n llawer mwy cydlynus.

Byddai etholaeth canol Abertawe yn osgoi creu rhaniad artiffisial rhwng ardaloedd Sgeti ac Uplands sydd wedi'u cydblethu'n agos. Byddai'n sicrhau bod ardaloedd y prifysgolion/myfyrwyr yn parhau i fod wedi'u halinio a'u bod yn cadw eu cysylltiadau naturiol â chanol y ddinas.

Byddai etholaeth estynedig arfaethedig Gŵyr yn cynnal y cysylltiadau cymunedol cryf rhwng Gorseinon, Pontarddulais a'r pentrefi cyfagos. Yn draddodiadol, mae'r cymunedau hyn wedi bod yn rhan o'r un awdurdod lleol (sef Llwchwr a Dyffryn Lliw cyn ad-drefnu llywodraeth leol) ac maent yn rhan o'r un canolfannau o ran mynediad at wasanaethau. Yn benodol:

- Byddai'r rhannau hynny o Abertawe sydd agosaf at ganol y ddinas yn cael eu cynnwys yng Nghanol Abertawe.
- Byddai Gŵyr yn parhau i gynnwys amrywiaeth o drefi a phentrefi bach o feintiau gwahanol (sy'n ffurfio'r etholaeth bresennol), y mae gan bob un ohonynt eu hunaniaeth unigryw ei hun, a byddai'n cynnwys cymunedau gwahanol fel Dyfnant, Cilâ a Waunarlwydd (sy'n rhan o ward Cocyd) sydd hefyd â'u hunaniaeth leol arbennig.
- Byddai'r ddau ysbyty mawr sy'n gwasanaethu'r ardal wedi'u lleoli yn etholaeth arfaethedig Canol Abertawe.
- Byddai'r prif ardaloedd sy'n gysylltiedig â myfyrwyr/y prifysgolion yn cael eu cynnwys yn etholaeth Canol Abertawe.
- Byddai'r cymunedau traddodiadol Cymraeg eu hiaith ym Mhontarddulais a Gorseinon-Llwchwr, ynghyd â'r pentrefi cyfagos, yn cael eu cynnwys yn etholaeth Gŵyr.
- Byddai ardal wledig/cyrchfan dwristiaeth penrhyn Gŵyr yn aros yn yr un etholaeth â chyrchfannau gwledig/twristiaeth Cefn Drum a Mynydd y Gwair ar gyrion y Mynydd Du.
- Byddai'r trefniant arfaethedig yn alinio'n well ag etholaethau Senedd Cymru, gan osgoi dryswch posibl a sicrhau bod mynediad at gynrychiolwyr gwleidyddol a dealltwriaeth ohonynt yn parhau mor hawdd â phosibl.

Mae'r Comisiwn yn nodi'n gywir pa mor bwysig yw sicrhau bod etholaethau'n adlewyrchu cymunedau buddiant naturiol ac mae'n hanfodol bod y newidiadau hyn i ffiniau yn 'gwneud synnwyr' i breswylwyr, ac nad ydynt yn creu datgysylltiad pellach oddi wrth y broses wleidyddol. Mae'r gwrthgynnig a nodir uchod yn cadw at hyn, yn wahanol i gynigion y comisiwn, ac mae'n cynnig ateb a fyddai'n hawdd ei ddeall i bobl ledled Abertawe a Gŵyr gan ei fod yn adlewyrchu'r ffordd y mae eu cymunedau'n gweithredu ac wedi datblygu dros amser.

**BCW-10134/ [redacted]/ Abertawe**

Rwyf yn cefnogi cynigion Llafur Cymru fel y'u hamlinellir isod:

Cyflwyniad Llafur - Y Pwyntiau Allweddol

Yn erbyn y cynnig presennol

Mae'n anodd cyfiawnhau Gogledd a Chanol Abertawe yn cymryd Pontarddulais i mewn, ac y mae Canol Dinas Abertawe yn anodd i'w gyfiawnhau o ran cymuned o ddiddordebau. Byddai'r etholaeth yn ymestyn o bentref of Garnswllt ar ymylon Rhydaman, yn cynnwys ucheldir Mynydd y Gwair a phentrefi fel Pontlliw a Phenllergaer ynghyd a chanol dinas Abertawe a'i chefnwlad drefol.

Byddai Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn gyfuniad anghydnaws o gymunedau amlwg megis Gorseinon, Casllwchwr, Tre-gŵyr, Penclawdd, y pentrefi ar hyd Penrhyn Gŵyr a'r Mwmbwls gydag ardaloedd sydd ag atyniad naturiol tuag at ganol y ddinas yn ward Sgeti (e.e. Sgeti ei hun, Tycoch, Parklands, ac ardal Derwen Fawr, ynghyd a champws prifysgol Singleton), sydd oll yn rhan o graidd daearyddol Abertawe. Yn lleol, mae ymdeimlad clir o lle mae'r "dref" yn cychwyn ac y mae hynny ar wahân i'r pentrefi cyfagos. Mae'n werth nodi y gwrthododd y comisiwn gynnwys Mayals yn etholaeth Gŵyr ar nifer o achlysuron am resymau tebyg.

O blaid y gwrthgynnig

Byddai'r gwrthgynnig hwn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynus o lawer.

Byddai etholaeth Canol Abertawe yn osgoi creu rhaniad artiffisial rhwng ardaloedd Sgeti ac Uplands sydd â chysylltiadau agos. Byddai'n sicrhau parhad yr asiad gydag ardaloedd y brifysgol/myfyrwyr a'u bod yn cadw'u cysylltiadau naturiol gyda chanol y ddinas.

Byddai etholaeth estynedig arfaethedig Gŵyr yn cadw'r cysylltiadau cymunedol agos rhwng Gorseinon, Pontarddulais a'r pentrefi cyfagos. Yn draddodiadol, bu'r cymunedau hyn yn rhan o'r un awdurdod lleol (Llwchwr a Dyffryn Lliw cyn ad-drefnu llywodraeth leol) ac y mae'n rhan o'r un canolfannau o ran cyrchu gwasanaethau. Yn benodol:

Byddai'r rhannau hynny o Abertawe sydd agosaf at ganol y ddinas yn cael eu cynnwys yng Nghanol Abertawe.

Byddai Gŵyr yn parhau i fod ag amrywiaeth o drefi bychain a mân bentrefi amrywiol eu maint (sy'n ffurfio'r etholaeth fel y mae ar hyn o bryd) pob un a'i hunaniaeth bendant ei hun a byddai'n cynnwys cymunedau pendant megis Dynfant, Cilâ a Waunarlwydd (rhan o ward Cocyd) pob un a'u hunaniaeth leol benodol ei hun.

Byddai’r ddau brif ysbyty sy’n gwasanaethu’r ardal wedi eu lleoli yng Nghanol Abertawe arfaethedig.

Byddai’r prif ardaloedd prifysgol/myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn etholaeth Canol Abertawe.

Byddai cymunedau traddodiadol Cymraeg eu hiaith ym Mhontarddulais a Gorseinon-Casllwchwr ynghyd a’r pentrefi cyfagos yn cael eu cynnwys yn etholaeth Gŵyr.

Byddai ardal wledig/cyrchfan ymwelwyr penrhyn Gwyr yn aros yn yr un etholaeth â chyrchfannau gwledig/twristaidd Cefn Drum a Mynydd y Gwair ar odre’r Mynydd Du.

Byddai’r trefniant arfaethedig yn asio’n well gydag etholaethau’r Senedd, fyddai’n lleihau dryswch posib ac yn sicrhau bod mynediad at gynrychiolwyr gwleidyddol mor rhwydd a dealladwy ag sydd modd.

**BCW-10135/ [redacted] / Llanymynech**

Roeddwn yn anghytuno’n gryf â’r newidiadau arfaethedig blaenorol a fyddai wedi torri Sir Drefaldwyn i fyny; rydym yn gymuned sydd â chysylltiadau agos a chyda llawer mwy yn gyffredin gyda’n gilydd nac mewn etholaethau pellennig, sydd â rhai yn wynebu problemau tra gwahanol i’n rhai ni. Rwyf yn falch o ddeall fod y cynigion newydd yn cadw Sir Drefaldwyn gyda’i gilydd ac y byddant hefyd yn cynnwys ehangu i gynnwys yr ardal o gwmpas Llangollen, y mae gennym gysylltiadau cryf â hwy yma yng ngogledd yr etholaeth.

**BCW-10136/ [redacted] / Llanfair Caereinion**

Mae pobl Sir Drefaldwyn a De Clwyd yn rhannu’r un hanes a chanddynt gysylltiadau cryf, felly byddai uno ardaloedd De Clwyd ag etholaeth newydd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn un symudiad fyddai’n helpu i gryfhau’r cysylltiadau rhwng y cymunedau hyn ac ar yr un pryd yn ail-gydbwyso’r afreoleidd-dra demograffig a grewyd gan fudo mewnol dros y ddwy ddegawd a aeth heibio. Mae hyn yn gynnig llawer mwy synhwyrol na rhai blaenorol oedd yn awgrymu torri Sir Drefaldwyn i fyny i’w hychwanegu at etholaethau eraill, gyda llawer llai o gysylltiadau â’r poblogaethau lleol.

**BCW-10137/ [redacted] / Y Trallwng**

Yn hanesyddol, sefydlwyd Sir Drefaldwyn fel sedd Seneddol yn dilyn Deddf Cyfreithiau yng Nghymru yn yr 16eg Ganrif. Byddai'r bwriad i wahanu'r etholaeth hon yn achos pryder mawr i mi fel rhywun sy'n cydnabod pwysigrwydd hanesyddol cymuned Sir Drefaldwyn. Rwyf felly yn croesawu'r newidiadau arfaethedig sy'n cadw hunaniaeth Sir Drefaldwyn.

**BCW-10138/ [redacted] / Abertawe**

Rwy'n ysgrifennu i gefnogi cynigion amgen plaid Lafur Cymru ynghylch y newid ffiniau a awgrymwyd.

**BCW-10139/ [redacted] / Abertawe**

Cytunaf â chynnig amgen Llafur Cymru gan ei fod yn gwneud mwy o synnwyr na'r cynnig presennol.

**BCW-10140/ [redacted] / Abertawe**

Rwy'n cefnogi cynigion amgen Llafur Cymru.

**BCW-10141/ [redacted] / Abertawe**

Rwy'n cefnogi'r gwelliannau amgen i etholaethau Abertawe a Gorllewin Gŵyr a Chanol Abertawe a gynigiwyd gan y Blaid Lafur fel ffordd fwy cydlynus o lawer o ail-lunio'r ffiniau. Mae'r cynigion presennol yn creu gwahaniaethau artiffisial rhwng cymunedau fu'n draddodiadol yn agos at ei gilydd, ac yn gorfodi ardaloedd sy'n wahanol yn ddaearyddol, yn ddiwylliannol ac ieithyddol i undod artiffisial.

**BCW-10142/ [redacted] / Abertawe**

Rwy'n cefnogi'r cynnig amgen a roddwyd gerbron gan y Blaid Lafur.
Mae tegwch yn bwysig.
Mae cynnig y Blaid Lafur yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng etholaethau trefol yn ardal Dinas a Sir Abertawe a chymunedau gwledig arfordirol sydd â gwahaniaethau pendant, a hyn ddylai fod yn brif nodwedd pob etholaeth.

Nid mater o niferoedd yw hyn, ond diwylliant.

**BCW-10143/ [redacted] / Abertawe**

Rwy’n cefnogi cynigion llafur Cymru am y ffiniau.

**BCW-10144/ [redacted] / Abertawe**

Rwy’n llawn gefnogi cynigion amgen Tonia Antoniazzi a Llafur Cymru am y ffiniau.
[redacted]

**BCW-10145/ [redacted] / Abertawe**

O ystyried yr amgylchiadau y mae Abertawe a’i phobl yn byw, gweithio, magu eu teuluoedd, gofalu am eu henoed, treulio eu hamser hamdden ym mhob oed, deinameg myfyrwyr, iechyd ac ymlacio, yr wyf i o blaid awgrymiadau/trefniadau amgen am ffiniau’r ardaloedd a gynigir gan Blaid Lafur Cymru

**BCW-10146/ [redacted]/ Abertawe**

Yn erbyn y cynnig presennol

Mae'n anodd cyfiawnhau Gogledd a Chanol Abertawe yn cymryd Pontarddulais i mewn, ac y mae Canol Dinas Abertawe yn anodd i'w gyfiawnhau o ran cymuned o ddiddordebau. Byddai'r etholaeth yn ymestyn o bentref of Garnswllt ar ymylon Rhydaman, yn cynnwys ucheldir Mynydd y Gwair a phentrefi fel Pontlliw a Phenllergaer ynghyd a chanol dinas Abertawe a'i chefnwlad drefol.

Byddai Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn gyfuniad anghydnaws o gymunedau amlwg megis Gorseinon, Casllwchwr, Tre-gŵyr, Penclawdd, y pentrefi ar hyd Penrhyn Gŵyr a'r Mwmbwls gydag ardaloedd sydd ag atyniad naturiol tuag at ganol y ddinas yn ward Sgeti (e.e. Sgeti ei hun, Tycoch, Parklands, ac ardal Derwen Fawr, ynghyd a champws prifysgol Singleton), sydd oll yn rhan o graidd daearyddol Abertawe. Yn lleol, mae ymdeimlad clir o lle mae'r "dref" yn cychwyn ac y mae hynny ar wahân i'r pentrefi cyfagos. Mae'n werth nodi y gwrthododd y comisiwn gynnwys Mayals yn etholaeth Gŵyr ar nifer o achlysuron am resymau tebyg.

O blaid y gwrthgynnig

Byddai'r gwrthgynnig hwn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynus o lawer.

Byddai etholaeth Canol Abertawe yn osgoi creu rhaniad artiffisial rhwng ardaloedd Sgeti ac Uplands sydd â chysylltiadau agos. Byddai'n sicrhau parhad yr asiad gydag ardaloedd y brifysgol/myfyrwyr a'u bod yn cadw'u cysylltiadau naturiol gyda chanol y ddinas.

Byddai etholaeth estynedig arfaethedig Gŵyr yn cadw'r cysylltiadau cymunedol agos rhwng Gorseinon, Pontarddulais a'r pentrefi cyfagos. Yn draddodiadol, bu'r cymunedau hyn yn rhan o'r un awdurdod lleol (Llwchwr a Dyffryn Lliw cyn ad-drefnu llywodraeth leol) ac y mae'n rhan o'r un canolfannau o ran cyrchu gwasanaethau. Yn benodol:

Byddai'r rhannau hynny o Abertawe sydd agosaf at ganol y ddinas yn cael eu cynnwys yng Nghanol Abertawe.

Byddai Gŵyr yn parhau i fod ag amrywiaeth o drefi bychain a mân bentrefi amrywiol eu maint (sy'n ffurfio'r etholaeth fel y mae ar hyn o bryd) pob un a'i hunaniaeth bendant ei hun a byddai'n cynnwys cymunedau pendant megis Dynfant, Cilâ a Waunarlwydd (rhan o ward Cocyd) pob un a'u hunaniaeth leol benodol ei hun.

Byddai'r ddau brif ysbyty sy'n gwasanaethu'r ardal wedi eu lleoli yng Nghanol Abertawe arfaethedig.

Byddai'r prif ardaloedd prifysgol/myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn etholaeth Canol Abertawe.

Byddai cymunedau traddodiadol Cymraeg eu hiaith ym Mhontarddulais a Gorseinon-Casllwchwr ynghyd a'r pentrefi cyfagos yn cael eu cynnwys yn etholaeth Gŵyr.

Byddai ardal wledig/cyrchfan ymwelwyr penrhyn Gwyr yn aros yn yr un etholaeth â chyrchfannau gwledig/twristaidd Cefn Drum a Mynydd y Gwair ar odre'r Mynydd Du.

Byddai'r trefniant arfaethedig yn asio'n well gydag etholaethau'r Senedd, fyddai'n lleihau dryswch posib ac yn sicrhau bod mynediad at gynrychiolwyr gwleidyddol mor rhwydd a dealladwy ag sydd modd.

**BCW-10147/ [redacted]/ Abertawe**

Yn erbyn y cynnig presennol
Mae’n anodd cyfiawnhau Gogledd a Chanol Abertawe yn cymryd Pontarddulais i mewn, ac y mae Canol Dinas Abertawe yn anodd i’w gyfiawnhau o ran cymuned o ddiddordebau. Byddai’r etholaeth yn ymestyn o bentref of Garnswllt ar ymylon Rhydaman, yn cynnwys ucheldir Mynydd y Gwair a phentrefi fel Pontlliw a Phenllergaer ynghyd a chanol dinas Abertawe a’i chefnwlad drefol.

Byddai Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn gyfuniad anghydnaws o gymunedau amlwg megis Gorseinon, Casllwchwr, Tre-gŵyr, Penclawdd, y pentrefi ar hyd Penrhyn Gŵyr a’r Mwmbwls gydag ardaloedd sydd ag atyniad naturiol tuag at ganol y ddinas yn ward Sgeti (e.e. Sgeti ei hun, Tycoch, Parklands, ac ardal Derwen Fawr, ynghyd a champws prifysgol Singleton), sydd oll yn rhan o graidd daearyddol Abertawe. Yn lleol, mae ymdeimlad clir o lle mae’r “dref” yn cychwyn ac y mae hynny ar wahân i’r pentrefi cyfagos. Mae’n werth nodi y gwrthododd y comisiwn gynnwys Mayals yn etholaeth Gŵyr ar nifer o achlysuron am resymau tebyg.

O blaid y gwrthgynnig
Byddai’r gwrthgynnig hwn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynus o lawer.

Byddai etholaeth Canol Abertawe yn osgoi creu rhaniad artiffisial rhwng ardaloedd Sgeti ac Uplands sydd â chysylltiadau agos. Byddai’n sicrhau parhad yr asiad gydag ardaloedd y brifysgol/myfyrwyr a’u bod yn cadw’u cysylltiadau naturiol gyda chanol y ddinas.

Byddai etholaeth estynedig arfaethedig Gŵyr yn cadw’r cysylltiadau cymunedol agos rhwng Gorseinon, Pontarddulais a’r pentrefi cyfagos. Yn draddodiadol, bu’r cymunedau hyn yn rhan o’r un awdurdod lleol (Llwchwr a Dyffryn Lliw cyn ad-drefnu llywodraeth leol) ac y mae’n rhan o’r un canolfannau o ran cyrchu gwasanaethau. Yn benodol:

Byddai’r rhannau hynny o Abertawe sydd agosaf at ganol y ddinas yn cael eu cynnwys yng Nghanol Abertawe.

Byddai Gŵyr yn parhau i fod ag amrywiaeth o drefi bychain a mân bentrefi amrywiol eu maint (sy’n ffurfio’r etholaeth fel y mae ar hyn o bryd) pob un a’i hunaniaeth bendant ei hun a byddai’n cynnwys cymunedau pendant megis Dynfant, Cilâ a Waunarlwydd (rhan o ward Cocyd) pob un a’u hunaniaeth leol benodol ei hun.

Byddai’r ddau brif ysbyty sy’n gwasanaethu’r ardal wedi eu lleoli yng Nghanol Abertawe arfaethedig.

Byddai’r prif ardaloedd prifysgol/myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn etholaeth Canol Abertawe.

Byddai cymunedau traddodiadol Cymraeg eu hiaith ym Mhontarddulais a Gorseinon-Casllwchwr ynghyd a’r pentrefi cyfagos yn cael eu cynnwys yn etholaeth Gŵyr.

Byddai ardal wledig/cyrchfan ymwelwyr penrhyn Gwyr yn aros yn yr un etholaeth â chyrchfannau gwledig/twristaidd Cefn Drum a Mynydd y Gwair ar odre’r Mynydd Du.

Byddai’r trefniant arfaethedig yn asio’n well gydag etholaethau’r Senedd, fyddai’n lleihau dryswch posib ac yn sicrhau bod mynediad at gynrychiolwyr gwleidyddol mor rhwydd a dealladwy ag sydd modd.

**BCW-10148/ [redacted]/ Abertawe**

Yn erbyn y cynnig presennol

Mae'n anodd cyfiawnhau Gogledd a Chanol Abertawe yn cymryd Pontarddulais i mewn, ac y mae Canol Dinas Abertawe yn anodd i'w gyfiawnhau o ran cymuned o ddiddordebau. Byddai'r etholaeth yn ymestyn o bentref of Garnswllt ar ymylon Rhydaman, yn cynnwys ucheldir Mynydd y Gwair a phentrefi fel Pontlliw a Phenllergaer ynghyd a chanol dinas Abertawe a'i chefnwlad drefol.

Byddai Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn gyfuniad anghydnaws o gymunedau amlwg megis Gorseinon, Casllwchwr, Tre-gŵyr, Penclawdd, y pentrefi ar hyd Penrhyn Gŵyr a'r Mwmbwls gydag ardaloedd sydd ag atyniad naturiol tuag at ganol y ddinas yn ward Sgeti (e.e. Sgeti ei hun, Tycoch, Parklands, ac ardal Derwen Fawr, ynghyd a champws prifysgol Singleton), sydd oll yn rhan o graidd daearyddol Abertawe. Yn lleol, mae ymdeimlad clir o lle mae'r "dref" yn cychwyn ac y mae hynny ar wahân i'r pentrefi cyfagos. Mae'n werth nodi y gwrthododd y comisiwn gynnwys Mayals yn etholaeth Gŵyr ar nifer o achlysuron am resymau tebyg.

O blaid y gwrthgynnig

Byddai'r gwrthgynnig hwn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynus o lawer.

Byddai etholaeth Canol Abertawe yn osgoi creu rhaniad artiffisial rhwng ardaloedd Sgeti ac Uplands sydd â chysylltiadau agos. Byddai'n sicrhau parhad yr asiad gydag ardaloedd y brifysgol/myfyrwyr a'u bod yn cadw'u cysylltiadau naturiol gyda chanol y ddinas.

Byddai etholaeth estynedig arfaethedig Gŵyr yn cadw'r cysylltiadau cymunedol agos rhwng Gorseinon, Pontarddulais a'r pentrefi cyfagos. Yn draddodiadol, bu'r cymunedau hyn yn rhan o'r un awdurdod lleol (Llwchwr a Dyffryn Lliw cyn ad-drefnu llywodraeth leol) ac y mae'n rhan o'r un canolfannau o ran cyrchu gwasanaethau. Yn benodol:

Byddai'r rhannau hynny o Abertawe sydd agosaf at ganol y ddinas yn cael eu cynnwys yng Nghanol Abertawe.

Byddai Gŵyr yn parhau i fod ag amrywiaeth o drefi bychain a mân bentrefi amrywiol eu maint (sy'n ffurfio'r etholaeth fel y mae ar hyn o bryd) pob un a'i hunaniaeth bendant ei hun a byddai'n cynnwys cymunedau pendant megis Dynfant, Cilâ a Waunarlwydd (rhan o ward Cocyd) pob un a'u hunaniaeth leol benodol ei hun.

Byddai'r ddau brif ysbyty sy'n gwasanaethu'r ardal wedi eu lleoli yng Nghanol Abertawe arfaethedig.

Byddai'r prif ardaloedd prifysgol/myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn etholaeth Canol Abertawe.

Byddai cymunedau traddodiadol Cymraeg eu hiaith ym Mhontarddulais a Gorseinon-Casllwchwr ynghyd a'r pentrefi cyfagos yn cael eu cynnwys yn etholaeth Gŵyr.

Byddai ardal wledig/cyrchfan ymwelwyr penrhyn Gwyr yn aros yn yr un etholaeth â chyrchfannau gwledig/twristaidd Cefn Drum a Mynydd y Gwair ar odre'r Mynydd Du.

Byddai'r trefniant arfaethedig yn asio'n well gydag etholaethau'r Senedd, fyddai'n lleihau dryswch posib ac yn sicrhau bod  mynediad at gynrychiolwyr gwleidyddol mor rhwydd a dealladwy ag sydd modd.

**BCW-10149/ [redacted]/ Abertawe**

Yn erbyn y cynnig presennol

Mae'n anodd cyfiawnhau Gogledd a Chanol Abertawe yn cymryd Pontarddulais i mewn, ac y mae Canol Dinas Abertawe yn anodd i'w gyfiawnhau o ran cymuned o ddiddordebau. Byddai'r etholaeth yn ymestyn o bentref of Garnswllt ar ymylon Rhydaman, yn cynnwys ucheldir Mynydd y Gwair a phentrefi fel Pontlliw a Phenllergaer ynghyd a chanol dinas Abertawe a'i chefnwlad drefol.

Byddai Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn gyfuniad anghydnaws o gymunedau amlwg megis Gorseinon, Casllwchwr, Tre-gŵyr, Penclawdd, y pentrefi ar hyd Penrhyn Gŵyr a'r Mwmbwls gydag ardaloedd sydd ag atyniad naturiol tuag at ganol y ddinas yn ward Sgeti (e.e. Sgeti ei hun, Tycoch, Parklands, ac ardal Derwen Fawr, ynghyd a champws prifysgol Singleton), sydd oll yn rhan o graidd daearyddol Abertawe. Yn lleol, mae ymdeimlad clir o lle mae'r "dref" yn cychwyn ac y mae hynny ar wahân i'r pentrefi cyfagos. Mae'n werth nodi y gwrthododd y comisiwn gynnwys Mayals yn etholaeth Gŵyr ar nifer o achlysuron am resymau tebyg.

O blaid y gwrthgynnig

Byddai'r gwrthgynnig hwn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynus o lawer.

Byddai etholaeth Canol Abertawe yn osgoi creu rhaniad artiffisial rhwng ardaloedd Sgeti ac Uplands sydd â chysylltiadau agos. Byddai'n sicrhau parhad yr asiad gydag ardaloedd y brifysgol/myfyrwyr a'u bod yn cadw'u cysylltiadau naturiol gyda chanol y ddinas.

Byddai etholaeth estynedig arfaethedig Gŵyr yn cadw'r cysylltiadau cymunedol agos rhwng Gorseinon, Pontarddulais a'r pentrefi cyfagos. Yn draddodiadol, bu'r cymunedau hyn yn rhan o'r un awdurdod lleol (Llwchwr a Dyffryn Lliw cyn ad-drefnu llywodraeth leol) ac y mae'n rhan o'r un canolfannau o ran cyrchu gwasanaethau. Yn benodol:

Byddai'r rhannau hynny o Abertawe sydd agosaf at ganol y ddinas yn cael eu cynnwys yng Nghanol Abertawe.

Byddai Gŵyr yn parhau i fod ag amrywiaeth o drefi bychain a mân bentrefi amrywiol eu maint (sy'n ffurfio'r etholaeth fel y mae ar hyn o bryd) pob un a'i hunaniaeth bendant ei hun a byddai'n cynnwys cymunedau pendant megis Dynfant, Cilâ a Waunarlwydd (rhan o ward Cocyd) pob un a'u hunaniaeth leol benodol ei hun.

Byddai'r ddau brif ysbyty sy'n gwasanaethu'r ardal wedi eu lleoli yng Nghanol Abertawe arfaethedig.

Byddai’r prif ardaloedd prifysgol/myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn etholaeth Canol Abertawe.

Byddai cymunedau traddodiadol Cymraeg eu hiaith ym Mhontarddulais a Gorseinon-Casllwchwr ynghyd a’r pentrefi cyfagos yn cael eu cynnwys yn etholaeth Gŵyr.

Byddai ardal wledig/cyrchfan ymwelwyr penrhyn Gwyr yn aros yn yr un etholaeth â chyrchfannau gwledig/twristaidd Cefn Drum a Mynydd y Gwair ar odre’r Mynydd Du.

Byddai’r trefniant arfaethedig yn asio’n well gydag etholaethau’r Senedd, fyddai’n lleihau dryswch posib ac yn sicrhau bod mynediad at gynrychiolwyr gwleidyddol mor rhwydd a dealladwy ag sydd modd.

**BCW-10150/ [redacted] / Y Trallwng**

[redacted]

14 Mawrth 2022

Ymgynghoriad ar Adolygiad 2023
Comisiwn Ffiniau i Gymru

Llawr Isaf,

Tŷ Hastings

Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Annwyl Syr /Fadam,

Mae cynigion y Comisiwn i uno Sir Drefaldwyn a rhannau o Dde Clwyd i sedd Sir Drefaldwyn a Glyndŵr i'w croesawu yn fawr, gan y byddant yn sicrhau y cedwir statws hanesyddol Sir Drefaldwyn fel sedd Seneddol a Chyngor cyn hynny.

Er ein bod wedi ein gwahanu gan fryniau a'n rhannu i'n cymoedd ein hunain, rwy'n credu fod gwir ysbryd cymunedol yn Sir Drefaldwyn, sydd ers canrifoedd wedi goresgyn y rhwystrau daearyddol hyn, a dyna pam y cafodd y rhanbarth ei gynrychioli bron yn wastad (fel un) yn y Senedd dros y pum can mlynedd diwethaf.

Yr oeddwn yn falch iawn fod y cynigion blaenorol oedd yn bygwth ein cymuned ryfeddol, unigryw a bywiog wedi eu gollwng, a buaswn yn annog y Comisiwn yn gryf i wrthod unrhyw gynigion a ddaw yn sgil hyn fyddai'n ceisio hollti'r etholaeth unigryw a hanesyddol hon yn ddau.

Yr eiddoch yn gywir, .

[redacted]

**BCW-10151/ [redacted] /YTrallwng**

[redacted]

14 Mawrth 2022

Ymgynghoriad Adolygiad 2023
Comisiwn Ffiniau i Gynuu
Llawr Isaf
Ty Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24OBL

Annwyl Syr /Fadam,

Mae cynigion y Comisiwn i uno Sir Drefaldwyn a rhannau o Dde Clwyd i sedd Sir Drefaldwyn a Glyndwr i'w croesawu yn fawr, gan y bydd yn sicrhau y cedwir statws hanesyddol Sir Drefaldwyn fel sedd Seneddol a chyn hynny yn Gyngor.

Yr oeddwn yn falch iawn fod y cynigion blaenorol oedd yn bygwth undod ein cymtmed hyfiyd, unigryw a bywiog wedi eu gollwng, a buaswn yn annog y Comisiwn yn gryf i wrthod unrhyw gynigion fyddai'n hollti'r etholaeth tmigryw a hanesyddol hon yn ddwy.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

[redacted]

BCW-10152/[redacted]/ Llandrinio

**Ymgynghoriad Adolygiad 2023**
**Comisiwn Ffiniau i Gymru**

**Llawr Isaf**

**Tŷ Hastings**

**Llys Fitzalan,**

**Caerdydd**
**CF24 OBL**

17 Mawrth 2022

Annwyl Syr/Fadam

Petai Sir Drefaldwyn yn cael ei rhannu yn ôl y cynigion cychwynnol sydd yn awr wedi eu rhoi o'r neilltu, buasai wedi rhannu cymuned agos ac wedi creu pryder ac ansicrwydd ynghylch y gwahaniaethau dryslyd o ran ffiniau, gyda Sir Drefaldwyn yn dal i gael ei chynrychioli yn llawn yn y Cynulliad /Senedd ac eto yn rhanedig yn Senedd San Steffan ac ar draws cynghorau sir.
Felly yr wyf yn falch fod sicrhau y parheir i gynrychioli Sir Drefaldwyn bellach yn rhan o'r cynigion newydd a awgrymir.

Yr eiddoch yn gywir

[redacted]

[redacted]

[redacted]

**BCW-10153/ [redacted]/ Abertawe**

Cefnogaf Gyflwyniad Llafur –Y Pwyntiau Allweddol

Yn erbyn y cynnig presennol

Mae'n anodd cyfiawnhau Gogledd a Chanol Abertawe yn cymryd Pontarddulais i mewn, ac y mae Canol Dinas Abertawe yn anodd i'w gyfiawnhau o ran cymuned o ddiddordebau. Byddai'r etholaeth yn ymestyn o bentref of Garnswllt ar ymylon Rhydaman, yn cynnwys ucheldir Mynydd y Gwair a phentrefi fel Pontlliw a Phenllergaer ynghyd a chanol dinas Abertawe a'i chefnwlad drefol.

Byddai Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn gyfuniad anghydnaws o gymunedau amlwg megis Gorseinon, Casllwchwr, Tre-gŵyr, Penclawdd, y pentrefi ar hyd Penrhyn Gŵyr a'r Mwmbwls gydag ardaloedd sydd ag atyniad naturiol tuag at ganol y ddinas yn ward Sgeti (e.e. Sgeti ei hun, Tycoch, Parklands, ac ardal Derwen Fawr, ynghyd a champws prifysgol Singleton), sydd oll yn rhan o graidd daearyddol Abertawe. Yn lleol, mae ymdeimlad clir o lle mae'r "dref" yn cychwyn ac y mae hynny ar wahân i'r pentrefi cyfagos. Mae'n werth nodi y gwrthododd y comisiwn gynnwys Mayals yn etholaeth Gŵyr ar nifer o achlysuron am resymau tebyg.

O blaid y gwrthgynnig

Byddai'r gwrthgynnig hwn yn creu dwy etholaeth fwy cydlynus o lawer.

Byddai etholaeth Canol Abertawe yn osgoi creu rhaniad artiffisial rhwng ardaloedd Sgeti ac Uplands sydd â chysylltiadau agos. Byddai'n sicrhau parhad yr asiad gydag ardaloedd y brifysgol/myfyrwyr a'u bod yn cadw'u cysylltiadau naturiol gyda chanol y ddinas.

Byddai etholaeth estynedig arfaethedig Gŵyr yn cadw'r cysylltiadau cymunedol agos rhwng Gorseinon, Pontarddulais a'r pentrefi cyfagos. Yn draddodiadol, bu'r cymunedau hyn yn rhan o'r un awdurdod lleol (Llwchwr a Dyffryn Lliw cyn ad-drefnu llywodraeth leol) ac y mae'n rhan o'r un canolfannau o ran cyrchu gwasanaethau. Yn benodol:

Byddai'r rhannau hynny o Abertawe sydd agosaf at ganol y ddinas yn cael eu cynnwys yng Nghanol Abertawe.

Byddai Gŵyr yn parhau i fod ag amrywiaeth o drefi bychain a mân bentrefi amrywiol eu maint (sy'n ffurfio'r etholaeth fel y mae ar hyn o bryd) pob un a'i hunaniaeth bendant ei hun a byddai'n cynnwys cymunedau pendant megis Dynfant, Cilâ a Waunarlwydd (rhan o ward Cocyd) pob un a'u hunaniaeth leol benodol ei hun.

Byddai'r ddau brif ysbyty sy'n gwasanaethu'r ardal wedi eu lleoli yng Nghanol

Abertawe arfaethedig.

Byddai'r prif ardaloedd prifysgol/myfyrwyr yn cael eu cynnwys yn etholaeth Canol Abertawe.

Byddai cymunedau traddodiadol Cymraeg eu hiaith ym Mhontarddulais a Gorseinon-Casllwchwr ynghyd a'r pentrefi cyfagos yn cael eu cynnwys yn etholaeth Gŵyr.

Byddai ardal wledig/cyrchfan ymwelwyr penrhyn Gwyr yn aros yn yr un etholaeth â chyrchfannau gwledig/twristaidd Cefn Drum a Mynydd y Gwair ar odre'r Mynydd Du.

Byddai'r trefniant arfaethedig yn asio'n well gydag etholaethau'r Senedd, fyddai'n lleihau dryswch posib ac yn sicrhau bod mynediad at gynrychiolwyr gwleidyddol mor rhwydd a dealladwy ag sydd modd.

**BCW-10154/ [redacted]/ Langland**

Yr wyf yn cefnogi cynigion amgen Llafur Cymru am Orllewin Abertawe a Gŵyr ynghyd â'r rhai am Ogledd a Chanol Abertawe

**BCW-10155/ [redacted]/ Abertawe**

Dymunaf gefnogi'r cynigion a gyflwynwyd gan Lafur Cymru.

**BCW-10156/ [redacted] / Y Drenewydd**

[redacted]

Ymgynghoriad Adolygiad 2023
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Isaf
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 DBL

Mawrth 18 2022

Annwyl Gomisiwn Ffiniau i Gymru,

Ysgrifennwn atoch ynghylch yr adolygiad o ffiniau arfaethedig Etholaeth Seneddol Sir Drefaldwyn.

Fel etholwyr, yr ydym yn pryderu'n fawr na ddylid hollti sir hanesyddol Sir Drefaldwyn ac asio rhannau ag etholaethau eraill cyfagos. Yr ydym felly yn croesawu'r cynigion cychwynnol gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru gan eu bod yn cynnal sir hanesyddol Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd, ynghyd â'r cymunedau o gwmpas Llangollen.

Cafodd Sir Drefaldwyn ei chynrychioli mewn un ffordd neu ei gilydd ers 1542. Er yn ddelfrydol y buasem am i'r etholaeth aros fel y bu erioed, yr ydym yn cydnabod pwysigrwydd cael etholaethau Seneddol i fod yn gymharol gyfartal o ran maint poblogaeth. Mae cadw Sir Drefaldwyn yn ei chyfanrwydd y tu mewn i sedd fwy Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn cydnabod yr ardal fel sir a sedd Seneddol hanesyddol, ac ar yr un pryd, yn ateb gofynion yr adolygiad.

Ar un ffurf neu ei gilydd, mae Sir Drefaldwyn bron yn wastad wedi ei chynrychioli yn y Senedd fel un rhanbarth. Rydym yn falch bod y cynigion newydd yn sicrhau ei pharhad, am ein bod yn gymuned agos ac integredig, gyda phroblemau a phryderon tebyg. Mae ychwanegu rhannau o Dde Clwyd hefyd yn helpu i ail-gydbwyso'r anghysonderau demograffig sy'n bodoli oherwydd newidiadau yn y boblogaeth dros yr ugain mlynedd a aeth heibio, a helpu ar yr un pryd i gynyddu ein cysylltiadau â phobl yr ydym eisoes yn agos atynt.
Petai Sir Drefaldwyn yn cael ei rhannu, yn ôl y cynigion cychwynnol sydd bellach wedi eu rhoi heibio, byddai wedi rhannu cymuned agos ac wedi creu pryder ac ansicrwydd ynghylch y gwahaniaethau dryslyd o ran ffiniau, gyda Sir Drefaldwyn yn dal i gael ei chynrychioli yn llawn yn y Cynulliad /Senedd ac eto yn rhanedig yn Senedd San Steffan ac ar draws cynghorau sir. Yr ydym felly yn falch iawn fod sicrhau y bydd Sir Drefaldwyn yn dal i gael ei chynrychioli erbyn hyn yn rhan o'r cynigion newydd a awgrymir.

Yr eiddoch,

[redacted]

[redacted]

**BCW-10157/ Cyng Les George/ Caersws**

**Cllr Les George**
[redacted]

Ymgynghoriadau Adolygiad 2023
Comisiynydd Ffiniau i Gymru

Llawr Isaf, Tŷ Hastings

Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

19 Mawrth 2022

Annwyl Syr

**Helpwch ni i Achub Sir Drefaldwyn!**

Fel rhywun a aned, a fagwyd ac a addysgwyd yn Sir Drefaldwyn, ysgrifennaf i gefnogi'r cynigion i'r Comisiwn Ffiniau gadw enw Sir Drefaldwyn yn y newidiadau i'r ffiniau. Bûm yn aelod o Gyngor Cymuned Caersws ers deng mlynedd ar hugain ac am bum mlynedd yn aelod o Gyngor Sir Powys dros Ward Caersws a Carne, gan gynrychioli 1850 o drigolion.

Mae mwyafrif llethol yr etholwyr yn fy ward, sydd yng nghalon y Sir, hefyd yn frwd dros gynigion y Comisiwn Ffiniau i gadw enw Sir Drefaldwyn.

Yr eiddoch yn gywir

[redacted]

Cyng. Les George

**BCW-10158/ Cyng Louise Brown/ Cas-gwent**

Yr wyf yn gynghorydd sir a gorwedd fy ward rhwng Cas-gwent a Chil-y-coed. Rwyf yn llawn gefnogi'r cynnig i asio ffin CSM â'r etholaeth seneddol arfaethedig. Y peth mwyaf rhesymol yw cael yr AS dros yr un ardal. Mae pobl yn fy ward yn siopa yn nhrefi Cas-gwent a Chil-y-coed ac yn aml yn cymudo o reilffordd twnnel Hafren. Mae'r cyfan yn rhan o'r un ardal leol ac y mae gwleidyddiaeth plaid yn amherthnasol gan fod pobl yn yr ardal yn rhydd i bleidleisio dros bwy bynnag a fynnant i'w cynrychioli mewn etholiadau lleol ac am AS. Buddsoddwyd yng Nghil-y-coed i adfywio canol y dref ac y mae'n bwysig i ardal yr awdurdod lleol fod yr un ag ardal yr AS. Dyma'r cynnig mwyaf synhwyrol a rhesymol am y ffin.

**BCW-10159/ [redacted]/ Trefynwy**

Rwyf yn llawn gefnogi'r cynigion cychwynnol hyn gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru o ran etholaeth seneddol newydd "Sir Fynwy". Dyma'r ateb rhesymol a bydd yn helpu'r cyhoedd i ddeall fod yr Aelod Seneddol etholedig yn siarad dros Sir Fynwy.

**BCW-10160/ [redacted]/ Y Drenewydd**

Rwy'n cefnogi'r cynigion am Sir Drefaldwyn a Glyndwr

**BCW-10161/ Christina Harrhy/ Ystrad Mynach**

Annwyl Syr / Fadam,

Llawer o ddiolch am gynnal adolygiad o etholaethau seneddol yn unol â'r gofynion a osodwyd arnoch gan y Senedd.

Fel Swyddog Canlyniadau bwrdeistref sirol Caerffili hoffwn gefnogi llawer o'r sylwadau a gawsoch gan aelodau'r cyhoedd a gwleidyddion am y cynigion sy'n effeithio ar Gaerffili.

Yn benodol, buaswn yn ategu'r farn am y cynnig i hollti'r fwrdeistref sirol yn 4 etholaeth wahanol. Er fy mod yn derbyn nad yw/n wastad yn bosib datblygu eich cynigion ar hyd llinellau bwrdeistrefi sirol, ymddengys nad oes dim neu fawr ddim ymgais i wneud hynny yng Nghaerffili. Yn benodol, bydd nifer fawr o etholwyr o Orllewin Casnewydd yn uno gyda nifer yr un mor fawr o etholwyr o Gaerffili yn gwneud gweinyddu etholiadau seneddol yn hynod heriol ac yn cynyddu'r risgiau sy'n rhan o redeg etholiad. Hefyd, ac yn bwysicach efallai, gallai arwain at niferoedd is yn pleidleisio, gan na fydd gan etholwyr yn aml fawr ddim yn gyffredin â'r etholaethau arfaethedig na chysylltiad â hwy.

Buaswn hefyd yn cefnogi'r sylwadau a dderbyniasoch ynghylch cysylltiadau cymunedol a daearyddiaeth. Nid oes llawer o gysylltiadau lleol â'r ardaloedd arfaethedig yn etholaeth Blaenau Gwent na Gorllewin Casnewydd a Chaerffili. Er enghraifft, byddai teithio o ardal y Gilfach yng Nghaerffili i Lyn Ebwy ym Mlaenau Gwent i gwrdd â'r Swyddog Canlyniadau/Tîm Etholiadau i gasglu pleidleisiau post a ail-gyhoeddwyd yn golygu cryn siwrne, gan dorri ar draws gwahanol gymoedd, pob un â'i hunaniaeth ei hun. Byddai hyn yn dra anghyfleus i etholwyr, ac yn aml iawn, mae cludiant cyhoeddus yn anodd a digyswllt.

Fel Swyddog Canlyniadau ni fyddai'n briodol i mi wneud sylwadau am unrhyw rai o'r dewisiadau amgen a gynigiwyd fel rhan o'r ymgynghoriad, ond buaswn yn taer erfyn am i'r pryderon a amlinellwyd gennyf uchod gael eu hystyried. Mae'n bwysig fod etholiadau yn dal yn berthnasol i etholwyr, yn digwydd mewn etholaethau y gallant uniaethu â hwy a lle gallant geisio cymorth a gwasanaethau yn rhwydd gan Swyddogion Canlyniadau.

Cofion caredig
Christina Harrhy

**BCW-10162/ [redacted]/ Llanidloes**

Rwy'n meddwl mai creu etholaeth fwy Sir Drefaldwyn yw'r ateb gorau i broblem anodd. I mi, mae'n bwysig iawn fod Sir Drefaldwyn yn aros fel un endid. Gwn ei bod yn rhan bwysig o hunaniaeth leol. Er mai Powys yw enw ein sir, mae llawer yn dal i synied amdanynt eu hunain fel trigolion Sir Drefaldwyn yn hytrach na Phowys.

Er hynny, yr wyf yn deall pryderon y rhai yn rhan Glyndŵr yr etholaeth newydd, sy'n teimlo eu bod wedi eu gosod wrth ardal lle nad ydynt yn teimlo fod ganddynt gysylltiad cryf, naill ai yn awr neu yn hanesyddol. Serch hynny, rwy'n dal o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r ateb gorau dan yr amgylchiadau. Yma yn y Canolbarth, yr ydym yn teimlo fod Caerdydd yn ein hanwybyddu, felly mae hynny yn gyffredin gennym, ac y mae gennym lawer o broblemau yn gyffredin gyda'r rhai sy'n byw yn ardal wledig Glyndŵr.

**BCW-10163/ [redacted]/ Meifod**

Rwyf yn croesawu'r newidiadau a wnaed gan y comisiwn ffiniau sy'n cynnal undod Sir Drefaldwyn sydd â'i hunaniaeth ei hun. Byddai hollti'r sir yn golygu rhannu cymunedau sydd wedi byw ynghyd, ac yn rhannu llawer agwedd at faterion lleol ac sy'n rhannu'r un hunaniaeth. Bu'r sir yn etholaeth ers 1542 ac o'r herwydd mae llywodraethiant y sir yn sefydledig. Mae cadw'r sir o fewn yr etholaeth newydd yn dangos cydbwysedd clir rhwng cwrdd â meini prawf y comisiwn a chadw hunaniaeth y gymuned yr un pryd.

Cefnogaf y cynigion i greu Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

**BCW-10164/ [redacted]/ Llanfair Caereinion**

Rwyf yn croesawu'r newidiadau a wnaed gan y comisiwn ffiniau sy'n cynnal undod Sir Drefaldwyn. Bu'r sir yn etholaeth ers 1542 ac o'r herwydd mae llywodraethiant yr ardal yn sefydledig ac y mae ganddi ei hunaniaeth ei hun. Mae cadw'r sir o fewn yr etholaeth newydd yn dangos cydbwysedd clir rhwng cwrdd â meini prawf y comisiwn a chadw hunaniaeth y gymuned yr un pryd. Byddai hollti'r sir yn golygu rhannu cymunedau sydd wedi byw ynghyd, ac yn rhannu llawer agwedd at faterion lleol ac sy'n rhannu'r un hunaniaeth. Mae newid mawr o'r fath yn ddrud, yn tarfu ac yn hollol ddianghenraid.

Rwy'n cefnogi'r cynigion i greu Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

**BCW-10165/ [redacted] / Llanymynech**

Mae'n bleser mawr gennyf ychwanegu fy nghefnogaeth i'r cynnig i gadw Sir Drefaldwyn a'i hehangu i gynnwys cymunedau gerllaw ein ffin ogleddol.

[redacted]

Preswyliwr yn Sir Drefaldwyn

**BCW-10166/ [redacted] / Portishead**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** [redacted] awrth 2022 16:37
**At:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Etholaethau newydd Cymru

Rwy'n cefnogi cynigion y Comisiynwyr Ffiniau am etholaethau newydd i Gymru

Gani mi fyw yn Sir Drefaldwyn am 28 mlynedd, rwy'n gyfarwydd iawn a'r ardal a chyn hynny roeddwn yn byw yn Wrecsam. Rwyf nawr yn byw yn Portishead ger Bryste

Deallaf fad y cyfnod ymgynghori cychwynnol wedi dad i ben llynedd, a chynnig y Comisiwn Ffiniau yw i Sir Drefaldwyn gael ei chadw a'i hehangu i gynnwys Llangollen a'r cymunedau cyfagos. Gelwir yr etholaeth newydd hon yn Sir Drefaldwyn & Glyndwr.

Rwy'n credu fad y cynnig hwn yn un da iawn, yn enwedig am ei fad nid yn unig yn cadw sir ac etholaeth hanesyddol Sir Drefaldwyn yn gyfan, and hefyd yn cynnwys cymunedau cyfagos sydd a thirwedd ac anghenion tebyg. Mae'n bwysig iawn i bobl gael llais mewn ardal sydd a phoblogaeth wasgaredig. Hefyd, mae'r un mar bwysig cadw cysylltiad mar ages ag sydd modd rhwng etholaethau Sir Drefaldwyn yn San Steffan a'r Senedd, o gofio na fydd ffin etholaeth y Senedd yn newid yn sgil yr adolygiad hwn.

Rwyf yn llawn gefnogi cynigion y Comisiwn Ffiniau am etholaeth newydd dan yr enw Sir Drefaldwyn & Glyndwr

[redacted]

**BCW-10167/ [redacted] / Berriw**

**Oddi wrth**: [redacted]
**Anfonwyd:** 24 Mawrth 2022 16:59
**At:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc**: Sir Drefaldwyn

Annwyl Sir
Tybiwn fod y cynnig a roddwyd gerbron gan y Comisiwn Ffiniau wedi ei lunio yn ddoeth iawn ac y dylid ei fabwysiadu. [redacted]

**BCW-10168/ [redacted] / Llansantffraid**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 25 Mawrth 2022 14:14
**At:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Adolygiad y Comisiwn Ffiniau o Sir Drefaldwyn

Annwyl Syr,

Yr wyf yn gweld y cynigion gan y Comisiwn Ffiniau yn ateb derbyniol. Ni fuaswn wedi bod yn hapus i dderbyn y cynigion blaenorol oedd yn awgrymu rhannu Sir Drefaldwyn. Mae'n bwysig i mi ein bod yn cynnal y traddodiad a wnaeth Sir Drefaldwyn yn gymuned hanesyddol ac agos, gyda llawer â chysylltiadau agos ledled y sir. Rwy'n cytuno, trwy gadw Sir Drefaldwyn mewn etholaeth Seneddol newydd  fel y cynigiwyd yn flaenorol, y ceir cydbwysedd clir a chwrdd â meini prawf y comisiwn, tra'n cadw hunaniaeth gymunedol y fan rwy'n falch o alw yn gartref, Sir Drefaldwyn

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

[redacted]

**BCW-10169/ [redacted] / Anhysbys**

**Gan:** [redacted]
**Anfonwyd:** 25 Mawrth 2022 15:06
**At:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr

Helo,

Gweler ynghlwm fy ymateb i Etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr i gefnogi'r comisiwn ffiniau.

Diolch yn fawr,

[redacted]

Rwy'n cefnogi yn llawn cynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Etholaeth newydd Gorllewin Abertawe a Gŵyr. Gweler isod y rhesymau am fy nghefnogaeth.

1. Mayals yw'r porth i Gŵyr, ac o'r herwydd dylai fod yn rhan o etholaeth Gŵyr i sicrhau cysondeb wrth ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r ardal yn ei chyfanrwydd.

2. Mae Gŵyr yn chwarae rhan hanfodol o ran twristiaeth yn Abertawe, sy'n helpu i roi hwb i'r economi, sydd wedyn yn cynorthwyo ardal Gŵyr yn y gwaith o ailddatblygu ac adeiladu cyfleusterau o'r newydd. Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig bod holl drigolion Mayals yn cael eu cefnogi a'u cynrychioli gan un AS ac Aelod o'r Senedd, yr un aelod sy'n cynrychioli'r wardiau eraill yng nghymuned y Mwmbwls i sicrhau undod ac agosrwydd o ran penderfyniadau a chyfleoedd.

3. Mae'n hanfodol uno cymuned y Mwmbwls drwy sicrhau bod Newton, Ystumllwynarth, West Cross a Mayals i gyd yn rhan o Etholaeth Seneddol Gŵyr, o gofio bod pob un o'r rhain yn cael eu cynrychioli o dan Gyngor Cymuned y Mwmbwls. Bydd hyn o fudd wedyn i'r holl drigolion ar draws y Mwmbwls ac yn cryfhau ac uno'r ardal. Mae'n bwysig bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y cyngor cymuned yn cael eu hailadrodd a'u cefnogi gan rai'r AS. Rhywbeth sy'n anodd ar hyn o bryd, oherwydd y ffaith fod un cyngor yn cael ei gynrychioli gan ddau AS.

4. Â minnau'n athrawes, rwy'n deall pa mor bwysig yw addysg, a pha mor bwysig yw cael safbwyntiau disgyblion ar eu hysgol a'u cymuned leol. Ar hyn o bryd, mae disgyblion o ardal Mayals yn mynd ymlaen yn naturiol i Ysgol Gyfun Bishopston. Mae Ysgol Gyfun Bishopston yn Etholaeth Seneddol Gŵyr ar hyn o bryd, a chan fod yr oedran pleidleisio cyfreithlon wedi cael ei ostwng i 16, mae'n bwysig eu bod yn gallu pleidleisio ar faterion yn yr ardal a fydd yn llunio eu haddysg a'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Mae'n ymddangos yn hurt bod yn rhaid i ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu yn Etholaeth Gŵyr bleidleisio a chael eu cynrychioli gan Etholaeth Gorllewin Abertawe oherwydd lle maen nhw'n byw.

5. Hefyd, yn ôl fy nealltwriaeth o'r strwythur plismona presennol, mae Mayals yn rhan o uned Gŵyr. Felly, bydd ystadegau trosedd yn cael eu hadrodd fel pe baent o fewn ffin Gŵyr, a chan fod cynghorwyr lleol yn ymdrin yn agos â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i fynd i'r afael â throsedd a'i atal, byddai'n ganlyniad mwy cydlynol pe bai Etholaeth Seneddol Gŵyr yn cynnwys Mayals.

**BCW-10170/ [redacted] / Y Fenni**

Rwy’n cael ar ddeall bod rhai cynigion yn awgrymu newid Etholaeth Sir Fynwy lle rwy’n byw o fod yn gydffiniol â’r awdurdod lleol i gael ei rhannu rhwng naill ai dwy neu dair etholaeth.

Rwy’n anghytuno â’r cynigion amgen hyn.

Roedd cynnig gwreiddiol y Comisiwn yn gyfleus ac yn synhwyrol iawn ac yn welliant ar y sefyllfa bresennol.

Mae gwneud Sir Fynwy yn gydffiniol hefyd yn caniatáu i Dorfaen fod yn gydffiniol. Mae hyn yn gwella'r sefyllfa ar gyfer y ddwy etholaeth, ac rwy’n annog y Comisiwn i gadw at ei gynigion gwreiddiol yn y de-ddwyrain a gwrthod y dewisiadau amgen sy'n creu rhwygiadau ac nad ydynt yn cyd-fynd cystal â ffiniau awdurdodau lleol.

**BCW-10171/ [redacted] Cymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru/ Abertawe**

**Gan:** [redacted]
**Anfonwyd:** 27 Mawrth 2022 23:56
**At:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Gwrthgynnig ar gyfer ffiniau Abertawe wedi'i gefnogi gan y Gymdeithas Tsieineaidd yng Nghymru Abertawe

At Ysgrifennydd Comisiwn Cymru,
Shereen Williams MBE OStJ

Annwyl Shereen Williams,

Ar ran cymunedau Tsieineaidd yn Abertawe, rwy'n ysgrifennu i gefnogi'r gwrthgynnig a gyflwynwyd gan [redacted] ar 1 Mawrth 2022 yn Abertawe.

Pobl Tsieineaidd yw'r ail gymuned leiafrif fwyaf yn Abertawe ar ôl pobl Bangladeshaidd.

Rydym yn cefnogi yn arbennig y gwrthgynnig sydd ynghlwm isod i greu dwy etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr a Gogledd Abertawe newydd am y rhesymau canlynol

1. Mae'n ail-uno cymunedau Tsieineaidd a chymunedau lleiafrifoedd eraill mewn un etholaeth.

2. Byddai etholaeth arfaethedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr yn cadw ffin naturiol Afon Tawe ac yn cynnwys yr holl dir tua'r gorllewin i benrhyn Gŵyr.

3. Mae'n cadw Sgeti ac Uplands gyda'i gilydd ac, yn fwy eang, y cysylltiadau agos rhwng Sgeti, Mayals, Dynfant a Chilâ gydag Uplands, canol y ddinas a Townhill. Mae hyn yn cynnwys campws y brifysgol â'i fyfyrwyr a chymunedau Tsieineaidd ac nad ydynt yn lleiafrifoedd lleol.

4. Mae'n creu etholaeth Gogledd Abertawe annibynnol synhwyrol o bentrefi gwledig a lled-wledig a threfi â chysylltiadau cymunedol sefydledig.

5.Mae'n cynnal ac yn adeiladu ar gysylltiadau lleol gyda'n cymunedau a adeiladwyd dros flynyddoedd lawer. Rydym wedi gweithio gyda Geraint Davies AS ers 2010, ac Alun Williams cyn hynny, a byddai'n rhwygol ac yn niweidiol i rannu ein cymuned ni a chymunedau lleiafrifoedd eraill rhwng gwahanol etholaethau. Mae'n haws gweithio gydag un Aelod Seneddol ac mae'n cymryd amser i fagu hyder. Nid yw'r arfer o bleidleisio wedi'i sefydlu yn dda yn y gymuned Tsieineaidd ac ni ddylai cyfleoedd newydd i ymgysylltu â'n gilydd gael eu tarfu gan newidiadau i ffiniau yn rhannu cymunedau lleiafrifoedd sefydledig pan ellir ei osgoi. Mae bod ag un AS fel pwynt cyswllt a chymorth yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnod ansicr yn y DU a thramor.

6. Mae gennym ffafriaeth gref tuag at y gwrthgynnig hwn ar gyfer etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr gan ei fod yn edrych tua'r gorllewin ac nid tua'r dwyrain, gan ein bod wedi cael croeso cynnes a llawn cydymdeimlad yn hanesyddol.

7. Bydd yr ystyriaeth hon yn dod yn bwysicach yn ystod amseroedd newidiol yn economaidd gyda chwyddiant sy'n cynyddu'n fawr ac yn wleidyddol gan y gellir rhoi'r bai ar densiynau yn anghywir ar gymunedau lleiafrifoedd ethnig lleol (yn yr un modd ag effeithiau sancsiynau masnach a rhyfeloedd).

Rydym yn cefnogi'r gwrthgynigion sydd ynghlwm yn gryf felly o ran cydlyniad cydlyniant cymunedol a llesiant y gymuned Tsieineaidd a chymunedau lleiafrifoedd eraill.

Hefyd, mae'r gwrthgynnig yn gryf o ran y ddaearyddiaeth, cysylltiadau lleol a chyfleustra ar gyfer gweithio, hamdden, manwerthu ac felly rydym yn hapus i roi ein cefnogaeth.

Yn gywir
[redacted]

-----------------------------------------------
[redacted]
Sylfaenydd a Chadeirydd

**BCW-10172/ [redacted] / Abertawe**

**Gan:** [redacted]
**Anfonwyd:** 27 Mawrth 2022 23:25
**At:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Parthed: Gwrandawiad Cyhoeddus

At Ysgrifennydd Comisiwn Cymru, Shereen Williams MBE OStJ

Annwyl Shereen,

Gobeithiaf eich bod yn iawn.

Roedd yn bleser eich cyflwyno chi a'ch cydweithwyr ar Ddydd Gŵyl Dewi yng Ngwesty'r Grand yn Abertawe.

Rwy'n ysgrifennu atoch eto i ail-bwysleisio ac egluro rhai o'r pwyntiau i mi eu gwneud ar lafar.

Atodaf eto y sleidiau o blaid fy ngwrthgynnig ar gyfer etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr newydd yn ymestyn tua'r gorllewin o Afon Tawe i Benrhyn Gŵyr ynghyd ag etholaeth Gogledd Abertawe o gymunedau gwledig a lled-wledig rhyng-gysylltiedig, sy'n aml yn Gymraeg eu hiaith.

Mae gan fy nghyflwyniad, a gefnogir gan [redacted], gefnogaeth cymunedau – gan gynnwys y cymunedau Mwslimaidd, y Gymuned Tsieineaidd a chymunedau Affricanaidd yn ogystal â chymunedau nad ydynt yn lleiafrifoedd – ar draws dinas a sir Abertawe.

Mae'r gwrthgynnig

1. yn ail-uno'r cymunedau amrywiol o Afon Tawe (Castell, Townhill, Uplands) sy'n rhedeg yn ddi-dor tua'r gorllewin i Sgeti, Dynfant a Chilâ a Mayals a'r Mwmbwls tuag at Benrhyn Gŵyr, trwy ail-uno Sgeti ac Uplands, i greu etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr newydd
2. yn ail-uno Penyrheol a Gorseinon, Casllwchwr, Kingsbridge gyda chymunedau cysylltiedig (Pontarddulais ac ati) yn etholaeth Gogledd Abertawe cydlynol.

Mae'r dadleuon dros ail-uno Sgeti ac Uplands yn cynnwys cydlyniant cymunedol, daearyddiaeth a chyfleustra i gymunedau lleiafrifoedd ac nad ydynt yn lleiafrifoedd o ran gwaith, hamdden ac addoli ac y dylai campws y brifysgol a myfyrwyr hefyd fod yn yr un etholaeth.

Ceir cefnogaeth gref a chynyddol, yn enwedig ymhlith cymunedau lleiafrifoedd, y dylai'r ail-uno hwn fod yn rhan o etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr **yn edrych tua'r gorllewin** o Afon Tawe.

Mae hyn oherwydd bod esblygiad y cymunedau lleiafrifoedd hyn wedi digwydd o gwmpas Canol y Ddinas, Uplands a Sgeti yn edrych tua'r gorllewin ac yn hanesyddol bu integreiddiad â mwy o gydymdeimlad a mwy croesawgar tua'r gorllewin.

Mae'r cymunedau lleiafrifoedd yn ymwybodol o'r anawsterau, gan gynnwys troseddau casineb, sydd wedi codi yn y gorffennol o gael eu cysylltu yn anghywir ag ymosodiadau terfysgol, coronafeirws (y rhoddwyd y bai amdano ar bobl Tsieineaidd), gwrthdaro tramor ac anawsterau economaidd lleol yn cael ei feio ar leiafrifoedd y tybir eu bod yn 'dramorwyr' er eu bod yn aml yn ddinasyddion ail a thrydedd genhedlaeth Abertawe. Cafwyd llai o broblemau o'r fath tua'r gorllewin.

Ar adeg pan fo'r argyfwng costau byw yn cael ei waethygu gan chwyddiant a sancsiynau ac anawsterau masnach, ac mae gwrthdaro tramor yn golygu bod yn rhaid i ni gynnig lloches ddiogel i ffoaduriaid, mae'n bwysig felly i gymunedau lleiafrifoedd fod yn bennaf mewn un etholaeth yn edrych tua'r gorllewin gydag un Aelod Seneddol i weithio ag ef.

Mae datblygu ymgysylltiad a hyder wedi bod yn bwysig yn y gorffennol (e.e. gydag argyfwng gadael Affganistan) a byddai gwahanu cymunedau a'u cyfeirio tua'r dwyrain yn achosi dryswch ac yn tarfu yn y dyfodol ar ein llesiant a'n cydlyniant.

Mae angen i ni symud ymlaen gyda gwaith da blaenorol dros flynyddoedd lawer a datblygu hyder a chynhwysiant yn y broses ddemocrataidd a fyddai'n cael ei niweidio gan wahaniad.

Er enghraifft, nid yw'r arfer pleidleisio wedi'i sefydlu yn dda iawn ymhlith cymunedau lleiafrifoedd, yn enwedig y gymuned Tsieineaidd, ac ni ddylid ymyrryd â chyfleoedd newydd i ymgysylltu â'n gilydd trwy newidiadau ffiniau syn rhannu'r gymuned hon a chymunedau lleiafrifoedd sefydledig eraill pan fo modd ei osgoi. Mae bod ag un AS fel pwynt cyswllt a chymorth yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnod ansicr yn y DU a thramor.

Am y rhesymau hyn, mae fy nghynigion wedi cael cefnogaeth gynyddol ar draws cymunedau lleiafrifoedd ac ehangach ar gyfer cydlyniant a llesiant cymunedol. Rydym yn cefnogi ymestyn etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr tua'r gorllewin o Afon Tawe. Mae'r gwrthgynigion yn gryf o ran daearyddiaeth, cysylltiadau lleol a chyfleustra ac yn atgyfnerthu diddordeb a chydnerthedd cymunedol ar gyfer y cyfnod ansicr sydd o'n blaenau.

Gobeithiaf fod hwn yn ymhelaethiad cynorthwyol o'm cyflwyniad sydd ynghlwm yr wyf i'n eich annog i'w gymeradwyo. Yn naturiol, rwy'n ddiolchgar i'r cymunedau Mwslimaidd, Tsieineaidd, Affricanaidd a lleiafrifoedd eraill am eu cefnogaeth.

Diolch yn fawr a chofion gorau

[redacted]

[redacted]
Trigolyn Sgeti ac aelod o gymuned Fwslimaidd Abertawe

# GWRTHGYNIGION FFINIAU ABERTAWE

[redacted], **Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, Aelod o gymuned Fwslimaidd Abertawe a thrigolyn Sgeti**

Wedi'i gefnogi gan [redacted], **sy'n gweithio ym Mhrifysgol Abertawe ac yn Aelod Blaenllaw o Gymuned Fwslimaidd Abertawe, yn Llywodraethwr Ysgol Gynradd Parkland ac Ysgol Uwchradd Olchfa**

Gwrthgynigion ar gyfer etholaeth **Gorllewin Abertawe a Gŵyr** newydd o 76,071 o bleidleiswyr ac etholaeth **Gogledd Abertawe** newydd o 75,342 o bleidleiswyr:

- Ychwanegu Uplands (10,834), Castell (10,312), a Townhill (5592), sy'n cynnwys 26,738 o bleidleiswyr i'r etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr a gynigiwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru

- Symud Penyrheol (4,621), Casllwchwr Isaf (1,795), Casllwchwr Uchaf (2,146), Gorseinon (3,340), Kingsbridge (3,506) a'r Cocyd (10,473) sy'n cynnwys 25,881 o bleidleiswyr o'r etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr a gynigiwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

**GORLLEWIN** ABERTAWE A GŴYR,

GOGLEDD ABERTAWE



# Gwrthgynnig Gorllewin Abertawe a Gŵyr a Gogledd Abertawe

- **Cydlynol yn ddaearyddol** gan ei fod yn parhau i ddefnyddio Afon Tawe a'r morlin fel ffiniau naturiol wrth i etholaeth ddiwygiedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr ddilyn yr arfordir o orllewin Afon Tawe trwy Castell, Townhill, Uplands, drwy Sgeti a Mayals i benrhyn Gŵyr.
- **Yn parchu ffiniau presennol** – yn cadw Dynfant, De Cilâ a Gogledd Cilâ yn ogystal â Mayals a Sgeti wedi'u cyfuno ag Uplands, Townhill a Chastell i afon Tawe ac yn cynnwys Penrhyn Gŵyr tra'n creu sedd Gogledd Abertawe gydlynol.
- **Yn atgyfnerthu cysylltiadau lleol** – cymuned, gwaith, hamdden a gwasanaethau – ym mhob ardal allweddol gan gynnwys ein dwy brifysgol, llety myfyrwyr, Ysbyty Singleton, y Cyngor a gwasanaethau, datblygiad adfywio allweddol fel canol y dref, gan sicrhau'r cyfleustra mwyaf posibl yn hwylus i gyd mewn un etholaeth.

# Gwrthgynnig Gorllewin Abertawe a Gŵyr a Gogledd Abertawe

- **Yn cadw cydlyniant y gymuned Fwslimaidd** – mae llawer iawn o boblogaeth Wardiau Sgeti, Uplands, a Chastell o gymuned Fwslimaidd Abertawe, bydd y Mosg Canolog, y Mosg Shia, a Chanolfan Gymunedol Fwslimaidd arfaethedig newydd yn y ddaearyddiaeth hon yn Sgeti. Tan nawr, cynrychiolwyd y gymuned Fwslimaidd gan un Aelod Seneddol ac un Aelod o'r Senedd.
- **Cydlyniad cymunedau lleiafrifoedd eraill –** mae llawer iawn o boblogaeth y wardiau hyn o gymunedau lleiafrifoedd eraill hefyd, yn enwedig y rhai o dras Tsieineaidd ac Affricanaidd, a byddai'n niweidiol i gydlyniad cymunedol pe baent yn cael eu rhannu yn ddwy wahanol etholaeth.
- **Cydlyniant democrataidd** – yn alinio yn agosach â chynrychiolaeth etholaethau'r Senedd

# Gwrthgynnig Gorllewin Abertawe a Gŵyr a Gogledd Abertawe

[redacted]

**BCW-10173/**[redacted]**/ Llanllwni**

**Gan:** [redacted]
**Anfonwyd:** 27 Mawrth 2022 16:59
**At:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc**: Parthed: Cynigion Ffiniau Llanfihangel-ar-arth

Annwyl Syriaid,

Mae'r cynigion gwreiddiol a gyhoeddwyd gan y comisiwn ar gyfer sedd Caerfyrddin newydd yn adlewyrchu yn gywir cysylltiadau gwirioneddol Llanfihangel-ar-arth gyda'i wardiau cyfagos yn Sir Gaerfyrddin ac yn cymryd daearyddiaeth leol, gan gynnwys y rhwydwaith afonydd, i ystyriaeth;

· Ei chynnwys yn sedd newydd Caerfyrddin yw'r canlyniad mwyaf rhesymegol oherwydd y cysylltiadau cymunedol hyn a chysylltiadau hanesyddol fel ein Hysbyty Cyffredinol yng Nglangwili;

· Rwy'n gwrthwynebu yn gryf yr awgrym y gallai Llanfihangel-ar-arth, yn hytrach, gael ei hychwanegu at etholaeth yng Ngheredigion, gan na fu gan ein hardal erioed unrhyw gysylltiad â Cheredigion ac eithrio sir "Dyfed" a oedd yn amhoblogaidd ymhlith llawer y gorfodwyd i ni fyd ag ef am rai blynyddoedd;

· Nid oes gan drigolion Llanfihangel-ar-arth unrhyw gysylltiadau cymunedol gyda Cheredigion. Mae ein cysylltiadau cymunedol yn bennaf gyda threfi Sir Gaerfyrddin fel Llanymddyfri, Llandeilo neu dref Caerfyrddin ei hun;

· Yn hanesyddol, lleolwyd Llanfihangel-ar-arth ym mhrif etholaeth Sir Gaerfyrddin wledig erioed, ac nid un yn gysylltiedig â Cheredigion gan y byddai'n golygu croesi ffiniau naturiol sylweddol fel afonydd a mynyddoedd.

Yn gywir,

[redacted]

**BCW-10174/ [redacted] / Hendy-gwyn ar Daf**

**Gan:** [redacted]
**Anfonwyd:** 27 Mawrth 2022 08:45
**At:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Yn Erbyn y Newid i Etholaeth Talacharn/Sir Gaerfyrddin

Annwyl Syr

Rydym ni yn byw yn etholaeth Talacharn/Sir Gaerfyrddin ac rydym ni yn gwrthwynebu'r newidiadau i'r ffiniau am y rhesymau isod.

Yn gywir

[redacted]

· Mae'r cynigion gwreiddiol a gyhoeddwyd yn gywir yn yr ail ymgynghoriad yn adlewyrchu cysylltiadau gwirioneddol Talacharn â'i wardiau cyfagos yn Sir Gaerfyrddin ac yn cymryd daearyddiaeth leol, gan gynnwys y rhwydwaith afonydd, i ystyriaeth;
· Rwy'n gwrthwynebu yn gryf cynnwys Talacharn yn etholaeth Llanelli gan na fu ganddi erioed unrhyw gysylltiad â Llanelli, sy'n ardal diwydiant trwm yn bennaf, tra bod gan Dalacharn economi dwristiaeth;
· Nid oes gan drigolion yn Nhalacharn unrhyw gysylltiadau cymunedol â Llanelli ac nid ydynt yn rhannu gwasanaethau lleol chwaith;
· Lleolwyd Talacharn ym mhrif etholaeth wledig Sir Gaerfyrddin erioed, ac nid un sy'n gysylltiedig ag ardal ddeheuol ddiwydiannol Sir Gaerfyrddin.

**BCW-10175/ [redacted] Cymunedau Affricanaidd Abertawe yn Abertawe/ Abertawe**

**Gan:** [redacted]
**Anfonwyd:** 26 Mawrth 2022 16:02
**At:** BCW <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Cefnogaeth i gynnig ffiniau amgen

Annwyl Shereen Williams MBE OStJ

Rwy'n ysgrifennu ar ran y gwahanol gymunedau Affricanaidd yn Abertawe i gefnogi'r gwrthgynnig i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru sydd ynghlwm a gyflwynwyd gan Mr Riaz Hassan, ac a gefnogir gan Dr. Mahaboob Basha BEM, ar 1 Mawrth 2022 yn Abertawe. Rwy'n credu efallai fy mod wedi anfon ein cefnogaeth atoch mewn e-bost o'r blaen, ac ymddiheuriadau os wyf i.

Mae hyn i gadarnhau i chi ein bod yn cefnogi'r dadleuon a'r map sydd wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad sydd ynghlwm a hoffem ail-bwysleisio bod y gwrthgynnig yn:-

1. Mae'n ail-uno cymunedau Affricanaidd, ochr yn ochr â chymunedau lleiafrifoedd eraill, mewn un etholaeth hy Gorllewin Abertawe a Gŵyr

2. Mae'n cadw ffin naturiol Afon Tawe ac yn ymestyn tua'r gorllewin i benrhyn Gŵyr

3. Mae'n dod â Sgeti ac Uplands yn ôl at ei gilydd h.y. campws y brifysgol â'i fyfyrwyr ond hefyd llawer o gymunedau Affricanaidd a chymunedau lleiafrifoedd ac nad ydynt yn lleiafrifoedd eraill â chysylltiadau agos. Mae'r gwrthgynnig yn cynnal cysylltiadau rhwng Sgeti, Mayals, Dynfant a Chilâ gydag Uplands, canol y ddinas a Townhill

4. Mae'n galluogi etholaeth Gogledd Abertawe cydlynol o bentrefi gwledig a lled-wledig a threfi â chymunedau Cymraeg eu hiaith cysylltiedig

5. Mae'r cysylltiadau lleol o fewn cymunedau a rhwng gwahanol gymunedau lleiafrifoedd wedi cael eu hadeiladu dros flynyddoedd lawer, a byddai'n rhwygol ac yn niweidiol i'w rhannu rhwng gwahanol etholaethau. Mae wedi bod o gymorth trefnu cymunedau Affricanaidd unigol, sy'n aml yn fach, i weithio gydag un Aelod Seneddol (Geraint Davies ers 2010) ar broblemau penodol, sydd weithiau'n lleol ac weithiau'n rhyngwladol.

6. Rydym yn croesawu'r gwrthgynnig sydd ynghlwm o etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr sy'n edrych tua'r gorllewin ac nid tua'r dwyrain, sy'n rhywbeth y mae'r gymuned Affricanaidd a chymunedau lleiafrifoedd eraill yn ei gefnogi yn gryf gan ein bod wedi cael croeso mwy cynnes tua'r gorllewin yn hanesyddol

7. Bydd yr ystyriaeth hon yn dod yn bwysicach yn ystod yr argyfwng costau byw cynyddol a phan fo ymfudo yn cynyddu o fannau lle ceir rhyfeloedd, fel Affganistan a Wcráin.

Rydym yn cefnogi’r gwrthgynigion sydd ynghlwm yn gryf felly o ran cydlyniant cymunedol a llesiant y gymuned Affricanaidd a chymunedau lleiafrifoedd eraill.

Gan fod y gwrthgynnig hefyd yn welliant o ran y ddaearyddiaeth, cysylltiadau lleol a chyfleustra ar gyfer gweithio, hamdden, ac addoli, rydym yn gobeithio yn naturiol y bydd yn cael sêl eich bendith.

Cofion gorau,

[redacted]
Cyfarwyddwr, Cymdeithas Pobl o Nigeria yng Nghymru
Swyddog a Chadeirydd Lleiafrifoedd Ethnig Llafur Gorllewin Abertawe

Ar ran cymunedau Affricanaidd Abertawe yn Abertawe

# GWRTHGYNIGION FFINIAU ABERTAWE

**[redacted], Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, Aelod o gymuned Fwslimaidd Abertawe a thrigolyn Sgeti**

Wedi'i gefnogi gan [redacted]**, sy'n gweithio ym Mhrifysgol Abertawe ac yn Aelod Blaenllaw o Gymuned Fwslimaidd Abertawe, yn Llywodraethwr Ysgol Gynradd Parkland ac Ysgol Uwchradd Olchfa**

[redacted] - Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol, Aelod o gymuned Fwslimaidd Abertawe a thrigolyn Sgeti.

Gwrthgynigion ar gyfer etholaeth **Gorllewin Abertawe a Gŵyr** newydd o 76,071 o bleidleiswyr ac etholaeth **Gogledd Abertawe** newydd o 75,342 o bleidleiswyr:

- Ychwanegu Uplands (10,834), Castell (10,312), a Townhill (5592), sy'n cynnwys 26,738 o bleidleiswyr i'r etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr a gynigiwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru

- Symud Penyrheol (4,621), Casllwchwr Isaf (1,795), Casllwchwr Uchaf (2,146), Gorseinon (3,340), Kingsbridge (3,506) a'r Cocyd (10,473) sy'n cynnwys 25,881 o bleidleiswyr o'r etholaeth Gorllewin Abertawe a Gŵyr a gynigiwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru.

## **GORLLEWIN** ABERTAWE A GŴYR,

## GOGLEDD ABERTAWE



# Gwrthgynnig Gorllewin Abertawe a Gŵyr a Gogledd Abertawe

- **Cydlynol yn ddaearyddol** gan ei fod yn parhau i ddefnyddio Afon Tawe a'r morlin fel ffiniau naturiol wrth i etholaeth ddiwygiedig Gorllewin Abertawe a Gŵyr ddilyn yr arfordir o orllewin Afon Tawe trwy Castell, Townhill, Uplands, drwy Sgeti a Mayals i benrhyn Gŵyr.
- **Yn parchu ffiniau presennol** – yn cadw Dynfant, De Cilâ a Gogledd Cilâ yn ogystal â Mayals a Sgeti wedi'u cyfuno ag Uplands, Townhill a Chastell i afon Tawe ac yn cynnwys Penrhyn Gŵyr tra'n creu sedd Gogledd Abertawe gydlynol.
- **Yn atgyfnerthu cysylltiadau lleol** – cymuned, gwaith, hamdden a gwasanaethau – ym mhob ardal allweddol gan gynnwys ein dwy brifysgol, llety myfyrwyr, Ysbyty Singleton, y Cyngor a gwasanaethau, datblygiad adfywio allweddol fel canol y dref, gan sicrhau'r cyfleustra mwyaf posibl yn hwylus i gyd mewn un etholaeth.

# Gwrthgynnig Gorllewin Abertawe a Gŵyr a Gogledd Abertawe

- **Yn cadw cydlyniant y gymuned Fwslimaidd** – mae llawer iawn o boblogaeth Wardiau Sgeti, Uplands, a Chastell o gymuned Fwslimaidd Abertawe, bydd y Mosg Canolog, y Mosg Shia, a Chanolfan Gymunedol Fwslimaidd arfaethedig newydd yn y ddaearyddiaeth hon yn Sgeti. Tan nawr, cynrychiolwyd y gymuned Fwslimaidd gan un Aelod Seneddol ac un Aelod o'r Senedd.
- **Cydlyniad cymunedau lleiafrifoedd eraill –** mae llawer iawn o boblogaeth y wardiau hyn o gymunedau lleiafrifoedd eraill hefyd, yn enwedig y rhai o dras Tsieineaidd ac Affricanaidd, a byddai'n niweidiol i gydlyniad cymunedol pe baent yn cael eu rhannu yn ddwy wahanol etholaeth.
- **Cydlyniant democrataidd** – yn alinio yn agosach â chynrychiolaeth etholaethau'r Senedd

# Gwrthgynnig Gorllewin Abertawe a Gŵyr a Gogledd Abertawe

[redacted]

**BCW-10176/ Stephen Kinnock AS/ Aberafan**

**Oddi wrth:** [redacted]
**Anfonwyd:** 28 Mawrth 2022 10:13
**At:** CFfG <bcw@boundaries.wales>
**Pwnc:** Cynigion Cychwynnol Arolwg 2023 y Comisiwn Ffiniau i Gymru – Aberafan Porthcawl

Yn dilyn fy nghyflwyniad yn y sesiwn dystiolaeth ar 1 Mawrth, atodaf gyflwyniad ysgrifenedig.

Yr eiddoch yn gywir,

Stephen Kinnock

Aelod Seneddol dros Aberafan

Gweinidog yr Wrthblaid dros Fewnfudo

**Stephen Kinnock** Aelod Seneddol dros Aberfan

[redacted]

Comisiwn Ffiniau i Gymru,
Tŷ Hastings,
Llys Fitzalan
Caerdydd,
CF24 0BL

Ein Cyf: SNK/CM

28 Mawrth 2022

Annwyl Gadeirydd,

**Ynghylch: Cynigion Cychwynnol Arolwg 2023 y Comisiwn Ffiniau i Gymru – Aberafan Porthcawl**

Yn dilyn fy nghyflwyniad yn y sesiwn dystiolaeth yn Abertawe ar 1 Mawrth, roeddwn eisiau anfon y cyflwyniad ysgrifenedig hwn.

Mae gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru waith anodd iawn i'w wneud, o ystyried y meini prawf llym a chyfarwyddol a nodir yn y ddeddfwriaeth a'r arwyddocâd y mae'r Ddeddf yn ei roi i gwota etholiadol y DU.

Mae'r dasg yn fwy problematig fyth pan fyddwch yn ystyried topograffi Cymru a'r patrymau cyferbyniol o ran poblogaethau, sy'n ddwys yn yr ardaloedd o amgylch yr M4 a'r A55, o gymharu â'r ardaloedd prin eu poblogaeth yng nghanolbarth Cymru.

Croesewir cynigion y Comisiwn mewn perthynas ag etholaeth bresennol Aberafan ac *Aberafan Porthcawl*.

Maent yn cydnabod ac yn parchu'r cysylltiadau lleol sy'n bodoli rhwng y 13 ward yn Aberafan y cynigir eu cynnwys yn etholaeth *Aberafan Porthcawl*.

Mae cysylltiadau hanesyddol rhwng y wardiau hyn ac maent yn rhannu treftadaeth ddiwydiannol, boed yn gymunedau a dyfodd o amgylch y gwaith dur neu'r dreftadaeth lofaol yng nghymunedau Cwm Afan.

Ceir cysylltiadau economaidd â'r cymunedau sy'n gweld tref Port Talbot fel eu canolfan economaidd, ac o'r cymunedau hyn y daw gweithlu'r gwaith dur. Mae llawer o'r busnesau lleol yn y cymunedau hyn yn dibynnu ar y gwaith dur, naill ai drwy'r gadwyn gyflenwi neu oherwydd bod y gweithlu'n defnyddio'r busnesau hyn.

Ceir cysylltiadau trafnidiaeth â'r cymunedau hyn a wasanaethir gan orsaf reilffordd Port Talbot ac mae'r gwasanaethau bws hefyd yn gysylltiedig â Phort Talbot.

**Stephen Kinnock** Aelod Seneddol dros Aberfan

[redacted]

Yn ogystal, ceir cysylltiadau cymunedol. Mae plant o Gwm Afan ac o Lansawel yn derbyn eu haddysg uwchradd mewn ysgolion yn ardaloedd Aberafan, Baglan a Thai-bach yn yr etholaeth.

Mae cysylltiad cynhenid yn bodoli rhwng Cwm Afan â Phort Talbot. Ceir cysylltiadau trafnidiaeth ac economaidd â'r dref. Mae enw Cwm Afan yn deillio o afon Afan, yn yr un modd â'r enw Aberafan.

Mae'n siomedig nad yw tair ward Coed-ffranc, sy'n cynnwys Sgiwen, Jersey Marine a Thwyni Crymlyn, wedi'u cynnwys yn etholaeth arfaethedig *Aberafan Porthcawl*, ond mae eu cynnwys mewn etholaeth â Chastell-nedd yn ddealladwy, o ystyried y cysylltiadau agos rhwng y cymunedau hyn.

Gan droi at ran 'Porthcawl' o *Aberafan Porthcawl*, bu wardiau Corneli, y Pîl, Rest Bay, Notais, Canol Dwyrain Porthcawl, Canol Gorllewin Porthcawl a Newton yn rhan o etholaeth Aberafan cyn Arolwg Ffiniau 1983, pan ddefnyddiwyd yr ardaloedd hyn, ynghyd â rhannau o Ogwr, i greu etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr.

Fel y cymunedau arfordirol yn Aberafan, maent yn rhannu llawer o'r un nodweddion. Mae Port Talbot yn dref borthladd a bu Porthcawl yn borthladd glo ar un adeg. Fel Aberafan, mae gan Borthcawl hanes fel cyrchfan glan môr ac mae'n parhau i fod yn gyrchfan i dwristiaid.

Yn ddaearyddol, mae'r Pîl yn agos iawn at ward Margam yn Aberafan, ac mae nifer fach o etholwyr yn etholaeth Aberafan sydd â chyfeiriad yn y Pîl. Mae gan y Pîl dreftadaeth ddiwydiannol hefyd (pyllau glo, gwaith golosg a gweithfeydd haearn) fel y cymunedau yn Aberafan.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng Port Talbot a Phorthcawl ar hyd ffordd yr A48.

Mae creu'r etholaeth newydd o 13 ward yn etholaeth Aberafan a 10 ward yn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfyngu ar darfu ar draws ffiniau'r etholaethau presennol.

Er ei bod yn well i etholaethau gyd-ffinio â ffiniau awdurdodau lleol, mae natur gyfarwyddol y ddeddfwriaeth yn golygu nad yw hyn bob amser yn bosibl. Mae'r cynnig hwn yn lleihau'r tarfu ar ffiniau llywodraeth leol, ac mae'n ymwneud â dau awdurdod lleol yn unig, sef Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.

Ar ôl edrych ar yr ymatebion i'r cynigion cychwynnol ar gyfer *Aberafan Porthcawl*, rwy'n ymwybodol o bryderon ynghylch cynnwys wardiau sy'n rhan o dref Pen-y-bont ar Ogwr yn y cynnig hwn.

[redacted]

**Stephen Kinnock** Aelod Seneddol dros Aberfan

[redacted]

Fodd bynnag, mae'r cynigion amgen a awgrymwyd, a fyddai'n cynnwys cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr â'r 13 ward yn Aberafan, yn creu problemau o ran cysylltiadau trafnidiaeth. Gall cysylltiadau trafnidiaeth gwael arwain at deimlad ymhlith preswylwyr eu bod wedi'u gwahanu oddi wrth y sawl a etholwyd i'w cynrychioli.

Er bod cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr yn debyg i Gwm Afan ac yn rhannu llawer o'r un nodweddion, mae topograffi cymunedau'r cymoedd hyn yn gwneud cysylltiadau rhyngddynt yn anodd.

Byddai'r gwrthgynigion ar gyfer *Aberafan Porthcawl* naill ai'n golygu taith lafurus i gyrraedd rhannau o'r etholaeth, neu deithio drwy etholaeth gyfagos Pen-y-bont.

Y llwybr symlaf ar gyfer teithio o Bort Talbot i gymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr yw ar hyd traffordd yr M4, ond yn ôl y gwrthgynigion, byddai hynny'n golygu croesi etholaeth gyfagos Pen-y-bont.

Byddai teithio o Bort Talbot i gymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr, ond gan aros o fewn etholaeth *Aberafan Porthcawl* y gwrthgynnig, yn golygu teithio i fyny Cwm Afan. Er bod cysylltiadau ffyrdd rhwng Cwm Afan a Chaerau a Maesteg yn dda, er mwyn cyrraedd cymunedau fel Pontycymer a Blaengarw yng Nghwm Garw, byddai'n rhaid teithio i fyny Cwm Afan, i lawr Cwm Llynfi, ac yn ôl i fyny Cwm Garw, sef tua awr o daith.

Dewis arall fyddai teithio i fyny Cwm Afan, a chroesi ar draws i Gwm Ogwr ac i lawr Cwm Ogwr, ac yn ôl i fyny Cwm Garw, sef tua awr o daith, unwaith eto.

Mewn gwirionedd, bydd pobl yn defnyddio'r llwybr byrraf a mwyaf uniongyrchol ar hyd yr M4, gan fynd drwy'r etholaeth gyfagos.

Byddai trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu cymoedd Garw ac Ogwr hefyd yn mynd drwy etholaeth gyfagos Pen-y-bont. Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael o Bort Talbot i Faesteg, ond mae teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus o Bort Talbot i Flaengarw neu Nant-y-moel yn golygu taith fws i dref Pen-y-bont ar Ogwr, yn yr etholaeth gyfagos, ac yna taith yn ôl i fyny'r cwm priodol.

Croesawir y cynnig ar gyfer etholaeth *Aberafan Porthcawl*, ond o ystyried y pryderon ynghylch cynnwys wardiau sy'n rhan o dref Pen-y-bont ar Ogwr yn etholaeth arfaethedig *Aberafan Porthcawl*, ac o ystyried y cysylltiadau cymunedol agos sydd gan yr ardaloedd preswyl hyn â Phen-y-bont ar Ogwr, pe bai'r Comisiwn yn bwriadu edrych eto ar y cynnig a mynd i'r afael â'r pryderon hyn, un addasiad bach y gellid ei wneud byddai cynnwys ward 'Llangewydd and Brynhyfryd' a ward 'Cefn Glas' yn etholaeth arfaethedig Pen-y-bont.

[redacted]

**Stephen Kinnock**
Aelod Seneddol dros Aberfan

[redacted]

Byddai hyn yn gadael etholaeth *Aberafan Porthcawl* â 73,554 o etholwyr, sydd ar ben isaf cwota etholiadol y DU, a byddai etholaeth arfaethedig Pen-y-bont yn fwy na chwota etholiadol y DU, â 77,626 o etholwyr.

Er mwyn darparu ar gyfer hyn, gellid symud ward Cefn Cribwr o etholaeth arfaethedig Pen-y-bont i etholaeth arfaethedig *Aberafan Porthcawl*, a fyddai'n eu gadael â 76,446 a 74,734 o etholwyr, yn y drefn honno.

Mae gan Gefn Cribwr gefndir mwyngloddio, fel llawer o Gwm Afan, ac mae gan y gymuned gysylltiadau agos hefyd â Mynydd Cynffig, sydd eisoes wedi'i gynnwys yn etholaeth arfaethedig *Aberafan Porthcawl*.

Mae gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru'r dasg anodd o weithredu'r ddeddfwriaeth hon. Beth bynnag fo'r cynigion a gyflwynir, maent yn sicr o siomi rhai pobl, ond mae hynny oherwydd y paramedrau cul ac anhyblyg a nodir yn y ddeddfwriaeth ar gyfer gwaith y Comisiwn.

Mae *Aberafan Porthcawl* yn gynnig sy'n bodloni'r cwota etholiadol, a chyn belled ag sy'n ymarferol bosibl, mae'n cydnabod ystyriaethau daearyddol arbennig, ffiniau llywodraeth leol, ffiniau etholaethau presennol, 'cysylltiadau lleol' a'r anghyfleustra y mae newidiadau o'r fath yn ei greu.

Er nad yw'r cynnig yn berffaith o bell ffordd, ni ddylid gwrthod cynnig da wrth geisio am berffeithrwydd. Mae *Aberafan Porthcawl* yn gynnig sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth, ac ymhen amser, gall fod o fudd i'r etholwyr.

Yr eiddoch yn gywir,

[redacted]

**Aelod Seneddol dros Aberafan**

[redacted]

BCW-10177/ Russell George AS/ Sir Drefaldwyn

**Russell George**
Aelod Senedd Cymru dros Sir Drefaldwyn
Member of the Welsh Parliament for Montgomeryshire



Ymgynghoriad ar Arolwg 2023
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Llawr Gwaelod, Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

RG /GB/ BCW250322

25 Mawrth 2022

Ynghylch: Ymgynghoriad ar Arolwg 2023 – Sir Drefaldwyn

Annwyl Syr/ Madam

Fel yr Aelod o'r Senedd dros Sir Drefaldwyn, ysgrifennaf i gefnogi'r cynnig presennol gan y teimlaf ei bod yn hollbwysig i Sir Drefaldwyn barhau yn ei chyfanrwydd a heb ei rhannu.

Mae manteision gweinyddol ac etholiadol amlwg i hyn. Bydd Sir Drefaldwyn yn parhau i gael ei chynrychioli yn y Senedd. Felly, wrth gadw Sir Drefaldwyn (ond gan ychwanegu Llangollen a chymunedau cyfagos, sydd i'w groesawu) yn San Steffan, gellir cynnal eglurder a sicrwydd ymhlith yr etholwyr.

Yn ogystal, mae Sir Drefaldwyn yn sedd hanesyddol iawn. O ran hanes Senedd San Steffan, rhoddwyd sedd i Sir Drefaldwyn yn ystod teyrnasiad Harri VIII. Ers hynny, mae Sir Drefaldwyn, bron trwy gydol yr amser, wedi bod â chynrychiolydd yn San Steffan. Felly, croesawir y cynnig presennol gan ei fod yn cadw Sir Drefaldwyn fel endid ac mae hyn yn rhoi hyder i'w chymunedau ar gyfer y dyfodol.

Cofion Cynnes,

[redacted]

Russell George AS | MS

[redacted]

[redacted]

Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives